Rhif: WG38381

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Llywodraeth Cymru
Ymgynghoriad – crynodeb o'r ymateb

Cenhadaeth ein Cenedl: Cwricwlwm Gweddnewidiol

Cynigion am fframwaith deddfwriaethol newydd

Gorffennaf 2019

Mae'r ddogfen yma hefyd ar gael yn Saesneg.
This document is also available in English.

OGL © Hawlfraint y Goron Digidol ISBN 978-1-83876-631-3

Contents

Tabl acronymau 4
Cyflwyniad 5
Yr ymgynghoriad 5
Methodoleg 6
Adrodd canfyddiadau 6
Crynodeb o'r themâu trosfwaol a'r tueddiadau ymhlith ymatebwyr 8
Themâu trosfwaol 8
Tueddiadau ymhlith ymatebwyr 9
Cwricwlwm: cynigion strwythurol 11
Cwestiwn 1 11
Cwestiwn 2 15
Cwestiwn 3 18
Cwestiwn 4 20
Gyrfaoedd a Phrofiadau'n Gysylltiedig â Gwaith 24
Cwestiwn 5 24
Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb 29
Cwestiwn 6 29
Cwestiwn 7 32
Cwestiwn 8 34
Addysg Grefyddol 37
Cwestiwn 9 37
Cwestiwn 10 39
Yr Hawl i Dynnu Plant Allan o Addysg Grefyddol ac Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb 42
Cwestiwn 11 42
Cwestiwn 12 44
Cwestiwn 13 46
Y Gymraeg a Saesneg 48
Cwestiwn 14 48
Trefniadau Asesu Dysgwyr 53
Cwestiwn 15 53
Trefniadau Gwerthuso 57
Cwestiwn 16 57
Cwestiwn 17 59
Asesiadau Effaith 63
Cwestiwn 18 63
Cwestiwn 19 65
Cwestiynau ychwanegol 68

Cwestiwn 20 68
Cwestiwn 21 68
Cwestiwn 22 72

Tabl acronymau

Acronym	Fersiwn lawn
AB	Addysg Bellach
ABCh	Addysg Bersonol a Chymdeithasol
ABGIE	Addysg Bersonol, Gymdeithasol, Iechyd ac Economaidd
ACRh	Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb
ADY	Anghenion Dysgu Ychwanegol
AERh	Asesiad Effaith Rheoleiddiol
AG	Addysg Grefyddol
AGA	Addysg Gychwynnol Athrawon
AGG	Addysg Gysylltiedig â Gwaith
CC	Cwricwlwm Cymru
CCUHP	Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn
CEHD	Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol
ITM	Ieithoedd Tramor Modern
LGBT	Pobl Lesbiaidd, Hoyw, Ddeurywiol a Thrawsrywiol
MDPh	Maes Dysgu a Phrofiad
STEM	Gwyddoniaeth, Technoleg, Peirianneg a Mathemateg
UNESCO	Sefydliad Addysg, Gwyddoniaeth a Diwylliant y Cenhedloedd Unedig

Cyflwyniad

Comisiynwyd Arad gan Lywodraeth Cymru i ddadansoddi ymatebion i'r ymgynghoriad ar *Cenhadaeth ein Cenedl: Cwricwlwm Gweddnewidiol: Cynigion am fframwaith deddfwriaethol newydd*. Mae'r papur hwn yn cyflwyno canfyddiadau allweddol y dadansoddiad, gan adnabod y negeseuon a themâu allweddol a gyflwynwyd mewn ymatebion i'r ymgynghoriad.

Yr ymgynghoriad

Nod *Addysg yng Nghymru: Cenhadaeth ein cenedl, Cynllun gweithredu 2017–21* yw codi safonau, lleihau'r bwlch cyrhaeddiad a chyflwyno system addysg sy'n destun hyder a balchder cenedlaethol.[1] Mae datblygiad trefniadau cwricwlwm ac asesu newydd (a ddatblygwyd ers 2016 mewn partneriaeth â rhwydwaith o Ysgolion Arloesi a rhanddeiliaid addysg eraill) yn elfen greiddiol o gyrraedd y nod hwn. Er mwyn cefnogi'r trefniadau newydd, mae Llywodraeth Cymru hefyd yn arwain ar sefydlu dull cydlynol a chyson tuag at asesu, gan ganolbwyntio ar ddysgwyr unigol er mwyn galluogi pawb i gyflawni eu potensial llawn.

Ochr yn ochr â'r gwaith hwn, mae angen diweddaru'r fframwaith deddfwriaethol er mwyn gweithredu'r trefniadau cwricwlwm ac asesu newydd. Mae ymgynghoriad y Papur Gwyn yn ceisio barn ar y cynigion am ddeddfwriaeth ar gyfer strwythur y fframwaith ar gyfer y cwricwlwm newydd, gyda'r pedwar diben wrth ei galon, y chwe Maes Dysgu a Phrofiad, y Gymraeg, Saesneg, Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb ac Addysg Grefyddol. Bydd hefyd yn esbonio ein bwriadau ehangach o ran asesu dysgwyr a gwerthuso ysgolion.

Lansiwyd yr ymgynghoriad ar *Cenhadaeth ein Cenedl: Cwricwlwm Gweddnewidiol* ar 28 Ionawr 2019 ac fe gaeodd ar 25 Mawrth 2019. Mae testun llawn yr ymgynghoriad ar gael yma:

https://llyw.cymru/cenhadaeth-ein-cenedl-cwricwlwm-gweddnewidiol

Derbyniodd Llywodraeth Cymru gyfanswm o 1780 o ymatebion i'r ymgynghoriad hwn:

- 1606 o ymatebion drwy'r ymgynghoriad ar-lein
- 133 o ymatebion drwy e-bost
- 21 o ymatebion drwy'r post
- 20 o ymatebion a ddefnyddiodd y fersiwn hawdd ei ddeall a'r fersiwn ar gyfer pobl ifanc.

Yn ogystal, derbyniwyd ymatebion drwy ddwy ymgyrch:

- 146 o ymatebion a gafwyd drwy ymgyrch a drefnwyd gan Gymdeithas yr Iaith; a
- 189 o ymatebion a gafwyd drwy ymgyrch a drefnwyd gan y Dyneiddwyr.

[1] Llywodraeth Cymru (2017), *Addysg yng Nghymru: Cenhadaeth ein Cenedl*.

Wedi ei gynnwys o fewn y 133 o ymatebion drwy e-bost roedd adroddiad gan Cymru Ifanc, a oedd wedi ymgynghori gyda thros 180 o bobl ifanc er mwyn bwydo mewn i adroddiad cynrychioliadol.

Cafodd 131 o ymatebion eu hadnabod fel ymatebion gan sefydliadau neu gyrff cynrychioli a 43 o ymatebion gan ysgolion, llywodraethwyr neu athrawon (mae'n bosibl bod sefydliadau, cyrff cynrychioli neu ysgolion eraill wedi ymateb ond wedi penderfynu aros yn anhysbys).

Mae'n bwysig nodi na ddarparodd bob ymatebydd ateb i bob un cwestiwn. Cafwyd amrywiaeth yn nifer yr ymatebion i gwestiynau caeedig ('Ydw / Nac ydw / Ddim yn gwybod') a nifer y sylwadau ysgrifenedig rhwng cwestiynau. Mae nifer yr ymatebion i bob cwestiwn wedi'i nodi yn yr adrannau perthnasol yn yr adroddiad hwn.

Methodoleg

Dadansoddwyd y data meintiol a gasglwyd (h.y. y data yn seiliedig ar gwestiynau caeedig) yn unol â strwythur cwestiynau'r ymgynghoriad. Mae'r data meintiol hwn yn cynnwys atebion 'ydw', 'nac ydw' neu 'ddim yn gwybod' i rai cwestiynau. Datblygwyd categorïau ar gyfer y gwahanol safbwyntiau, sylwadau, datganiadau a materion a godwyd a'u trefnu'n themâu trosfwaol. Nod y dadansoddiad oedd adnabod y themâu a godwyd fwyaf aml ar draws yr ymatebion i'r ymgynghoriad. Roedd y broses ar gyfer cwblhau'r dadansoddiad hwn fel a ganlyn:

1. Adolygwyd sampl o ymatebion a ddewiswyd ar hap gan ddau ymchwilydd (bob ymchwilydd yn adolygu hanner gwahanol o'r sampl). Penderfynwyd ar faint y sampl yn dibynnu ar gyfanswm yr ymatebion a dderbyniwyd i bob cwestiwn, gan sicrhau o leiaf 20% o gyfanswm i bob cwestiwn.
2. Cafodd yr ymatebion eu codio fesul thema, er mwyn adnabod y themâu a godwyd fwyaf aml.
3. Adolygodd un ymchwilydd gweddill yr ymatebion i bob cwestiwn er mwyn sicrhau cysondeb gyda'r themâu a gofnodwyd drwy'r sampl ac er mwyn unrhyw themâu newydd a gyflwynwyd. Roedd y broses hon yn cynnwys cymharu sylwadau gan unigolion a atebodd 'ydw', 'nac ydw' neu 'ddim yn gwybod' i gwestiynau perthnasol.
4. O ganlyniad, sicrhawyd bod bob un ymateb unigol yn cael ei adolygu yn ystod y broses ddadansoddi.

Cyflwynwyd rhai cwestiynau fel cwestiynau agored, heb fod gofyn i ymatebwyr nodi p'un ai oeddent yn cytuno neu'n anghytuno gyda'r cynigion. Roedd cwestiynau eraill yn cynnwys cwestiynau caeedig 'Ydw/Nad ydw' neu roeddent yn gofyn i ymatebwyr i gofnodi a oeddent yn cytuno gyda'r cynigion. Yn yr achosion hynny lle gofynnwyd cwestiynau 'Ydw/Nac ydw', cyflwynir y canlyniadau o dan bob cwestiwn perthnasol. Yn ogystal, ar gyfer rhai cwestiynau mae'n bosibl trefnu'r ymatebion fesul categori: cytuno, anghytuno, niwtral neu gymysg.

Adrodd canfyddiadau

Mae'r adroddiad hwn, felly, yn cyflwyno themâu a godwyd yn aml ar draws ymatebion i'r ymgynghoriad. Ceir sail dystiolaeth sylweddol drwy'r ymgynghoriad sy'n cefnogi'r themâu hyn ac yn darparu manylion ychwanegol i'w defnyddio gan Lywodraeth Cymru.

Drwy gydol yr adroddiad, mae'r themâu a'r pwyntiau a gyflwynir yn seiliedig ar sylwadau gan ymatebwyr i'r ymgynghoriad ac nid ydynt yn cynrychioli barn awduron

yr adroddiad. Er mwyn egluro hyn, o dan bob un cwestiwn cyflwynir prif destun yr is-adrannau gyda'r datganiad isod (neu amrywiad ohono):
Ymhlith yr ymatebwyr a atebodd 'ydw' / 'nac ydw' / 'ddim yn gwybod' roedd y themâu a godwyd amlaf fel a ganlyn:

Cyflwynir themâu yn nhrefn amlder yn dilyn bob datganiad (h.y. y themâu a godwyd fwyaf aml sydd yn gyntaf ym mhob is-adran).

Er mwyn cyflwyno'r dadansoddiad mewn modd cryno ac er mwyn osgoi ail-adrodd gormodol, nid yw'r awduron wedi cyflwyno bob yn thema gyda chymalau megis *'Nododd ymatebwyr fod...'.* Yn hytrach, ceir rhagdybiaeth y bydd y darllenydd yn deall bod yr holl themâu a gyflwynir yn grynodeb neu aralleirio neu sylwadau gan unigolion a sefydliadau a gyfrannodd i'r ymgynghoriad.

Yn olaf, ceir detholiad o ddyfyniadau ar hyd yr adroddiad er mwyn cyfleu'r pwyntiau a themâu a godwyd.

Crynodeb o'r themâu trosfwaol a'r tueddiadau ymhlith ymatebwyr

Mae'r adran gychwynnol hon yn cyflwyno prif themâu penodol a gododd yn gyson ar draws yr ymgynghoriad yn ei gyfanrwydd. Er bod cwestiynau'r ymgynghoriad yn canolbwyntio ar wahanol feysydd polisi, canfu'r dadansoddiad themâu trosfwaol a themâu sy'n codi dro ar ôl tro ar draws cwestiynau lluosog a/neu sy'n cael eu hailadrodd sawl gwaith gan ymatebwyr.

Yn ogystal, mae'r adran hon yn tynnu sylw at dueddiadau sy'n ymddangos mewn ymatebion gan wahanol grwpiau o ymatebwyr. Tueddiadau mynegol yw'r rhain ac yn nid ydynt yn cynrychioli safbwyntiau pob unigolyn o fewn y grwpiau hyn.

Nodir y cyhoeddwyd yr ymgynghoriad hwn cyn i'r ymatebwyr gael cyfle i weld Cwricwlwm newydd Cymru 2022.

Themâu trosfwaol

Gwelwyd **cefnogaeth weddol gyson i'r egwyddor o ddatblygu dull gweithredu addysgu a dysgu sy'n canolbwyntio'n fwy ar y dysgwr,** gan ganiatáu i athrawon ymateb mewn ffordd hyblyg i anghenion dysgwyr. Yn ogystal, gwelwyd **cefnogaeth weddol reolaidd i'r egwyddor o ddatblygu dull gweithredu sy'n canolbwyntio'n fwy ar y dysgwr ar gyfer asesu** a chynnydd. Gwelwyd bod y prif egwyddorion hyn yn cyd-fynd â gweledigaeth ac ethos y cwricwlwm newydd.

Roedd pwyslais clir ar bwysigrwydd sicrhau **cydbwysedd rhwng dull gweithredu hyblyg sy'n canolbwyntio ar y dysgwr ac a arweinir gan yr ymarferydd,** a **strwythur trosfwaol neu sylfaen ragnodol** y gellir datblygu cwricwla lleol arno/arni. Er bod yr ymatebion i'r ymgynghoriad yn aml yn cydnabod manteision cael mwy o ryddid wrth gynllunio a darparu cwricwlwm, roeddent yn pwysleisio bod yn rhaid bod strwythurau yn eu lle er mwyn sicrhau safoni, monitro a threfniadau atebolrwydd priodol. Yn ogystal, pwysleisiodd yr ymatebwyr i'r ymgynghoriad bwysigrwydd ansawdd a chysondeb o ran y ddarpariaeth.

Gwelwyd bod **angen llawer mwy o fanylder ac eglurder am gynnwys a strwythur y cwricwlwm arfaethedig.** Mae hyn yn berthnasol i'r cynigion ynghylch asesu hefyd (yn enwedig y ffordd y diffinnir y Deilliannau Cyflawniad a'r Camau Cynnydd). Awgrymodd ymatebwyr y bydd angen rhannu enghreifftiau, arferion da a chanllawiau er mwyn sicrhau bod gan yr holl randdeiliaid allweddol ddealltwriaeth glir o'r cwricwlwm a'r dull gweithredu asesu newydd.

Mynegwyd pryderon yn rheolaidd ynghylch **effaith negyddol y cwricwlwm a'r broses o ddiwygio asesu ar lwyth gwaith gweithwyr addysg proffesiynol.** Awgrymwyd y bydd y dysgu ychwanegol a'r gwaith cynllunio, dylunio a darparu a fydd yn gysylltiedig â'r cwricwlwm a'r dull asesu newydd yn rhoi baich sylweddol ar ymarferwyr addysg. Barnwyd bod hyn yn gwaethygu'r pwysau ar weithlu addysgu sydd eisoes dan bwysau aruthrol.

Gwnaethpwyd sylwadau dro ar ôl tro hefyd am adnoddau, a mynegwyd pryderon ynghylch y **diffyg adnoddau digonol i weithredu'r cwricwlwm a'r trefniadau asesu newydd.** Mae hyn yn cynnwys diffyg cyllid digonol i ysgolion, diffyg athrawon sy'n meddu ar gymwysterau addas (gan gynnwys y rhai sy'n gallu addysgu Cymraeg / addysgu trwy gyfrwng y Gymraeg) a diffyg amser ar gyfer dysgu proffesiynol a gweithgarwch datblygu'r cwricwlwm.

Barnwyd bod datblygiad proffesiynol ar gyfer gweithwyr addysg proffesiynol yn elfen greiddiol ac angenrheidiol o ddiwygio'r cwricwlwm ac asesu. Ystyriwyd bod datblygiad proffesiynol strwythuredig ac o ansawdd da yn cyflawni rôl allweddol wrth sicrhau bod gweithwyr addysg yn deall gofynion y cwricwlwm a'r trefniadau asesu newydd, a'u bod yn gallu eu cyflawni.

Barnwyd bod ymgynghori ac ymgysylltu effeithiol gyda rhanddeiliaid allweddol (gan gynnwys rhieni, ysgolion a chyrff cynrychioliadol) yn elfen annatod o'r broses o ddiwygio'r cwricwlwm ac asesu yn y dyfodol. Nododd yr ymatebwyr yn aml y gall rhanddeiliaid o'r fath gynnig dirnadaeth werthfawr ac arbenigedd i'r broses ddiwygio, ac y dylid parchu eu safbwyntiau.

Roedd ymatebwyr penodol, y rhai a nododd eu bod yn rhieni yn arbennig, wedi manteisio ar yr ymgynghoriad fel cyfle i ddatgan eu bod yn anghytuno â'r cynigion ynghylch ACRh. Roedd yr anghytuno hwn yn llinyn cyffredin trwy gydol eu hymatebion i gwestiynau ymgynghori lluosog, gan bwysleisio yn arbennig bwysigrwydd cynnal hawliau rhieni i addysgu eu plant a pharchu credoau crefyddol. Roedd yn amlwg bod hon yn thema yr oedd gan nifer o rieni deimladau cryfion amdani.

Codwyd yr angen i osgoi cwricwlwm gorlawn yn rheolaidd. Barnwyd ei bod yn bwysig sicrhau na chaiff lle o fewn y cwricwlwm ei neilltuo i feysydd pwnc penodol ar draul rhai eraill (er enghraifft, cynyddu'r ddarpariaeth Gymraeg ar draul meysydd pwnc eraill). Barnwyd hefyd ei bod yn bwysig osgoi gorlenwi'r cwricwlwm trwy gyflwyno pynciau penodol yr ystyrir eu bod yn ddianghenraid mewn ysgolion cynradd (gan gynnwys addysg gyrfaoedd ac ACRh).

O bryd i'w gilydd, roedd ymatebwyr yn cael anhawster wrth ymateb yn briodol i gwestiynau'r ymgynghoriad. Ar brydiau, roedd yr ymatebwyr wedi adrodd neu ddangos anhawster wrth ddeall cwestiynau'r ymgynghoriad a/neu ddiffyg ymwybyddiaeth neu ddealltwriaeth o'r wybodaeth yn y ddogfen ymgynghori. Soniwyd bod anwybodaeth o feysydd polisi penodol yn her, yn ogystal ag anhawster wrth ddeall rhywfaint o derminoleg. Cyfeiriwyd at anhawster wrth ymateb yn briodol i strwythurau cwestiynau penodol hefyd (yn arbennig, y ffaith nad oedd modd rhoi ymatebion ar wahân am yr hawl i dynnu allan o ACRh, ac o AG). Roedd y sialensiau hyn yn creu cyfyngiadau penodol o ran ansawdd data yr ymgynghoriad yn gyffredinol.

Tueddiadau ymhlith ymatebwyr

Isod, rydym yn rhoi crynodeb o'r materion a godwyd gan grwpiau amrywiol o ymatebwyr. Mae'n werth nodi bod rhai ymatebwyr wedi dewis peidio enwi unrhyw sefydliad y maent yn ei gynrychioli hefyd efallai.

Rhanddeiliaid addysg allweddol

Rhanddeiliaid addysg allweddol oedd y sefydliadau a'r cyrff hynny sy'n meddu ar gyfrifoldeb strategol trosfwaol ym maes addysg yng Nghymru, neu ddiddordeb ynddo. Roedd ymatebion gan y mathau hyn o randdeiliaid yn tueddu i gefnogi'r cynigion a nodir yn y Papur Gwyn yn gyffredinol. Fodd bynnag, roeddent yn tueddu i ganolbwyntio eu sylwadau ar yr angen am strwythurau atebolrwydd ac arweinyddiaeth gadarn er mwyn cynorthwyo'r cwricwlwm a'r trefniadau asesu newydd, yn ogystal â mwy o fanylder am union gynnwys a strwythur y trefniadau newydd hyn. Yn ogystal, tynnodd y rhanddeiliaid hyn sylw at

gyfleoedd gweithredu a sialensiau sy'n gysylltiedig â'r trefniadau newydd, a'r galwadau a fydd ar y gweithlu addysg yn arbennig.

Sefydliadau o'r trydydd sector a chyrff diddordeb arbennig / cynrychioliadol
Yr ymatebwyr hyn yw'r rhai sy'n ymateb ar ran ystod eang o sefydliadau unigol, grwpiau cymunedol a grwpiau crefyddol, yr oeddent yn aml yn cynrychioli maes arbenigol penodol. O'r herwydd, roedd tuedd i safbwyntiau'r sefydliadau hyn am y Papur Gwyn amrywio, gan ddibynnu ar y graddau yr oeddent yn teimlo bod eu maes diddordeb neu eu maes arbenigol nhw wedi cael ei ystyried yn ddigonol yn y Papur Gwyn. Mae enghreifftiau o feysydd diddordeb neu feysydd arbenigol o'r fath yn cynnwys yr iaith Gymraeg, y sector nas cynhelir neu iechyd meddwl. Yn ogystal, roedd y sefydliadau hyn yn tueddu i ddadlau o blaid cael y cyfle i ymgysylltu â gweithgarwch i ddatblygu'r cwricwlwm yn y dyfodol, oherwydd y bydd eu harbenigedd a'u gwybodaeth nhw yn werthfawr.

Unigolion
Unigolion oedd y rhai a oedd yn ymateb i'r ymgynghoriad yn annibynnol neu nad oeddent wedi nodi'n glir eu bod yn cynrychioli safbwyntiau grŵp, sefydliad neu gorff penodol. Roedd yr ymatebwyr hyn yn tueddu i ofyn am ragor o wybodaeth ac eglurder am y cwricwlwm a'r trefniadau asesu newydd, ac ar brydiau, roeddent yn mynegi dryswch am y trefniadau newydd. Ar brydiau, roedd unigolion wedi mynegi pryderon am y cynigion mewn perthynas ag ACRh, AG a'r iaith Gymraeg. Yn ogystal, roedd ymatebwyr unigol yn tueddu i bwysleisio pwysigrwydd ymgysylltu â rhieni. Fodd bynnag, roedd unigolion yn deall y rhesymeg dros y diwygiadau i'r cwricwlwm ac i drefniadau asesu ac roeddent yn aml yn gefnogol o'r egwyddorion allweddol y seilir y dull gweithredu newydd arnynt. Yn ogystal, roedd unigolion yn tueddu i dynnu sylw at y graddau y mae cymdeithas ehangach yn cyfrannu at gynnwys y cwricwlwm a'r graddau y mae'n paratoi disgyblion ar gyfer cymdeithas ehangach.

Athrawon ac ymarferwyr addysg eraill
Nododd yr ymatebwyr hyn eu bod (neu wedi bod) yn rhan o'r gweithlu addysg (fel athrawon neu benaethiaid). Gwelwyd tuedd i'r math hwn o ymatebydd deimlo'n gadarnhaol am yr egwyddorion sy'n cyfrannu at y cwricwlwm a'r trefniadau asesu newydd ar y cyfan, ond hefyd, roeddent yn mynegi dymuniad am fwy o fanylder, eglurder a chymorth ynghylch sut y bydd gofyn iddynt weithredu newidiadau. Ar brydiau, roedd yr ymatebwyr hyn wedi mynegi pryderon ynghylch gallu y gweithlu a phryderon ynghylch sut y dylent fod yn ffurfio barnau o fewn strwythur y cwricwlwm newydd (megis ffurfio barn am yr hyn a ystyrir yn briodol ar lefel ddatblygiadol a beth yw Deilliannau Cyflawniad addas).

Pobl ifanc
Pobl ifanc yw'r rhai a nododd eu bod yn bobl ifanc yn eu hymateb i'r ymgynghoriad. Yn gyffredinol, mae'r ymatebwyr hyn yn teimlo'n gadarnhaol am y newidiadau sy'n digwydd mewn perthynas â'r cwricwlwm a'r trefniadau asesu, yn enwedig o ran sicrhau bod addysg yn canolbwyntio'n fwy ar y dysgwr ac yn cynnig hyblygrwydd i athrawon. Mae eu hymholiadau a'u pryderon yn tueddu i ganolbwyntio ar y ffordd y bydd y trefniadau newydd yn edrych pan fyddant yn cael eu gweithredu go iawn.

Sector y blynyddoedd cynnar, y sector nas cynhelir a'r sector addysg bellach
Un peth allweddol a bwysleisiwyd yn yr ymatebion a gafwyd gan y sectorau hyn oedd yr angen i sicrhau ystyriaeth ddigonol o effaith y cwricwlwm a'r trefniadau asesu newydd ar y sectorau hyn a'u hymarferwyr.

Cwricwlwm: cynigion strwythurol

Cwestiwn 1

Ydych chi'n cytuno gyda'n dull o ddeddfu ar gyfer strwythur y cwricwlwm newydd?

Ymateb	Canran (nifer)	Nifer a fynegodd sylwadau ychwanegol
Ydw	20.8% (232)	78
Nac ydw	64.3% (718)	333
Dim syniad	14.9% (166)	34
Dim ymateb i'r cwestiwn caeedig		21
Cyfanswm	1116	466

Mae'n werth nodi, ymhlith y rhai a atebodd 'nac ydw' i'r cwestiwn caeëdig, bod yr ymatebydd yn aml wedi nodi eu bod yn anghytuno gydag elfen benodol o'r dull o ddeddfu, yn hytrach na gwrthwynebu'r dull yn gyffredinol. Roedd enghreifftiau o elfennau penodol o'r fath yn cynnwys y cynigion ynghylch ACRh, y dull o ddeddfu o ran y cynigion am ITM a'r cynigion am yr iaith Gymraeg. Trafodir yr elfennau penodol hyn ymhellach isod.

Ymhlith yr ymatebwyr a atebodd 'ydw' neu a fynegodd safbwyntiau niwtral neu gadarnhaol, roedd y themâu a godwyd amlaf fel a ganlyn:

Bydd y dull yn cynorthwyo model mwy hyblyg o gynllunio a darparu cwricwlwm. Roedd rhanddeiliaid addysg allweddol yn tueddu i godi'r thema hon. Barnwyd bod y dull yn llai rhagnodol na'r trefniadau blaenorol ar gyfer y cwricwlwm, gan ganiatáu mwy o ryddid i ysgolion ac ymarferwyr i gynllunio a darparu cwricwlwm sy'n briodol i amgylchiadau dysgwyr. Nododd ymatebwyr y rhoddir pwyslais ar broffesiynoldeb a gwybodaeth ymarferwyr, wrth iddynt gael mwy o ymreolaeth ac annibyniaeth i gynllunio darpariaeth y cwricwlwm mewn ffordd greadigol.

“Cysondeb, y rhyddid i addysgu, athrawon nad ydynt wedi’u cyfyngu gan gynnwys [cwricwlwm]. Y gallu i gynllunio ac addysgu mewn cyd-destun ac ysbrydoli disgyblion.” (Cyfieithiad) [Rhanddeiliad addysg]

Bydd cydbwysedd priodol rhwng canllawiau statudol neu ddeddfwriaeth, a rhyddid o ran y cwricwlwm, yn bwysig. Roedd rhanddeiliaid addysg allweddol yn tueddu i godi'r thema hon. Er yr ystyrir bod dull sy'n caniatáu mwy o ymreolaeth a hyblygrwydd i ymarferwyr yn welliant cadarnhaol, roedd ymatebion yn nodi pwysigrwydd cynnal arweinyddiaeth glir a fframwaith strwythurol clir er mwyn tywys ymarferwyr hefyd. Yn yr un modd, dylid ystyried y cydbwysedd priodol rhwng canllawiau statudol neu ddeddfwriaeth, a chanllawiau mwy hyblyg er mwyn cynorthwyo ymarferwyr.

Bydd y cynigion yn sicrhau dull gweithredu tuag at addysg sy'n canolbwyntio ar y dysgwr. Roedd ymatebion yn cytuno y bydd y dull gweithredu arfaethedig yn cynorthwyo ysgolion ac ymarferwyr i greu cwricwlwm a dull gweithredu addysgol wedi'u teilwra i anghenion dysgwyr. Yn hytrach na mabwysiadu dull gweithredu a ysgogir gan dargedau,

bydd ymarferwyr yn gallu newid eu Camau Cynnydd a'u haddysgu er mwyn sicrhau bod dysgwyr yn cael eu cynorthwyo a'u bod yn teimlo'n frwdfrydig am eu dysgu.

"Rwy'n teimlo bydd y 4 diben a'r meysydd dysgu yn datblygu'r plentyn cyfan a'u bod yn canolbwyntio ar y plentyn. Rwy'n meddwl y bydd yn datblygu rhagor o ddysgu annibynnol ac unigolion ar gyfer byd gwaith sy'n newid yn barhaus." (Cyfieithiad) [Ymatebydd unigol]

Bydd angen rhoi sylw penodol i elfennau penodol o'r gweithredu. Bydd angen rheoli adnoddau (yn rhai ariannol yn ogystal â chapasiti a lles staff) mewn ffordd ofalus er mwyn osgoi rhoi baich ychwanegol ar ysgolion ac athrawon yn ystod y cyfnod gweithredu. Bydd angen annog datblygiad proffesiynol athrawon er mwyn sicrhau eu bod yn gallu addasu i ofynion y cwricwlwm newydd ac ymgyfarwyddo â model darparu llai rhagnodol.

Themâu ychwanegol a godwyd gan ymatebwyr a nododd eu bod yn sefydliadau.

Mynegwyd cefnogaeth gan ymatebwyr tuag at strwythur a chynnwys y cwricwlwm newydd. Roedd ymatebion yn cymeradwyo strwythur arfaethedig y cwricwlwm (a'r strwythur MDPh, y pedwar diben a'r themâu trawsbynciol yn arbennig), gan nodi ei fod yn welliant o'i gymharu â strwythur y cwricwlwm presennol. Cyfeiriodd ymatebwyr at wendidau yn strwythur y cwricwlwm presennol ac roeddent yn teimlo ei bod hi'n amserol diwygio'r cwricwlwm. Nodwyd bod strwythur a chynnwys y cwricwlwm arfaethedig yn berthnasol, yn fodern, yn gyfredol a'i fod yn gallu cynorthwyo dysgwyr i fod yn ddinasyddion cyflawn.

"Mae Dyfodol Llwyddiannus… yn cynnig cyfle 'unwaith-mewn-cenhedlaeth' i foderneiddio nid yn unig y cynnwys y mae ein plant a phobl ifanc yn dysgu ond hefyd y modd y maent yn dysgu, gan gynnig platfform/fframwaith ehangach i ddatblygu ystod o sgiliau angenrheidiol ar gyfer y byd cyfoes." (Cyfieithiad)
[Ymarferydd addysg]

Roedd ymatebwyr eraill wedi mynegi cefnogaeth tuag at y dull o ddeddfu ar gyfer strwythur y cwricwlwm newydd. Roedd sefydliadau yn tueddu i gytuno gyda'r angen i ddeddfu er mwyn cynorthwyo gweithrediad y cwricwlwm newydd. Barnwyd bod deddfwriaeth yn sylfaen angenrheidiol er mwyn diwygio'r cwricwlwm, ac roedd yr ymatebion ynghylch y dull arfaethedig o ddeddfu yn gefnogol ar y cyfan.

"Mae angen ymgorffori'r cwricwlwm newydd mewn deddfwriaeth er mwyn: osgoi amheuaeth ynghylch yr hyn y dylid ei addysgu mewn ysgolion yng Nghymru; y modd y dylid trefnu'r addysgu hynny; ac er mwyn sicrhau eglurder ar gyfrifoldebau gwahanol elfennau'r system addysg. Mae angen deddfwriaeth er mwyn diddymu, diwygio neu wella deddfwriaeth gyfredol sy'n cyfeirio at y cwricwlwm blaenorol." (Cyfieithiad)
[Ymarferydd addysg]

Yn ogystal, roedd rhai sefydliadau yn barnu ei bod yn briodol deddfu ar gyfer y meysydd cwricwlwm amrywiol, gan gynnwys ACRh ac AG. Roedd ymatebion yn nodi bod deddfu ar gyfer pob agwedd ar y cwricwlwm, gan gynnwys newidiadau i'r ffordd y darparir ACRh ac AG, yn angenrheidiol er mwyn sicrhau y gall dysgwyr fanteisio ar addysg gyflawn.

Ymhlith yr ymatebwyr a atebodd 'nac ydw' neu a fynegodd bryderon penodol, roedd y themâu a godwyd amlaf fel a ganlyn:

Ni ddylai elfennau penodol o'r cwricwlwm newydd fod yn orfodol. Dadleuwyd na ddylai Addysg Grefyddol ac Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb fod yn orfodol yn y ffordd a nodir yn y ddeddfwriaeth. Dylai rhieni gadw'r hawl a'r cyfrifoldeb dros benderfynu ar fynediad eu plentyn i AG ac ACRh. Nid yw hi'n briodol ar lefel ddatblygiadol i blant cynradd gael eu cyflwyno i bwnc cydberthnasoedd a rhywioldeb. Barnwyd bod y cynigion ynghylch ACRh yn dangos diffyg parch tuag at gredoau crefyddol, gan gynnwys credoau sy'n ymwneud ag addysg LGBT. Trafodir y thema hon ymhellach yn y dadansoddiad o gwestiynau 6-10 ar dudalennau 27 – 38.

Mae gofyn rhoi mwy o sylw i leithoedd Tramor Modern yn y ddeddfwriaeth. Mynegwyd pryder gan ymatebwyr bod ieithoedd tramor modern (ITM) yn eilbeth yn y cwricwlwm newydd a'r cynigion deddfwriaethol, er anfantais i sgiliau ieithyddol dysgwyr. Dylid rhoi sylw amlwg i ITM yn y ddeddfwriaeth newydd, yn enwedig o ystyried y pwyslais cynyddol ar addysg Gymraeg.

"Os nad oes darpariaeth ar gyfer leithoedd Rhyngwladol mewn deddfwriaeth brimaidd yn benodol, mae risg gwirioneddol y bydd y nifer sy'n dewis ieithoedd ar wahân i'r Gymraeg a Saesneg, sydd eisoes yn fregus, yn gostwng ymhellach neu'n diflannu'n llwyr. Mae hwn yn debygol o ddigwydd fwyaf aml mewn ardaloedd gyda lefelau uchel o amddifadedd cymdeithasol, ac felly'n cynyddu annhegwch ar draws Cymru." (Cyfieithiad) [Sefydliad trydydd sector]

Mynegi gwrthwynebiad cyffredinol i ddiwygio'r cwricwlwm a deddfwriaeth gysylltiedig. Nododd yr ymatebwyr hyn eu gwrthwynebiad cyffredinol i'r cam o ddiwygio'r cwricwlwm. Yn arbennig, roeddent yn nodi nad oes angen ei ddiwygio a bod hyn yn ychwanegu at y newidiadau gormodol sydd eisoes wedi digwydd yn y system addysg yn ddiweddar. Bydd y diwygiadau yn cael effaith niweidiol ar gynnydd disgyblion ac fe allent fod yn feichus i ysgolion, yn ogystal â chyfyngu ar eu rhyddid i ddatblygu eu cwricwlwm eu hunain.

Mae angen cael mwy o fanylder am y broses arfaethedig o ddiwygio'r cwricwlwm a'r ddeddfwriaeth gysylltiedig. Roedd rhanddeiliaid addysg allweddol yn tueddu i godi'r thema hon. Er eu bod yn cytuno â'r dull gweithredu arfaethedig yn gyffredinol, adroddodd rhanddeiliaid addysg allweddol y byddai angen cael eglurder am ofynion manwl y cwricwlwm newydd a'r elfennau asesu. Nododd ymatebwyr unigol bod mynegi barn heb weld manylion pellach am strwythur a chynnwys y cwricwlwm, nas cyhoeddwyd eto, yn heriol.

Pryderon y gallai'r dull o ddeddfu ar gyfer y cwricwlwm newydd arwain at ddiffyg cysondeb a thegwch. Mynegwyd pryderon na fydd y ddeddfwriaeth o reidrwydd yn sicrhau ansawdd addysgu cyson ar draws ysgolion, oherwydd y bydd yr hyblygrwydd sy'n rhan o'r dull gweithredu yn arwain at anghysondebau mewn dulliau addysgu ar draws Cymru. Gallai hyn arwain at ddysgwyr mewn ardaloedd penodol neu ysgolion penodol yn cael addysg o ansawdd gwell neu waeth a bydd newidiadau asesu yn arwain at ddiffyg cydraddoldeb gyda chymwysterau mewn gwledydd eraill.

"Fy mhryder mwyaf yw'r lefel o annibyniaeth sydd gan ysgolion i ddehongli'r Cwricwlwm i Gymru. Mae'r diffyg cynnwys rhagnodedig yn golygu y gallai'r cwricwlwm olygu unrhywbeth i unrhyw un. Bydd hyn yn arwain at loteri cod post gan y bydd rhai ysgolion yn anorfod yn ei gael yn iawn ac eraill yn ei gael yn anghywir….. Mae'n hanfodol bod rhagor o bresgripsiwn yn cael ei gynnig ar y lefel genedlaethol o safbwynt y cynnwys y dylai bod gan bob plentyn

yr hawl i'w astudio. Gallai hyn adael lle o hyd i glystyrau ac ysgolion unigol i osod eu cwricwlwm 'lleol' eu hunain." (Cyfieithiad) [Darparwr addysg]

Mae lle i gynnwys ffocws pellach yn y cwricwlwm a'r ddeddfwriaeth gysylltiedig ar sgiliau allweddol penodol. Roedd ymatebion yn cynnwys safbwyntiau nad yw'r cynigion presennol o reidrwydd yn cynnwys sgiliau allweddol pwysig sy'n angenrheidiol ar gyfer addysg gyflawn. Mae lle i roi mwy o sylw i sgiliau bywyd (megis llythrennedd ariannol) a sgiliau craidd (llythrennedd a rhifedd).

Ni ddylid gorfodi cyfrwng iaith addysg ar ddysgwyr na rhieni. Dylai rhieni gadw'r hawl i ddewis ym mha iaith yr addysgir eu plentyn, ac ni ddylid gorfodi'r iaith Gymraeg ar deuluoedd trwy gyfrwng y cwricwlwm newydd a'r ddeddfwriaeth. Mynegwyd pryderon y bydd gorfodi continwwm Cymraeg ar bob ysgol yn rhoi dysgu plant nad ydynt yn dod o gefndir Cymraeg dan anfantais.

Themâu ychwanegol a godwyd gan ymatebwyr a nododd eu bod yn sefydliadau.

Pryderon ynghylch strwythur arfaethedig y cwricwlwm, ac ynghylch MDPh yn arbennig**.** Mynegwyd pryderon ynghylch y ffaith y gallai gwybodaeth am bynciau penodol wanhau wrth addysgu ar draws MDPh, gan gynnwys y gofyniad i athrawon addysgu y tu hwnt i'w meysydd arbenigol.

"Rydym yn poeni'n fawr am yr awgrym ym mharagraff 3.31 na fydd addysgu ar draws yr holl ystod o bynciau gwyddonol yn ofynnol ar gyfer dysgwyr 14-16 oed. Mae'r geiriad yn awgrymu y bydd dysgwr sy'n dewis arbenigo mewn meysydd cwricwlwm eraill yn derbyn 'profiadau' yn unig o Wyddoniaeth a Thechnoleg, nad yw'n gwarantu dysgu mewn unrhyw ddyfnder neu led." (Cyfieithiad)
[Ymarferydd addysg]

Ni roddwyd ystyriaeth ddigonol i ddarpariaeth y Blynyddoedd Cynnar a'r sector nas cynhelir yn y cynigion. Ni roddwyd ystyriaeth gynhwysfawr i effaith y cam arfaethedig o ddiwygio'r cwricwlwm a'r ddeddfwriaeth gysylltiedig ar y sector hwn. Mae ymatebwyr yn awgrymu bod hwn yn gyfle a gollwyd, gan bod y broses ddiwygio hon yn gyfle i ddatblygu continwwm datblygiad plant o'u genedigaeth nes y byddant yn oedolion.

Dylai Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn fod yn agwedd amlwg ar y cynigion. Nododd sefydliadau bwysigrwydd datblygu dull gweithredu addysgol ar sail hawliau plant, y consensws rhyngwladol ynghylch addysg mewn perthynas â hawliau plant, a chynnwys hawliau dynol yn y cwricwlwm.

Cwestiwn 2

Ydych chi'n cytuno y dylem roi dyletswydd ar ysgolion a Lleoliadau Meithrin a Gyllidir i ddarparu cwricwlwm i helpu'r rhan fwyaf o ddysgwyr i gyrraedd y Deilliannau Cyrhaeddiad a osodir gan yr ysgol, neu ragori arnynt, ac i helpu plant i symud ar hyd y continwwm a'r Camau Cynnydd yn unol â'u datblygiad addysgol?[2]

Ymateb	Canran (nifer)	Nifer a fynegodd sylwadau ychwanegol
Ydw	46.4% (466)	139
Nac ydw	35.0% (352)	112
Dim syniad	18.6% (187)	32
Dim ymateb i'r cwestiwn caeedig		20
Cyfanswm	1005	303

Ymhlith yr ymatebwyr a atebodd 'ydw' neu a fynegodd safbwyntiau niwtral neu gadarnhaol, roedd y themâu a godwyd amlaf fel a ganlyn:

Roedd ymatebwyr yn cytuno gyda'r egwyddor o fabwysiadu dull uchelgeisiol tuag at gynnydd dysgwyr a herio dysgwyr mewn ffordd briodol. Roedd rhanddeiliaid addysg allweddol yn tueddu i godi'r thema hon. Mae'n bwysig bod y system addysg yn cynorthwyo dysgwyr i wireddu eu potensial llawn (gan gynnwys dysgwyr mwy abl y gallent sicrhau cynnydd y tu hwnt i Ddeilliannau Cyflawniad). Barnwyd bod y ddyletswydd newydd yn gadarnhaol o ran ei dull blaengar ac optimistaidd tuag at gynnydd dysgwyr.

"Mae bob amser yn synhwyrol i gefnogi dysgwyr i gyrraedd eu lefelau uchaf o gyrhaeddiad, a phryd bynnag y mae plant yn dangos eu bod yn medru cyrraedd neu rhagori ar ddisgwyliadau a deilliannau craidd, dylid eu hannog a'u cefnogi i wneud hynny." (Cyfieithiad) [Sefydliad trydydd sector]

Bydd Camau Cynnydd yn cynorthwyo dull sy'n canolbwyntio ar y dysgwr ac sy'n briodol ar lefel ddatblygiadol tuag at gynnydd. Roedd rhanddeiliaid addysg allweddol yn tueddu i godi'r thema hon. Nododd ymatebwyr bod Camau Cynnydd yn debygol o ganiatáu i ysgolion addasu mesuriadau cynnydd er mwyn bod yn addas i anghenion dysgu unigol. Mae hwn yn gyfle i addysg fod yn berthnasol, yn gynhwysol ac yn ymatebol i botensial pob dysgwr. Bydd Camau Cynnydd yn caniatáu i ddysgwyr symud yn eu blaen ar gyflymder sy'n briodol i'w datblygiad nhw, yn hytrach nag ar gyflymder camau asesu anhyblyg.

[2] Mae Llywodraeth Cymru yn cynnig y dylid trefnu'r cwricwlwm newydd ar ffurf continwwm dysgu ar gyfer y rhai 3 i 16 oed. Caiff cynnydd ei ddangos trwy **Gamau Cynnydd** ar bum pwynt yn y continwwm, y byddant yn gysylltiedig. Byddant yn gweithredu fel map ar gyfer datblygiad pob dysgwr, gan ystyried gallu, profiadau a chyfraddau dysgu unigol. Bydd dyletswydd ar benaethiaid i osod **Deilliannau Cyflawniad** yn erbyn pob Cam Cynnydd ar gyfer eu disgyblion, y byddent ar ffurf datganiadau sy'n disgrifio math ac amrediad y cyflawniadau sy'n nodweddiadol o blant ym mhob Cam Cynnydd. Byddai gan benaethiaid y disgresiwn i nodi'r union Ddeilliannau Cyflawniad, ond byddai angen iddynt ystyried y Deilliannau Cyflawniad a nodir gan Weinidogion Cymru o fewn canllawiau statudol.

Bydd Camau Cynnydd yn mesur cynnydd mewn ffordd gyson a phriodol. Er bod Camau Cynnydd yn cynorthwyo dull mwy hyblyg ac sy'n canolbwyntio ar y dysgwr tuag at gynnydd, maent yn darparu strwythur cenedlaethol hefyd a fydd yn cynorthwyo cysondeb ar draws ysgolion a chontinwwm cynnydd trwy gyfnodau allweddol.

"Mae'r dull hwn yn galluogi bob dysgwr i ddatblygu yn unol a'i anghenion fel unigolyn tra'n cynnal fframwaith cenedlaethol ar gyfer cyflawniad a chynnydd." (Cyfieithiad) [Sefydliad crefyddol]

Rhaid nodi Camau Cynnydd a Deilliannau Cyflawniad mewn ffordd hollol glir a chynhwysfawr. Mae rhoi dyletswydd ar ysgolion a Lleoliadau Meithrin a Gyllidir i bennu strwythur cynnydd newydd ac anghyfarwydd yn creu sialensiau. O'r herwydd, bydd angen canllawiau clir iawn ynghylch pennu Camau Cynnydd a Deilliannau Cyflawniad, yn ogystal â dulliau o sicrhau gwaelodlinau a chymariaethau clir.

Dylai'r cwricwlwm a ddatblygir fod yn holistig ac yn gynhwysfawr, er mwyn cynnig cyfleoedd addas i ddysgwyr sicrhau cynnydd a meithrin sgiliau bywyd. Mae'r ddyletswydd yn gyfle i ysgolion a Lleoliadau Meithrin a Gyllidir i sefydlu cwricwlwm eang a fydd yn berthnasol i ddysgwyr ac a fydd yn cynorthwyo eu cynnydd mewn bywyd. Mae gadael y gwaith o ddatblygu cwricwlwm o'r fath i ysgolion a Lleoliadau Meithrin a Gyllidir yn gyfan gwbl yn peri risg y gwelir anghysondeb, felly dylai Llywodraeth Cymru roi arweiniad clir ynghylch ei natur holistig a chynhwysfawr.

"Bydd yn bwysig bod pob ysgol yn cynnig i'r disgyblion sydd yn eu gofal cwricwlwm cyfoethog, eang ac arloesol sy'n addas at ei bwrpas er mwyn rhoi'r sgiliau iddynt sydd eu hangen ar gyfer y dyfodol." (Cyfieithiad) [Rhanddeiliad addysg]

Mae angen mwy o fanylder am y broses arfaethedig o ddiwygio'r cwricwlwm a'r Camau Cynnydd a'r Deilliannau Cyflawniad. Mewn rhai achosion, nid oedd ymatebwyr yn gallu nodi a ydynt yn cytuno gyda'r cam o gyflwyno'r ddyletswydd hon, gan nad ydynt yn teimlo bod ganddynt ddigon o wybodaeth am y dull arfaethedig. Yn ogystal, mae ymatebion yn cynnwys safbwyntiau sy'n nodi bod mynegi barn heb weld manylion pellach am y ffordd y bydd y dull gweithredu newydd ynghylch cynnydd yn gweithio, yn heriol.

Themâu ychwanegol a godwyd gan ymatebwyr a nododd eu bod yn sefydliadau.

Nid oedd y themâu a godwyd gan ymatebwyr a nododd eu bod yn sefydliadau yn cynnwys unrhyw bwyntiau ychwanegol i'r rhai a gyflwynir uchod.

<u>Ymhlith yr ymatebwyr a atebodd 'nac ydw' neu a fynegodd bryderon penodol, roedd y themâu a godwyd amlaf fel a ganlyn:</u>

Yn hytrach na rhoi dyletswydd ar bob ysgol o reidrwydd, mae lle i ymddiried ym marn broffesiynol athrawon a defnyddio anogaeth ac arweiniad. Dylid ymddiried mewn gweithwyr addysg proffesiynol i gyflawni eu gwaith heb roi dyletswydd benodol fel y cyfryw, a'u hannog a'u tywys i wneud hynny. Bydd rhoi dyletswydd benodol yn cyfyngu ar y rhyddid wrth gynllunio a darparu cwricwlwm.

Ni fydd Camau Cynnydd yn rhoi sylw digonol i anghenion unigol dysgwyr. Roedd rhanddeiliaid addysg allweddol yn tueddu i godi'r thema hon. Ceir risg y bydd Camau Cynnydd yn disodli targedau neu asesiadau cyfnodau allweddol, gan arwain at barhad dull gweithredu dysgu ac asesu a gaiff ei ysgogi gan dargedau. Nododd ymatebwyr y dylid

teilwra'r ddyletswydd hon i wahanol gymunedau a chefndiroedd dysgwyr, ac na ddylid rhuthro dysgwyr ar hyd y continwwm cynnydd neu eu gadael ar ôl os na fyddant yn bodloni 'targed' Cam Cynnydd. Yn arbennig, gofynnwyd a fyddai'r ddyletswydd hon yn arwain at osod dysgwyr mewn setiau neu ffrydiau yn gynharach. Yn ogystal, mynegwyd pryderon ynghylch y ffaith y gallai unrhyw ddulliau asesu o'r fath effeithio ar fwynhad dysgwr o'u haddysg.

"Nodwn y trafferthion a adroddwyd eisoes gan ysgolion uwchradd wrth ddelio gyda'r gwahaniaethau mewn profiadau a chyrhaeddiad ymysg dysgwyr sy'n eu cyrraedd o wahanol ysgolion cynradd. Mae perygl y gallai'r cynigion ychwanegu at y gwahaniaethau mewn cynnydd a'r angen i ysgolion uwchradd i ymateb i wahanol anghenion dysgwyr. Mae rhai athrawon wedi rhoi gwybod i ni y gallai'r cynigion arwain at setio dysgwyr yn gynharach nag sy'n digwydd ar hyn o bryd, a allai gwreiddio yn hytrach na lleihau anghydraddoldeb mewn deilliannau." (Cyfieithiad) [Ymarferydd addysg]

Ni fydd Camau Cynnydd yn mesur cynnydd yn gyson ac mewn ffordd briodol o reidrwydd. Bydd mabwysiadu dull hyblyg ac sy'n canolbwyntio'n fwy ar y dysgwr tuag at gynnydd ar hyd continwwm yn creu anawsterau wrth gymharu cynnydd ac mae'n rhoi gormod o bwyslais ar athrawon yn defnyddio eu barn eu hunain er mwyn asesu cynnydd dysgwyr a'u potensial.

Mae angen sicrhau strwythurau atebolrwydd priodol er mwyn cyflawni deilliannau. Roedd rhanddeiliaid addysg allweddol yn tueddu i godi'r thema hon. Mae angen lleihau'r risg y caiff Camau Cynnydd eu defnyddio fel 'targedau' newydd i ddisgyblion eu cyflawni, ac a ddefnyddir er mwyn cymharu deilliannau ar lefel ysgol. Mae angen osgoi sefyllfa lle y bydd ysgolion yn gwthio disgyblion yn rhy gyflym trwy Gamau Cynnydd, neu'n methu pennu disgwyliadau digon uchel. O'r herwydd, rhaid bod system atebolrwydd genedlaethol mewn grym er mwyn sicrhau bod Deilliannau Cyflawniad yn cael eu pennu a'u safoni mewn ffordd effeithiol.

"Mae angen i fesurau atebolrwydd fod yn glir ac yn caniatáu hefyd i'r cwricwlwm gael ei yrru gan gyd-destun lleol. Mae angen cysondeb ar draws ysgolion i sicrhau tegwch o ran safonau ar draws clystyrau fel nad yw disgyblion dan anfantais yn sgil gallu neu safonau ysgolion." (Cyfieithiad) [Darparwr addysg]

Dylai rhieni ymgysylltu â'r broses o gynllunio cwricwlwm a Deilliannau Cyflawniad ac yn arbennig, ni ddylid gorfodi rhai o elfennau'r cwricwlwm. Dylai rhieni gael rhywfaint o fewnbwn am gynnydd eu plentyn a dylent fod yn gyfrifol am wneud y penderfyniad terfynol am elfennau penodol o'r cwricwlwm (ACRh yn enwedig). Trafodir y farn hon ymhellach yn y dadansoddiad o gwestiynau 6-9 ar dudalennau 27 – 38.

Mae angen canolbwyntio ar ddysgu a sgiliau eraill, ac eithrio dysgu traddodiadol y cwricwlwm, ac ar sefydlu sgiliau craidd. Mae sgiliau bywyd a sgiliau cymdeithasol yn elfennau yr un mor bwysig o ddysgu, yn enwedig o ystyried y ffaith na fydd pob dysgwr yn sicrhau cynnydd ar yr un cyflymder. Dylai addysg gychwynnol ganolbwyntio ar ddarparu sylfaen gadarn mewn sgiliau craidd (megis llythrennedd a rhifedd).

Mae angen cymorth ac adnoddau ar ysgolion i weithredu ynghylch y ddyletswydd hon. Mae angen adnoddau ychwanegol (ariannol, staff ac amser) ac arweiniad gan bartneriaid addysg ar ysgolion er mwyn cyflawni'r ddyletswydd newydd hon. Ceir pryderon y bydd y ddyletswydd hon yn rhoi baich ychwanegol sylweddol ar y proffesiwn addysg, o fewn cyd-destun cyfyngiadau cyllidebol sy'n bodoli eisoes.

“Ni ddylai rôl llywodraeth i ddarparu cwricwlwm a chyngor sylfaenol gael ei ddirprwyo yn gyfan gwbl i ysgolion sydd eisoes o dan bwysau ac heb ddigon o staff. Os yw ysgolion yn gweld budd amlwg trwy addasu agweddau o’r cwricwlwm yna fe ddylent ymgynghori gyda’r Llywodraeth ynghylch y newidiadau hyn.” (Cyfieithiad) [Unigolyn – ddim yn cynrychioli sefydliad]

Mynegwyd ychydig feirniadaeth am y ffaith bod y cwestiwn yn aneglur neu'n ddianghenraid. Nodwyd bod geiriad y cwestiwn yn aneglur neu ei bod yn ymddangos bod y ddyletswydd hon yn ofyniad cwbl amlwg i ysgolion a Lleoliadau Meithrin a Gyllidir.

Themâu ychwanegol a godwyd gan ymatebwyr a nododd eu bod yn sefydliadau.

Ni ystyriwyd sut y mae'r ddyletswydd yn berthnasol i ddarparwyr Blynyddoedd Cynnar a phartneriaid eraill. Byddai sefydliadau yn gwerthfawrogi eglurder ynghylch sut y mae'r ddyletswydd yn berthnasol iddynt fel darparwyr addysg a byddent yn gwerthfawrogi trafodaeth am effaith y dull cynnydd newydd ar eu dulliau addysgol. Byddai partneriaid addysg yn dymuno cael eglurder am eu rôl wrth gefnogi'r ddyletswydd newydd.

Cwestiwn 3

Pa gamau ddylai'r pennaeth a'r corff llywodraethu eu cymryd i gyflawni'r ddyletswydd hon?

Cafwyd cyfanswm o 413 o sylwadau mewn perthynas â'r cwestiwn hwn.

Crynodeb o'r themâu a fynegwyd amlaf yn yr ymatebion i'r ymgynghoriad.

Bydd rheolaeth effeithiol o'r adnoddau o'r pwys mwyaf. Mae angen rheoli adnoddau yn ofalus er mwyn sicrhau y gweithredir newidiadau yn gywir, a hynny heb rhoi baich ychwanegol ar athrawon. Mae hyn yn cynnwys adnoddau ariannol, capasiti staff, adnoddau addysgu a gwybodaeth staff, y bydd angen neilltuo'r rhain i gyd i ddatblygu cwricwlwm newydd ar lefel ysgol. Mynegwyd pryderon ynghylch y ffaith y bydd ymateb i'r ddyletswydd hon yn waith hynod o heriol o ystyried y cyfyngiadau presennol ar gyllidebau ysgolion a'r faich bresennol ar athrawon.

Rhaid darparu cymorth ar gyfer datblygiad proffesiynol athrawon, gan gynnwys eu hymgysylltu â'r broses ddiwygio. Roedd rhanddeiliaid addysg allweddol yn tueddu i godi'r thema hon. Bydd angen i athrawon gael cyfleoedd datblygiad proffesiynol o ansawdd uchel, gan gynnwys cyfleoedd dysgu anffurfiol a'r cyfle i ymgysylltu â'r broses ddiwygio. Diben hyn yw sicrhau y gallant addasu'n llwyddiannus i ddull gweithredu y cwricwlwm newydd, sy'n wahanol iawn i'r dull gweithredu cyfredol sy'n fwy rhagnodol, gan sicrhau y gall athrawon addasu i ddulliau asesu newydd. Mae hyn yn cynnwys sicrhau bod llywodraethwyr yn meddu ar y sgiliau cywir i arwain yn ystod y cyfnod pontio.

“HMS ychwanegol wedi’i neilltuo ar gyfer cefnogi a pharatoi staff ar gyfer yr heriau sydd dan sylw. Cefnogaeth a chyngor gan ymgynghorwyr her o safbwynt paratoi a chynllunio o gymharu ag ysgolion eraill.” (Cyfieithiad) [Darparwr addysg]

Mae'n bwysig pennu prosesau gwerthuso ac atebolrwydd clir, a chadw atynt. Roedd rhanddeiliaid addysg allweddol yn tueddu i godi'r thema hon**.** Dylai ysgolion a phartneriaid addysg ehangach bennu strwythurau effeithiol er mwyn monitro gweithrediad y cwricwlwm a'r trefniadau asesu newydd, rheoli perfformiad athrawon, gwerthuso newidiadau a monitro cynnydd dysgwyr. Bydd strwythurau o'r fath yn ganolog i'r broses gymhleth o bontio i gwricwlwm newydd, a bydd yn lleihau'r risg o weld anghysondeb ar draws gwahanol ysgolion a rhanbarthau.

Dylai penaethiaid a chyrff llywodraethu bennu safonau addysgol uchel a disgwyliadau uchel trwy gyfrwng arweinyddiaeth effeithiol. Roedd rhanddeiliaid addysg allweddol yn tueddu i godi'r thema hon. Dylai polisïau ac arweinyddiaeth baratoi athrawon a dysgwyr i sicrhau safonau uchel dan y cwricwlwm newydd. Dylent sicrhau y rhoddir blaenoriaeth i Safonau Proffesiynol ar draws yr ysgol a bod gan athrawon a dysgwyr ddisgwyliadau uchel o ran ansawdd yr addysg a chynnydd dysgwyr.

“Sefydlu ysgolion fel Sefydliadau Dysgu, gan sicrhau addysgeg o ansawdd uchel. Arweinyddiaeth wedi’i ddosbarthu ar draws yr ysgol, er mwyn fod pob aelod staff yn arweinydd hyfedr yn eu meysydd cyfrifoldeb... bydd hunan-arfarnu i safon uchel ar bob lefel yn sicrhau system sy’n hunan-wella.” (Cyfieithiad) [Darparwr addysg]

Dylai penaethiaid a chyrff llywodraethu annog diwylliant ysgol sy'n cynorthwyo arloesi ac addasu. Mae angen sefydlu amgylchedd ysgol sy'n cynorthwyo rhagoriaeth mewn addysgu a dysgu, lle y gall athrawon dreialu dulliau arloesol ac addysgu heb deimlo eu bod yn cael eu gyrru gan dargedau. Dylai'r diwylliant hwn sicrhau bod y cwricwlwm a ddatblygir ar lefel ysgol yn caniatáu i ymarferwyr fod yn hyblyg, yn greadigol ac yn arloesol o ran eu hymagwedd tuag at addysgu, er mwyn diwallu anghenion disgyblion yn y ffordd orau

Rhaid mabwysiadu dull gweithredu sy'n canolbwyntio ar y dysgwr wrth gynllunio a darparu'r cwricwlwm. Rhaid i ysgolion ddatblygu cwricwlwm ac addysgeg sy'n canolbwyntio ar anghenion a phrofiadau dysgwyr, gan sicrhau bod dysgu yn cael ei deilwra a'i fod yn ystyried gallu dysgwyr unigol. Mae hyn yn cynnwys sicrhau bod dysgwyr yn gallu manteisio ar addysg o ansawdd uchel mewn ffordd gyfartal, waeth ble y maent yn byw.

Dylai ysgolion sicrhau bod rhieni yn ymgysylltu â'r broses ac y parchir eu safbwyntiau. Dylai ysgolion hysbysu ac ymgynghori â rhieni ynghylch newidiadau arfaethedig i'r cwricwlwm, gan barchu dewis rhieni o ran y math o addysg y bydd eu plentyn yn ei chael a gwerthfawrogi eu mewnbwn. Ni ddylid gorfodi elfennau o'r cwricwlwm megis darpariaeth ACRh yn groes i ewyllys rhieni.

Mae angen canolbwyntio ar ddatblygu dull clir a chymesur tuag at asesu, sy'n canolbwyntio ar gamau cynnydd. Roedd rhanddeiliaid addysg allweddol yn tueddu i godi'r thema hon. Rhaid i ysgolion, gyda chymorth partneriaid addysg, bennu mecanweithiau clir (ar sail camau cynnydd) i asesu ac olrhain cynnydd a chyflawniad dysgwyr, gan ystyried cynnydd dysgwyr unigol. Mynegwyd pryderon y ceir diffyg eglurder o hyd ynghylch natur asesu o fewn y cwricwlwm newydd, a mynegwyd pryderon y bydd mabwysiadu dull gweithredu newydd yn rhoi baich ychwanegol ar athrawon.

Dylai ysgolion ddatblygu cwricwlwm sy'n gynhwysfawr ac yn berthnasol i ddysgwyr. Dylai'r cwricwlwm newydd fod yn eang a dylai baratoi dysgwyr mewn ffordd effeithiol ar gyfer eu cynnydd yn y dyfodol ac ar gyfer gwneud cyfraniad gwerthfawr i gymdeithas.

Dylai penaethiaid a chyrff llywodraethu ddatblygu prosesau clir ac effeithiol er mwyn cynllunio a gweithredu newidiadau i'r cwricwlwm ac i asesu. Rhaid iddynt fabwysiadu dull gweithredu a gynlluniwyd yn ofalus tuag at weithredu cwricwlwm a threfniadau asesu newydd yn yr ysgol, gan gynnwys pennu amserlenni priodol, cynorthwyo staff i ddatblygu syniadau am y cwricwlwm a chynlluniau gwersi a sicrhau bod llywodraethwyr ac arweinwyr uwch yn barod i arwain newid.

Rhaid bod ysgolion yn gallu manteisio ar rwydweithiau cymorth effeithiol er mwyn helpu i gyflawni'r ddyletswydd hon. Rhaid rhoi blaenoriaeth i gymorth ar gyfer gwaith a wneir rhwng ysgolion, yn ogystal â gweithgarwch ymgysylltu rhwng gwahanol haenau addysg (Llywodraeth Cymru, consortia addysg rhanbarthol, awdurdodau lleol) er mwyn cynorthwyo ysgolion i gyflawni'r ddyletswydd hon a phennu cysondeb o ran ansawdd y ddarpariaeth addysg. Mae rhannu arweiniad ac arfer da yn elfen bwysig o rwydwaith cymorth o'r fath.

Mynegwyd gwrthwynebiad cyffredinol i'r cam o ddiwygio'r cwricwlwm gan ymatebwyr ar brydiau. Barnwyd bod diwygio'r cwricwlwm ac asesu yn rhywbeth dianghenraid a/neu a fyddai'n creu baich ddianghenraid ar y gweithlu addysg.

Themâu ychwanegol a godwyd gan ymatebwyr a nododd eu bod yn sefydliadau.

Sicrhau bod dysgwyr yn ymgysylltu â'r broses o ddatblygu'r cwricwlwm a'r dull asesu newydd, er mwyn sicrhau eu lles. Dylid cynorthwyo lles dysgwyr trwy roi ymdeimlad o berchnogaeth iddynt o'u haddysg. Mae hyn yn cynnwys eu hymgysylltu â'r broses o ailddatblygu'r cwricwlwm ar lefel ysgol.

“Mae hwyluso’r gallu i gyfrannu tuag at asesu ar gyfer dysgu, o ddysgu ac fel rhan o ddysgu yn helpu i sicrhau profiadau cadarnhaol o ddysgu ymysg plant a phobl ifanc, yn hytrach na fel bygythiad i’w lles”. (Cyfieithiad) [Rhanddeiliad addysg]

Bu diffyg ystyriaeth o'r hyn y dylid ei ddisgwyl gan y rhai sy'n gyfrifol am ddarparu yn y sector Blynyddoedd Cynnar / nas cynhelir. Bu diffyg ystyriaeth o effaith y ddyletswydd ar y sector hwn ac felly, ystyriaeth o'r camau cyfatebol y dylai unigolion allweddol yn y sector eu cyflawni.

Cwestiwn 4

Pa gymorth fyddai ei angen i alluogi ysgolion i gymryd y camau hynny?

Cafwyd cyfanswm o 381 o sylwadau mewn perthynas â'r cwestiwn hwn.

Crynodeb o'r themâu a fynegwyd amlaf yn yr ymatebion i'r ymgynghoriad.

Bydd angen adnoddau ychwanegol ar ysgolion er mwyn eu cynorthwyo i weithredu dan y ddyletswydd newydd. Roedd rhanddeiliaid addysg allweddol yn tueddu i godi'r thema hon. Bydd angen cynyddu'r cyllid a gaiff ei neilltuo i ysgolion er mwyn caniatáu iddynt ddarparu a gwerthuso cwricwlwm a dull asesu newydd. Yn ogystal, bydd angen i ysgolion gael cynnydd yn y cyllid er mwyn sicrhau capasiti staff addas i gyflawni gwaith o'r fath ac i ddarparu hyfforddiant addas. Mae sicrhau gweithlu digonol a medrus (gan gynnwys staff cymorth addysgu) i reoli'r llwyth gwaith uwch, yn elfen allweddol o hyn, gan gynnwys recriwtio a chadw athrawon.

Bydd angen i ysgolion gael amser digonol i ymgyfarwyddo â'r cwricwlwm newydd a'i gynllunio. Bydd angen cyfnod rhesymol ar ysgolion er mwyn dechrau treialu a gweithredu newidiadau, gan ganiatáu iddynt fabwysiadu dull ystyriol tuag at weithredu. Bydd addasu i'r ddyletswydd newydd yn cymryd amser ac mae'r broses yn gymhleth; ni ellir ei rhuthro ac mae angen iddi ddigwydd fesul cam. Bydd angen amser digonol ar athrawon i ddeall y gofynion newydd ac i ddatblygu a gwerthuso cwricwlwm newydd.

"Sicrhau bod gan staff ddigon o amser dan gyfarwyddyd i greu cwricwlwm pwrpasol a chreadigol sy'n adlewyrchu cynllun y meysydd dysgu a phrofiad". (Cyfieithiad) [Rhanddeiliad addysg]

Bydd gofyn i athrawon gael datblygiad proffesiynol. Roedd rhanddeiliaid addysg allweddol yn tueddu i godi'r thema hon. Bydd angen i ysgolion a rhanddeiliaid addysg eraill ddarparu cymorth ar gyfer datblygiad proffesiynol ymarferwyr. Bydd angen i gyfleoedd dysgu proffesiynol gynyddu er mwyn sicrhau bod athrawon yn gallu cynllunio cwricwlwm ac addasu dulliau addysgol newydd. Dylid cynnal cyfleoedd dysgu proffesiynol wrth gyflwyno'r cwricwlwm newydd fesul cam.

"Mae hwn yn drawsnewid a bydd angen cefnogaeth arbenigol ar ysgolion ar gyfer datblygiad proffesiynol, mentora, cyfleoedd rhannu sgiliau a chefnogaeth arall er mwyn datblygu ymatebion lleol i'r cwricwlwm a'i weithrediad. Mae'n hanfodol bod y dysgu proffesiynol a ddarperir i gefnogi'r cwricwlwm newydd yn defnyddio dulliau sydd wedi'u hymgorffori o fewn y cwricwlwm newydd, h.y. modelu dulliau y bydd angen eu gweld mewn ysgolion." (Cyfieithiad) [Sefydliad trydydd sector]

Cymorth gan rwydwaith y rhanddeiliaid addysg. Roedd rhanddeiliaid addysg allweddol yn tueddu i godi'r thema hon. Bydd angen rhwydwaith cymorth hygyrch a chadarn ar ysgolion (a fydd yn cynnwys ysgolion eraill, awdurdodau lleol, consortia addysg rhanbarthol, Llywodraeth Cymru a rhanddeiliaid eraill) er mwyn eu tywys trwy eu dyletswydd newydd. Mae hyn yn cynnwys cymorth arbenigol hefyd ar gyfer meysydd penodol o ddatblygiad y cwricwlwm (megis y gwyddorau o fewn y Cyfnod Sylfaen a chwricwlwm Cyfnod Allweddol 2).

Rhannu arfer da a darparu arweiniad. Roedd rhanddeiliaid addysg allweddol yn tueddu i godi'r thema hon. Bydd angen pennu mecanweithiau er mwyn rhannu arfer da rhwng ysgolion a rhanbarthau (megis astudiaethau achos ac ymweliadau) a bydd angen datblygu arweiniad er mwyn cynorthwyo ysgolion i gyflawni'r ddyletswydd hon (megis templedi, arweiniad ynghylch cynnwys y cwricwlwm). Bydd angen i weithgarwch rhannu arferion da ac arweiniad fod yn gynhwysfawr ac yn glir, er mwyn lleihau llwyth gwaith athrawon gymaint ag y bo modd, osgoi dyblygu gwaith a sicrhau lefel o gysondeb wrth gynllunio'r cwricwlwm.

Rhaid pennu dull gweithredu cadarn tuag at werthuso ac atebolrwydd ar lefel genedlaethol. Roedd rhanddeiliaid addysg allweddol yn tueddu i godi'r thema hon**.** Bydd angen sefydlu dull gweithredu eglur tuag at werthuso ac atebolrwydd, er mwyn sicrhau y cyflawnir deilliannau da ac er mwyn sicrhau bod ansawdd addysg yn gyson ar draws Cymru. Bydd angen cynorthwyo ysgolion i werthuso unrhyw newidiadau ar lefel ysgol.

Rhaid darparu llywodraethu ac arweinyddiaeth gadarn er mwyn sicrhau y rhoddir cyfeiriad strategol manwl a chlir i ddatblygiadau cwricwlwm ac asesu. Roedd rhanddeiliaid addysg allweddol yn tueddu i godi'r thema hon. Mae angen

arweinyddiaeth gadarn gan randdeiliaid addysg allweddol (megis Llywodraeth Cymru, consortia addysg rhanbarthol, penaethiaid a llywodraethwyr) er mwyn ysgogi newid. Bydd hyn yn sicrhau y caiff cynnydd da ei wneud, a bod yr ysgolion yn teimlo'n hyderus wrth wneud newidiadau o fewn fframwaith clir.

Dylid sicrhau cydbwysedd priodol rhwng cyfeiriad manwl gan arweinwyr addysg, a rhyddid neu hyblygrwydd i athrawon arloesi. Er ei bod yn bwysig bod angen arweiniad clir a phenodol er mwyn cynorthwyo datblygiad cwricwla priodol a chyson, dylid cynnal yr egwyddor graidd o ganiatáu'r rhyddid i athrawon dreialu dulliau gweithredu newydd ac addasu eu dulliau gweithredu dysgu. Dylid ymddiried ym mhrofiad a gwybodaeth athrawon ac ymarferwyr addysg eraill, a'i barchu.

"Eglurder o safbwynt disgwyliadau craidd y cwricwlwm (ar lefel Cymru-gyfan) er mwyn sicrhau cysondeb ar draws yr holl ysgolion tra'n galluogi lleoliadau unigol i ddatblygu cwricwlwm sy'n addas i'w cyd-destun sy'n cwrdd â gofynion eu disgyblion." (Cyfieithiad) [Rhanddeiliad addysg]

Rhaid i drefniadau asesu fod yn hollol glir ac yn ddigon manwl er mwyn caniatáu i ysgolion ddatblygu eu trefniadau asesu eu hunain yn hyderus. Dylid darparu arweiniad a disgwyliadau clir er mwyn tywys datblygiad ysgolion o Ddeilliannau Cyflawniad a Chamau Cynnydd. Bydd angen i'r ffordd y dylai Deilliannau Cyflawniad edrych fod yn glir, yn ogystal â'r ffordd y caiff cynnydd ei fonitro mewn ffordd gyson.

Rhaid ymgysylltu â rhieni a chaniatáu iddynt gefnogi neu fynegi safbwyntiau am y trefniadau cwricwlwm newydd. Dylid hysbysu rhieni o ddatblygiadau a'u hymgysylltu â'r broses o wneud penderfyniadau pwysig am y cwricwlwm, y byddant yn cael effaith ar eu plant. Yn arbennig, ni ddylid gorfodi elfennau o'r cwricwlwm (ACRh) ar rieni heb ymgynghori â nhw. Trafodir y thema hon ymhellach yn y dadansoddiad o gwestiynau 6-9.

Mynegwyd gwrthwynebiad i ddiwygio'r cwricwlwm ar brydiau, neu soniodd ymatebwyr am yr angen i ganolbwyntio ar fathau eraill o ddysgu, sgiliau a chymorth. Pwysleisiodd rhai o'r ymatebion wrthwynebiad i ddiwygio'r cwricwlwm yn gyffredinol a/neu roeddent yn pwysleisio bod mathau eraill o ddysgu a sgiliau (megis sgiliau bywyd a chymorth un-i-un) yn bwysicach na diwygio'r cwricwlwm.

Themâu ychwanegol a godwyd gan ymatebwyr a nododd eu bod yn sefydliadau.

Roedd sefydliadau wedi darparu rhagor o fanylion am y disgwyliadau y dylid eu rhoi ar ystod eang o bartneriaid addysg allweddol. Roedd sefydliadau, gan gynnwys partneriaid addysg allweddol, wedi cael trafodaeth fanylach am y disgwyliadau y dylid eu rhoi ar randdeiliaid allweddol yn y system addysg. Pwysleisiwyd bod ysgolion yn gymwys i gael cymorth gan bartneriaid rhanbarthol a chenedlaethol a bod yn rhaid bod strwythur priodol mewn grym er mwyn cydweithio.

"Mae eglurder o ran diben a chyfrifoldeb yn hanfodol os yw ysgolion am ganolbwyntio ar y gweithredoedd hyn. Mae angen hefyd egluro cyfrifoldebau elfennau eraill y system addysg gan gynnwys Llywodraeth Cymru, consortia, awdurdodau lleol, Estyn a Chymwysterau Cymru. Mae angen i ysgolion fedru adnabod yn gyflym ac yn effeithiol pan nad ydynt yn derbyn y gefnogaeth angenrheidiol gan yr asiantaethau hyn." (Cyfieithiad) [Ymarferydd addysg]

Cafwyd mwy o fanylion gan sefydliadau am natur y cyfleoedd datblygiad proffesiynol y dylid eu sefydlu. Roedd sefydliadau wedi dadlau'n glir o blaid cael dull gweithredu rhanbarthol neu genedlaethol diffiniedig a threfnus tuag at ddatblygiad proffesiynol, gan sicrhau bod pob athro yn hollol gymwys i ddarparu'r cwricwlwm newydd.

"Mae angen cynllunio cyfleoedd datblygu proffesiynol mewn ffordd gydlynol yn lleol, rhanbarthol a chenedlaethol er mwyn sicrhau bod holl staff ysgolion yn glir ynglŷn â'r rheswm dros newid, graddfa'r diwygiadau a'u rôl wrth weithredu hwn ar gyfer ein plant a phobl ifanc." (Cyfieithiad) [Rhanddeiliad addysg]

Cafwyd mwy o fanylion gan sefydliadau am y math o gymorth y byddai ei angen mewn pwnc penodol, sy'n berthnasol i'w maes arbenigol. Mae hyn yn cynnwys nodi'r gofyniad i ddarparu cymorth datblygu arweinyddiaeth a chymorth er mwyn datblygu cwricwlwm newydd ar gyfer pynciau penodol, megis y gwyddorau, TG ac addysg grefyddol.

Gyrfaoedd a Phrofiadau'n Gysylltiedig â Gwaith

Cwestiwn 5

Ydych chi'n cytuno y dylai addysg gyrfaoedd ac addysg gysylltiedig â gwaith, sy'n briodol o ran oedran, gael ei rhoi i blant 3-16 oed, yn unol â'r Meysydd Dysgu a Phrofiad?

Ymateb	Canran (nifer)	Nifer a fynegodd sylwadau ychwanegol
Ydw	36.7% (354)	121
Nac ydw	46.9% (452)	180
Dim syniad	16.4% (158)	24
Dim ymateb i'r cwestiwn caeedig		14
Cyfanswm	964	339

Ymhlith yr ymatebwyr a atebodd 'ydw' neu a nododd eu bod yn cytuno â'r cynnig a nodwyd yn y ddogfen ymgynghori, roedd y themâu a godwyd amlaf fel a ganlyn:

Mae ymatebwyr o'r farn y bydd gyrfaoedd ac addysg gysylltiedig â gwaith (AGG) yn cael effaith gadarnhaol ar ddewisiadau gyrfa ac uchelgais myfyrwyr yn y dyfodol. Gall addysg gyrfaoedd ddangos pa mor berthnasol yw dysgu i'r byd ehangach, gan helpu i gymell dysgwyr. Gellir meithrin ymwybyddiaeth o yrfaoedd a sgiliau cyflogadwyedd yn ifanc. Roedd yr ymatebion yn cynnwys cyfeiriadau at waith ymchwil rhyngwladol sy'n cynnwys tystiolaeth bod darparu addysg gyrfaoedd ac addysg gysylltiedig â gwaith mewn ysgolion cynradd yn gallu helpu i ehangu gorwelion plant, meithrin eu hyder a'u gwybodaeth am lwybrau gyrfa posibl, a meithrin ymwybyddiaeth plant o ehangder y cyfleoedd sy'n agored iddynt.

Roedd yr ymatebwyr hyn yn cefnogi'r syniad o gynnwys addysg gysylltiedig â gwaith ar draws y chwe MDPh, gan helpu i ddatblygu sgiliau hanfodol a throsglwyddadwy dysgwyr. Awgrymwyd y gallai'r cynigion annog agweddau mwy cadarnhaol tuag at ddysgu, gan helpu i ddatblygu sgiliau entrepreneuraidd.

"…mae addysg gysylltiedig â gwaith yn dod â'r cwricwlwm yn fyw ac hefyd yn medru cyfleu disgwyliadau realistig o fyd gwaith i ddisgyblion ifanc. Mae hwn yn medru bod yn ffactor ysgogol... os yw'n cael ei ddarparu mewn ffordd sy'n briodol i oedran mae addysg gyrfaoedd ac addysg gysylltiedig â gwaith yn ganolog i ymdrechion i ddatblygu dinasyddion cyflawn." (Cyfieithiad) [Rhanddeiliad addysg]

Roedd nifer o ymatebion sefydliadol wedi ffurfio'r cyswllt rhwng darpariaeth addysg gyrfaoedd effeithiol (ac addas i'r oedran) a'r weledigaeth ar gyfer y cwricwlwm newydd yng Nghymru. Yn benodol, ceir cyfleoedd o fewn addysg gyrfaoedd i gynorthwyo datblygiad dinasyddion moesegol a doeth trwy godi ymwybyddiaeth o a chyflwyno pobl ifanc i ystod eang o gyfleoedd gyrfa mewn gwahanol sectorau, gan gynnwys y trydydd sector a mentrau cymdeithasol. Yn ogystal, dylai addysg gyrfaoedd ac AGG gysylltu gydag addysg dinasyddiaeth fyd-eang, sy'n gallu helpu i ddatblygu sgiliau y mae cyflogwyr yn chwilio amdanynt yn yr economi fyd-eang.

Gall addysg gyrfaoedd ac AGG gynorthwyo mwy o gynhwysiant a hyrwyddo cydraddoldeb, gan helpu i herio safbwyntiau ystrydebol ynghylch rolau rhyw a dewisiadau gyrfa.
Pwysleisiodd ymatebwyr bwysigrwydd sicrhau bod dysgwyr yn gwybod yn ifanc bod unrhyw yrfa yn agored i'r ddau ryw. Mae'n bwysig hefyd bod y neges hon yn cael ei chyfleu yn ifanc, fel y gall merched a menywod ifanc yn arbennig, wneud dewisiadau gwybodus am y pynciau y maent yn dewis eu hastudio yn ystod cyfnodau addysg yn nes ymlaen. (Nodwyd hefyd bod yr un peth yn berthnasol i fechgyn a dynion ifanc, o ran hyrwyddo dewisiadau gyrfa mewn sectorau sy'n cynnwys menywod yn bennaf).

Mae angen datblygu'r wybodaeth a sicrhawyd trwy gyfrwng gwaith ymchwil a mentrau blaenorol a gyflawnwyd gan sefydliadau yng Nghymru er mwyn hyrwyddo cyswllt merched gyda phynciau lle y bu niferoedd y merched sy'n eu dilyn yn isel yn draddodiadol, sef pynciau STEM yn enwedig. Cyfeiriodd ymatebwyr at raglenni blaenorol niferus sydd wedi canolbwyntio ar y maes hwn, gan gynnwys rhaglen o gymorth a hyfforddiant i ysgolion cynradd a oedd yn ceisio herio stereoteipiau yn ifanc. Nododd ymatebwyr y bu hyn yn allweddol hefyd er mwyn cefnogi diben Cwricwlwm Cymru.

"Mae'r ffactorau sy'n dylanwadu ar dewisiadau gyrfa yn dechrau yn gynnar, er enghraifft mae ein hunaniaeth ac hunan-barch yn cael eu dylanwadu gan y ffordd y mae rolau rhyw yn cael eu cyflwyno o oed ifanc iawn ac yn sicr mewn lleoliadau meithrin (h.y. stereoteipio ar sail rhyw). Mae cyflwyno modelau rôl cadarnhaol a chyfleoedd ar gyfer ystod o brofiadau sy'n adlewyrchu pedwar piler y cwricwlwm yn hollbwysig." (Cyfieithiad) [Sefydliad trydydd sector]

"…mae angen i addysg fod yn gynhwysol o'r amrywiaeth eang o swyddi yn ein cymdeithas gan osgoi gogwydd ar sail rhywedd, hil na chrefydd. Mae'n bwysig datblygu cenhedlaeth newydd sy'n gweld gwaith fel rhywbeth y gallant fwynhau yn ogystal fel ffordd o ennill bywoliaeth, ac i gynnwys rolau llai traddodiadol – megis mentergarwch – ochr yn ochr â chyflogaeth." (Cyfieithiad) [Sefydliad trydydd sector]

Gwnaethpwyd awgrymiadau ychwanegol gan ymatebwyr ynghylch cynnwys y cwricwlwm er mwyn cryfhau addysg gyrfaoedd ac AGG ymhellach. Mae angen i ysgolion ymgysylltu â chyflogwyr a chydweithio wrth gynllunio a darparu addysg gysylltiedig â gwaith a gyrfaoedd. Gall cyflogwyr ychwanegu gwerth i ddarpariaeth y cwricwlwm trwy gynorthwyo amrediad o weithgareddau, gan gynnwys diwrnodau uchelgais, ymweliadau â gweithleoedd, diwrnodau menter ac ystod o weithgareddau ymgysylltu eraill, y nodwyd eu bod yn helpu i feithrin sgiliau a pharatoi dysgwyr am fyd gwaith.

"Mae'r dystiolaeth yn dangos bod addysg gysylltiedig â gwaith a gyrfaoedd yn medru chwarae rhan bwysig wrth ddatblygu sgiliau hanfodol megis datrys problemau, gwaith tîm a chyfathrebu, sef sgiliau y mae cyflogwyr yn gwerthfawrogi cymaint â sgiliau llythrennedd a rhifedd. Gwelwyd arfer dda hefyd lle mae ysgolion wedi galluogi dysgwyr i ddeall y cysylltiadau rhwng addysg, cymwysterau a gyrfaoedd." (Cyfieithiad) [Ymarferydd addysg]

Nododd ymatebwyr yr angen am fwy o bwyslais ar brentisiaethau yn y gweithle hefyd, ynghyd â hyrwyddo pynciau galwedigaethol trwy gyfrwng addysg gysylltiedig â gwaith a gyrfaoedd.

Mynegodd rhai ymatebwyr eu bod yn cytuno â'r cynigion yn unol ag amodau. Roeddent yn cytuno gyda'r cynigion, ond yn amlygu problemau posibl ynghylch eu gweithredu. Dylai addysg gysylltiedig â gwaith fod yn briodol i oedrannau'r plant dan sylw,

a dylid ei chyflwyno ar adegau addas. Roedd rhai ymatebwyr yn teimlo bod cyflwyno addysg gysylltiedig â gwaith i blant o'r adeg pan fyddant yn 3 oed yn rhy ifanc (gweler sylwadau pellach isod am y mater hwn gan ymatebwyr yr oeddent yn gwrthwynebu i'r cynigion).

Nododd ymatebwyr eu bod yn cefnogi'r cynigion, ar yr amod bod trefniadau mewn grym i sicrhau bod y ddarpariaeth yn berthnasol i anghenion yr economi. Roedd ymatebwyr eraill yn teimlo bod y cynigion yn dderbyniol, ar yr amod bod rhieni yn cael eu cynnwys hefyd mewn trafodaethau ynghylch cynnwys addysg gysylltiedig â gwaith.

Yn olaf, roedd ymatebion yn cynnwys cefnogaeth i'r cynigion ar yr amod bod cydbwysedd cymesur rhwng hyn a gweddill y cwricwlwm, a bod addysg ac arweiniad gyrfaoedd yn parhau i fod yn ddiduedd ac yn annibynnol.

Ymhlith y rhai a atebodd 'dim syniad', roedd y pwyntiau a godwyd amlaf fel a ganlyn:

Roedd ymatebwyr wedi mynegi pryder na fyddai addysg gyrfaoedd ac addysg gysylltiedig â gwaith yn berthnasol i blant cynradd. Roedd rhai ymatebwyr yn teimlo'n ansicr ynghylch a yw ystod oedran eang y cynnig yn briodol (gweler sylwadau pellach isod am y mater hwn gan ymatebwyr a oedd yn gwrthwynebu i'r cynigion).

Yn ystod y Cyfnod Sylfaen a Chyfnod Allweddol 2, dylid rhoi blaenoriaeth i sicrhau bod dysgwyr yn caffael sgiliau eraill. Roedd ymatebwyr o'r farn y dylai plant iau ganolbwyntio ar gaffael sgiliau sylfaenol cyn ystyried gyrfaoedd a gwaith. (gweler y sylwadau isod am y mater hwn gan ymatebwyr a oedd yn gwrthwynebu i'r cynigion).

Amlygwyd pryderon gan ymatebwyr y byddai cynnwys addysg gyrfaoedd ar draws y cwricwlwm yn ormod o faich i athrawon. Mynegwyd pryder gan fwyafrif yr ymatebwyr a oedd wedi ticio 'Dim Syniad' y byddai ychwanegu addysg gysylltiedig â gwaith yn rhoi gormod o faich ar gwricwlwm y bernir ei fod yn llawn yn barod. Byddai hyn yn effeithio ar allu athrawon i ddarparu gweddill y cwricwlwm. Credir y byddai, i bob diben, yn digalonni athrawon, y gallent benderfynu gadael y sector wedyn.

Ymhellach, mae'r gred y byddai ei gynnwys yn ormod o faich i ddysgwyr yn cyd-fynd â'r pryder hwn. Er bod addysg gyrfaoedd yn bwysig, awgrymodd rhai ymatebwyr na ddylid ei weithredu ar draul cyflawniad academaidd mewn meysydd eraill yn y cwricwlwm, ac na ddylai orlwytho amserlenni plant:

"Mae addysg gyrfaoedd yn bwysig, fodd bynnag dim ond cyfran bach iawn o amser y cwricwlwm y dylid gwario ar hwn." (Cyfieithiad) [Unigolyn – ddim yn cynrychioli sefydliad]

Roedd ymatebwyr wedi cynnwys awgrymiadau y gallai diffyg arbenigedd mewn gyrfaoedd arwain at gynnwys yn mynd yn unochrog yn unol â gwybodaeth athrawon unigol am yr economi leol, yn hytrach na chynnig darpariaeth fwy cyflawn a diduedd. Amlygwyd pryderon gan sawl ymatebydd y gallai addysg gysylltiedig â gwaith fod yn unochrog ar sail profiad cyflogaeth yr athro sy'n cyflwyno'r cwricwlwm. Felly, dim ond profiad cyfyng yr athro y byddai dysgwyr yn ei gael, ac ni fyddent yn cael eu cyflwyno i sbectrwm ehangach o ddewisiadau.

Yn ogystal, awgrymwyd hefyd y byddai'r cwricwlwm yn canolbwyntio ar anghenion yr economi leol; er enghraifft, byddai'r dysgwr yn canolbwyntio ar yrfaoedd amaethyddol pe byddai'r ysgol wedi'i lleoli mewn ardal wledig. Byddai hyn yn atal dysgwyr rhag clywed am

yrfaoedd posibl eraill sy'n bodoli y tu hwnt i'w hardal leol ac nad ydynt yn gwneud cyfraniad uniongyrchol i'r economi leol. Mae'r pryder hwn yn gysylltiedig â'r ffaith y byddai plant yn cael eu paratoi am swyddi na fyddent yn bodoli efallai pan fyddent yn cyrraedd y gweithle, ac na fyddai eu haddysg yn ddigon eang i gynnwys swyddi neu yrfaoedd nad ydynt yn bodoli nawr, ond y byddant yn bodoli yn y dyfodol.

Ymhlith yr ymatebwyr a atebodd 'nac ydw', neu a fynegodd bryder, roedd y themâu a godwyd amlaf fel a ganlyn:

Nid yw addysg gyrfaoedd yn briodol i ddysgwyr ifanc yn y Cyfnod Sylfaen. Roedd y prif wrthwynebiad i'r cynnig yn ymwneud â'r oedran y dylai dysgwyr fod pan gyflwynir y syniad ynghylch gwaith a gyrfaoedd. Roedd nifer o ymatebwyr yn credu na ddylai bod gofyn i blant iau feddwl am faterion i oedolion megis gyrfaoedd a bywyd ar ôl addysg. O blith y grŵp hwn o ymatebion, cyfeiriwyd rhan fwyaf y gwrthwynebiad at gynnwys dysgwyr 3-11 oed. Awgrymwyd bod plant yn y Cyfnod Sylfaen ac yng Nghyfnod Allweddol 2, yn enwedig plant 3 oed, yn llawer rhy ifanc i ddeall cysyniad gyrfa. Dadleuwyd y dylai addysgu a dysgu yn y Cyfnod Sylfaen ganolbwyntio ar gaffael sgiliau sylfaenol megis iaith, rhifedd a sgiliau cymdeithasol, cyn cyflwyno'r syniad o yrfaoedd a gwaith. Fodd bynnag, roedd sawl ymatebydd wedi ymestyn yr ystod oedran hwn i'r rhai yng Nghyfnod Allweddol 3, cyn i ddysgwyr ddewis a dilyn cyrsiau TGAU.

"Yn ystod eu blynyddoedd ffurfiannol, does gan blant ddim cysyniad o yrfa, na'r goblygiadau ehangach." (Cyfieithiad) [Unigolyn – ddim yn cynrychioli sefydliad]

Mynegwyd pryder gan sawl ymatebydd hefyd y byddai cyflwyno addysg gysylltiedig â gwaith yn peryglu categoreiddio plant: y byddent yn cael eu categoreiddio a'u cyfyngu o ran eu dewisiadau gyrfa, ac y byddai hyn yn cael effaith negyddol ar ddatblygiad cyffredinol y plentyn.

Dylai rhieni fod yn gyfrifol am dywys ac addysgu eu plant am eu gyrfaoedd, yn hytrach na'r ysgol neu'r llywodraeth. Roedd sawl ymatebydd yn gwrthwynebu'r cynigion oherwydd mai cyfrifoldeb rhieni a gwarcheidwaid yw tywys a chynghori ynghylch dewisiadau gyrfa plant, ac na ddylai'r llywodraeth fod yn ymwneud â'r maes hwn.

Themâu ychwanegol a godwyd gan ymatebwyr a nododd eu bod yn sefydliadau.

Ceir perygl y bydd ysgolion yn rhoi llai o flaenoriaeth i addysg gysylltiedig â gwaith a gyrfaoedd dan drefniadau'r cwricwlwm newydd. Ni chaiff 'cymwyseddau rheoli gyrfa' eu cynnwys yn y 'sgiliau ehangach' a restrir ar dudalen 22 y Papur Gwyn. Nodwyd bod Estyn wedi adrodd am wendidau ym maes cyngor ac arweiniad gyrfaoedd a gormod o anghysondeb yn yr amser a gaiff ei neilltuo i weithredu'r Fframwaith Gyrfaoedd a Byd Gwaith. Roedd sefydliadau'n dadlau y dylai arweiniad gyrfaoedd fod yn rhan statudol o'r cwricwlwm newydd.

"oni bai bod cyngor [gyrfaoedd] yn statudol, bydd y duedd yn parhau gyda fwyfwy o ddisgwyliad ar unigolion nad ydynt yn arbenigwyr yn darparu fel rhan o feysydd dysgu a phrofiad." (Cyfieithiad) [Rhanddeiliad addysg]

Diffyg eglurder a chysondeb yn y derminoleg a ddefnyddir yn y ddogfen ymgynghori. Defnyddir y derminoleg ganlynol yn y Papur Gwyn: *Gyrfaoedd a Phrofiadau'n Gysylltiedig â Gwaith, addysg gyrfaoedd ac addysg gysylltiedig â gwaith, dysgu cysylltiedig â gwaith.* Awgrymwyd y gallai hyn beri dryswch ymhlith y rhai nad ydynt yn arbenigwyr ym maes

gyrfaoedd. Yn ogystal, nodwyd bod yr hyn y mae addysg gyrfaoedd 'addas i'r oedran' yn ei olygu yn aneglur.

Mae angen egluro sut y bydd *Gatsby Good Career Guidance Benchmarks* yn cysylltu â'r canllawiau a gynlluniwyd ar gyfer addysg gysylltiedig â gwaith a gyrfaoedd. Caiff y Meincnodau eu peilota gyda'r nod o gael eu defnyddio er mwyn ysgogi gwelliannau ar draws Cymru, fodd bynnag, awgrymwyd y dylid egluro statws y Meincnodau (sy'n statudol yn Lloegr).

Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb

Cwestiwn 6

Ydych chi'n cytuno â gwneud Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb, sy'n addas o ran oedran a datblygiad, yn orfodol i blant 3-16 oed? Nodwch resymau.

Ymateb	Canran (nifer)	Nifer a fynegodd sylwadau ychwanegol
Ydw	10.2% (166)	92
Nac ydw	87.5% (1428)	512
Dim syniad	2.3% (38)	19
Dim ymateb i'r cwestiwn caeedig		21
Cyfanswm	1632	644

Ymhlith yr ymatebwyr a atebodd 'ydw', neu a fynegodd safbwyntiau niwtral neu gadarnhaol, roedd y themâu a godwyd amlaf fel a ganlyn:

Mae cymdeithas yn ysgogi'r angen am ACRh gorfodol. Mae disgwyliadau ynghylch datblygiad dinasyddion cyfrifol yn ysgogydd allweddol ar gyfer darparu ACRh gorfodol; ac mae'r angen am oddefgarwch mewn cymdeithas yn cynnig rhesymeg dros ddysgu am berthnasoedd iach a materion sy'n effeithio ar gyfranogiad dysgwyr mewn cymdeithas yn y dyfodol.

Mae angen cynnwys materion penodol yn narpariaeth ACRh. Roedd ymatebion a oedd yn cefnogi darpariaeth orfodol yn cynnig manylion am gynnwys penodol e.e. bod angen cynnwys 'caniatâd', 'parch' a 'pherthnasoedd iach', ynghyd â'r posibilrwydd o fanteisio ar arbenigedd asiantaethau allanol priodol. Cyfeiriodd ymatebwyr at MDPh Iechyd a Lles fel mecanwaith darparu priodol ar gyfer ACRh.

"Mae angen iddo fod yn fwy na'r addysg rhyw sylfaenol flaenorol, mae'n rhaid cwmpasu materion megis cydsyniad a gwybodaeth am berthnasoedd. Mae'n bwysig nad yw rhieni a llywodraethwyr yn medru cyfyngu'r wybodaeth hon." (Cyfieithiad) [Unigolyn – ddim yn cynrychioli sefydliad]

Mae gofyn cael hyfforddiant priodol i athrawon, ac adnoddau addysgu. Roedd rhanddeiliaid addysg allweddol yn tueddu i godi'r thema hon. Bydd dysgu proffesiynol ar gyfer athrawon ac athrawon dan hyfforddiant yn sicrhau cysondeb o fewn a rhwng ysgolion ar draws Cymru. Byddai hyn yn gwella hyder athrawon wrth gyflwyno materion sensitif. Mae angen i eglurder o ran disgwyliadau wrth ddarparu fod yn glir hefyd, er mwyn i ysgolion fod yn hyderus, ac mae angen dilyn canllawiau a awgrymir; gellid ystyried safon isaf; a chanllawiau clir i ysgolion am yr hyn sy'n addas i oedran a datblygiad dysgwyr. Mae gofyn datblygu adnoddau Cymraeg hefyd. Gallai'r mewnbwn gan arbenigwyr (sefydliadau arbenigol) gynorthwyo'r broses o ddarparu cynnwys pynciau hefyd.

Mae angen i gynnwys ACRh fod yn addas i oedran a datblygiad pob dysgwr. Roedd rhanddeiliaid addysg allweddol yn tueddu i godi'r thema hon. Pwysleisiodd ymatebwyr bwysigrwydd gwarantu bod y cynnwys a gyflwynir yn addas i oedran a datblygiad dysgwyr.

Mae angen i'r dull gweithredu a fabwysiadir ddiwallu anghenion pob lleoliad unigol hefyd, ac ar yr un pryd, dewisiadau bywyd unigol dysgwyr; byddai'n ddefnyddiol rhannu enghreifftiau o arferion da. Mae'n bwysig sicrhau yr ymgynghorir â rhieni ynghylch cynnwys pynciau penodol ac y cyflwynir gwybodaeth i ddysgwyr mewn ffordd ddiduedd.

"Mae'n hanfodol ei fod yn cael ei osod mewn cyd-destun holistaidd ac yn trafod perthnasoedd iach a bod rhieni yn cael y cyfle i ddeall ei fod yn berthnasol i ystod ehangach o bynciau a materion na fersiynau blaenorol o'r elfen hon o'r cwricwlwm." (Cyfieithiad) [Rhanddeiliad addysg]

Bydd darpariaeth orfodol ACRh yn diogelu plant. Bydd darpariaeth ACRh o ansawdd da yn sicrhau bod plant yn gallu 'codi eu llais' yn ôl yr angen, gan gynnig offeryn pwysig er mwyn diogelu plant. Bydd ACRh yn sicrhau bod plant yn meithrin eu dealltwriaeth o berthnasoedd a rhywioldeb.

Themâu ychwanegol a godwyd gan ymatebwyr a nododd eu bod yn sefydliadau.

Argymhellwyd cynnwys cwricwlwm penodol i'w gynnwys yn ACRh. Dylai materion sy'n ymwneud â hawliau dynol a chydraddoldeb gyflawni rôl amlwg yng nghynnwys pwnc ACRh. Nodwyd materion eraill mwy penodol hefyd megis 'beichiogrwydd' a 'chaniatâd'. Er mwyn meithrin cydnerthedd, mae angen rhoi'r un statws i iechyd meddwl ag a roddir i ACRh.

Bydd darparu ACRh gorfodol yn cefnogi Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn. Mae sicrhau bod ACRh yn elfen orfodol o'r cwricwlwm yn cyflawni darpariaethau CCUHP, gan ddarparu gwybodaeth fanwl i blant a fydd yn cyfrannu at eu penderfyniadau yn y dyfodol.

<u>Ymhlith yr ymatebwyr a atebodd 'nac ydw' neu a fynegodd bryderon penodol, roedd y themâu a godwyd amlaf fel a ganlyn:</u>

Mae angen cadw gafael ar gyfrifoldeb rhieni a'r hawl i dynnu disgyblion allan. Rhieni, nid ysgolion ddylai benderfynu a addysgir ACRh i'w plentyn; mae angen i'r hawl i dynnu disgybl allan barhau ac mae angen sicrhau hawliau rhieni. Mae rhieni yn deall cam datblygiad eu plentyn ac mae angen iddynt allu penderfynu ar yr hyn sy'n briodol i ba oed. Byddai hyn hefyd yn caniatáu i unrhyw gredoau sydd gan rieni gael eu hystyried, a bod rhieni yn gallu magu eu plant fel y maent yn dymuno. Dylai rhieni fod yn meddu ar y cyfrifoldeb dros addysgu pynciau ACRh i'w plant; nid yw 'un darpariaeth i bawb' yn briodol.

"Dylai ACRh ddigwydd fel rheol o fewn uned y teulu, gan gymryd i ystyriaeth credoau crefyddol a moesol y teulu. Dylai'r ysgol camu i fewn pan fo perthynas wedi torri lawr yn glir yn y cartref." (Cyfieithiad) [Unigolyn – ddim yn cynrychioli sefydliad]

Mae plant yn rhy ifanc i ddeall y materion o fewn ACRh gorfodol. Cafwyd amrediad o ymatebion ynghylch yr union oedran pan fyddai hi'n briodol i blant gael ACRh. Barnwyd bod plant Blynyddoedd Cynnar a Chynradd yn rhy ifanc i ddeall materion ACRh. Barnwyd y byddai'r deunyddiau a gyflwynir yn amhriodol i blant iau, ac fe allai hyn beri dryswch ymhlith plant, yn ystod cyfnod o'u datblygiad a ddylai gynnwys ffocws ar 'chwarae'. Yn ogystal, mae'r amser cyswllt yn ystod y cyfnod meithrin am ddarpariaeth o'r fath yn gyfyngedig. Dylid arwain ACRh gan blant yn holi, yn hytrach na darparu cwricwlwm i blant yn rhy gynnar yn eu datblygiad. Mae dosbarthiadau cynradd uchaf a'r ysgol uwchradd yn oedran mwy addas i blant brofi ACRh. Awgrymwyd y dylai ysgolion roi blaenoriaeth i feysydd eraill yn y

cwricwlwm, megis llythrennedd a rhifedd, sgiliau bywyd a phynciau sy'n cynnwys ffocws mwy academaidd.

“Tra bod angen i blant ddysgu am deuluoedd, cyfeillgarwch, a pherthnasoedd parchus, ni ddylai hyn gynnwys addysg rhywioldeb. Fodd bynnag, mae ffocysu addysg rhyw yn yr ysgol uwchradd drwy lens addysg perthnasoedd yn newid cadarnhaol. (Cyfieithiad) [Unigolyn – ddim yn cynrychioli sefydliad]

Mae angen gadael i blant fod yn blant a phrofi plentyndod diniwed. Byddai cyflwyno ACRh i blant ifanc iawn yn tynnu'r diniweidrwydd o'u plentyndod. Roedd ymatebwyr yn cynnig y dylid addysgu pynciau o'r fath naill ai yn nes ymlaen yn yr ysgol neu gan rieni. Yn ystod eu plentyndod, ni ddylai plant weld deunyddiau amhriodol, ceir pwysau cymdeithasol ar blant i fod yn rhywioledig ac mae'n rhaid bod plant yn gallu mwynhau eu plentyndod.

“Dylai plant ifanc medru cael plentyndod yn rhydd o rywioldeb. Rhieni sy’n medru penderfynu orau beth a phryd i’w drafod ar faterion felly gyda’u plant. Mae syniadau o ran beth sydd yn cynrychioli teulu a’r berthynas rhwng rhyw biolegol a rhywedd yn faterion dadleuol. Ni ddylid cyflwyno syniadau ar y materion hyn i blant pan eu bod yn rhy ifanc i ystyried y materion mewn ffordd feirniadol.” (Cyfieithiad) [Unigolyn – ddim yn cynrychioli sefydliad]

Mae plant dan bwysau cymdeithasol i fod yn rhywioledig ac ni ddylai ysgolion ychwanegu at hyn. Mae plant dan bwysau cymdeithasol gan y cyfryngau a chymdeithas ynghylch rhywioli ac mae'n bwysig nad yw'r ysgol yn ychwanegu pwysau ychwanegol i hyn trwy gyflwyno plant i syniadau nad ydynt yn eu deall ac sy'n amhriodol.

“Mae’r cyfryngau a chymdeithas yn gosod pwysau mawr ar blant o safbwynt rhywioldeb / cyswllt â delweddau anaddas, ond tra bod plant yn rhy ifanc i feddwl yn feirniadol am y materion, mae wynebu’r pwysau hyn yn uniongyrchol yn gadael plant mewn sefyllfa lle nad oes cyfle i ddianc. Dylai ysgolion cynnig cefnogaeth fwy cynnil / modelu ymddygiad cadarnhaol, yn hytrach na ffocysu yn uniongyrchol ar bynciau nad yw plant yn barod i daclo.” (Cyfieithiad) [Unigolyn – ddim yn cynrychioli sefydliad]

Mae gan ysgolion rôl pwysig wrth benderfynu ar y cynnwys a addysgir. Gall ysgolion a chyrff llywodraethu, wrth ymgynghori gyda rhieni a thrwy fanteisio ar eu gwybodaeth o'u cymuned leol, wneud penderfyniad gwybodus ynghylch natur y cynnwys a addysgir.

“O safbwynt ysgolion cynradd, rwy’n credu dylai’r ysgolion eu hunain fedru penderfynu a fydd addysg rhywioldeb yn cael ei darparu, ac os felly, dim ond deunyddiau sy’n briodol i oedrannau’r plant dylid defnyddio gan ei fod yn bwysig iawn bod plant yn cael llonydd i fod yn blant. Mae cadw rheolaeth o fewn yr ysgol a gyda llywodraethwyr yr ysgol yn caniatáu i rieni bod yn fwy o ran o’r maes llafur. Mae’n bwysig iawn nad yw athrawon yn cael eu gorfodi i addysgu rhywbeth nad ydynt yn foesol yn gytûn ag ef.” (Cyfieithiad) [Unigolyn – ddim yn cynrychioli sefydliad]

Efallai y caiff athrawon eu gorfodi i addysgu am faterion sy'n mynd yn groes i'w credoau. Rhaid ystyried hawliau athrawon hefyd. Ni ddylid gorfodi athrawon i addysgu am bynciau nad ydynt yn cytuno â nhw; mae angen ystyried rhyddid eu cydwybod. O ganlyniad i'r ffaith eu bod yn cael eu gorfodi i addysgu deunydd nad ydynt yn cytuno ag ef, efallai y bydd rhai athrawon yn penderfynu gadael y proffesiwn.

Cwestiwn 7

Ydych chi'n cytuno â'r newidiadau arfaethedig i'r pŵer gwneud canllawiau er mwyn iddo gael ei ddylunio i sicrhau bod ACRh yn cael ei darparu mewn ffordd sy'n briodol o ran oedran a datblygiad i'r plant sy'n ei derbyn?

Ymateb	Canran (nifer)	Nifer a fynegodd sylwadau ychwanegol
Ydw	22.9% (236)	76
Nac ydw	64.1% (661)	233
Dim syniad	13.0% (134)	32
Dim ymateb i'r cwestiwn caeedig		14
Cyfanswm	1031	355

Ymhlith yr ymatebwyr a atebodd 'ydw', neu a fynegodd safbwyntiau niwtral neu gadarnhaol, roedd y themâu a godwyd amlaf fel a ganlyn:

Sicrhau dull gweithredu sy'n canolbwyntio ar y dysgwr wrth gynllunio a darparu'r cwricwlwm ACRh. Roedd rhanddeiliaid addysg allweddol yn tueddu i godi'r thema hon. Mae angen i ysgolion ac athrawon sicrhau y diwallir anghenion unigol dysgwyr ac mae sicrhau cynnwys sy'n briodol o ran oedran a datblygiad plant yn bwysig. Gall gweithio gyda dysgwyr er mwyn datblygu adnoddau o'r fath fod yn effeithiol. Ni ddylid cyflwyno materion nad ydynt yn addas i oedran y dysgwr.

"Yn unol â'r 'dull ysgol gyfan' mae angen i'r cwricwlwm gael ei gyd-gynhyrchu gyda phlant a phobl ifanc er mwyn sicrhau ei fod yn cysylltu'n uniongyrchol gyda'r hyn y mae plant a phobl ifanc yn profi o'u cwmpas. Mae hyn yn sicrhau bod cynnwys yn cael ei ddatblygu ar y cyd gyda, ac ar gyfer, pobl ifanc, ac yn gydnaws â galluoedd plant a phobl ifanc wrth iddynt ddatblygu, ac yn galluogi holl blant a phobl ifanc i weld eu hunain a'i gilydd yn yr hyn y maent yn dysgu." (Cyfieithiad) [Rhanddeiliad addysg]

Mae canllawiau i ysgolion yn bwysig. Roedd rhanddeiliaid addysg allweddol yn tueddu i godi'r thema hon. Gyda'r angen i gyflwyno materion sensitif, mae angen cymryd gofal ynghylch sut y caiff y materion hyn eu haddysgu. Mae gofyn cael mewnbwn arbenigol er mwyn datblygu canllawiau, a byddai hyn yn cynnig cyfle i ymgysylltu â rhieni a dysgwyr hefyd. Cynigiwyd canllawiau pellach er mwyn cynorthwyo darpariaeth ar gyfer dysgwyr ADY hefyd.

"….bydd oedran dal yn ffactor wrth wneud penderfyniadau am ddarpariaeth, a bydd angen i ysgolion ystyried datblygiad corfforol a gwybyddol eu dysgwyr, gan gynnwys cymryd i ystyriaeth profiadau dysgwyr wrth benderfynu ar gynllunio cynnwys ACRh. Dylid hefyd fod ymgynghori addas gyda rhanddeiliaid allweddol wrth baratoi'r canllawiau hyn." (Cyfieithiad) [Rhanddeiliad addysg]

Bydd angen dysgu proffesiynol pellach ar athrawon. O ganlyniad i sensitifrwydd y materion y rhoddir sylw iddynt o fewn ACRh, bydd angen bod athrawon yn gallu manteisio

ar hyfforddiant ac adnoddau priodol er mwyn sicrhau darpariaeth "*y profiad dysgu o ansawdd uchel y mae eu disgyblion yn ei haeddu'.*

Mae cynnwys rhieni yn bwysig. Roedd rhai a atebodd 'ydw' wedi nodi bod safbwyntiau a hawliau rhieni yn bwysig o hyd, ac y dylid ystyried eu credoau.

Themâu ychwanegol a godwyd gan ymatebwyr a nododd eu bod yn sefydliadau.

Dylid manteisio ar arbenigedd sy'n bodoli eisoes er mwyn datblygu cynnwys cwricwlwm penodol. Mae canllawiau UNESCO yn cynnig dilyniant ac arweiniad clir, a byddai modd i ysgolion ei ddefnyddio er mwyn cynorthwyo eu gweithgarwch cynllunio ACRh.

Ymhlith yr ymatebwyr a atebodd 'nac ydw' neu a fynegodd bryderon penodol, roedd y themâu a godwyd amlaf fel a ganlyn:

Barnwyd bod rôl rhieni yn bwysig iawn. Dylai rhieni fod yn gallu penderfynu ar yr hyn sydd orau i'w plentyn, eu cyfrifoldeb nhw yw penderfynu ar yr hyn y mae'n briodol i'w plentyn ei ddysgu. Felly, mae angen hysbysu rhieni o gynnwys y cwricwlwm ac mae angen i rieni gadw gafael ar eu hawl i dynnu eu plentyn allan os ydynt yn dymuno. Mae rhieni yn deall yr hyn sy'n briodol i'w plentyn, gan ddibynnu ar eu hoedran a pha mor gyflym y maent yn datblygu. Mae angen ymgynghori â rhieni ynghylch y cynigion, er mwyn sicrhau y cedwir at ddull gweithredu hollol gynhwysol.

"Mae angen yr hawl ar rieni i dynnu eu plant allan o wersi ACRh. Mae dal i fod gennym yr hawl i dynnu ein plant allan o'r ysgol yn gyfangwbl a'u haddysgu yn y cartref. Mae'n rhagrithiol i ddweud nad yw rhieni yn medru dewis i dynnu eu plant allan o rai gwersi penodol." (Cyfieithiad) [Unigolyn – ddim yn cynrychioli sefydliad]

Mae plant yn rhy ifanc i ddeall y pynciau o fewn ACRh. Nododd ymatebwyr nad yw addysgu ACRh i blant o'r adeg pan fyddant yn 3 oed yn briodol. Mae plant yn aeddfedu ar wahanol gyfraddau ac mae angen i'r ffordd y cyflwynir pynciau fod yn sensitif i hyn. Mae angen diogelu diniweidrwydd plentyndod plant, ac efallai y bydd y pynciau a addysgir yn peri dryswch iddynt. Mae'n bwysig sicrhau bod y pynciau yn addas i oedran a datblygiad y plant, ond pwy sy'n gallu penderfynu hyn gan bod plant yn datblygu ac yn aeddfedu ar wahanol gyfraddau. Ni fyddai unrhyw beth a benderfynir yn ganolog mor effeithiol â chyrff llywodraethu ysgolion unigol yn penderfynu ar yr hyn sy'n briodol i'w dysgwyr, ynghyd â mewnbwn rhieni. Roedd ymatebwyr wedi cynnig gwahanol oedrannau lle'r oeddent o'r farn y byddai cyflwyno ACRh i blant yn dderbyniol. Nododd rhai bod cynnwys ACRh yn dderbyniol pan fydd plant yn yr ysgol uwchradd, a nododd eraill bod angen i blant fod dros 16 oed cyn iddynt gael eu cyflwyno iddo.

"Mae'r datganiad "mewn ffordd sydd yn berthnasol i'r oedran ac o ran datblygiad" yn ddatganiad goddrychol. Gallai'r hyn y mae un person yn meddwl sy'n addas i oedran fod yn wahanol i werthoedd a barn rhywun arall." (Cyfieithiad) [Unigolyn – ddim yn cynrychioli sefydliad]

Rhaid ystyried credoau athrawon hefyd. Mae angen i athrawon deimlo'n hyderus na fydd yn rhaid iddynt addysgu am faterion nad ydynt yn cyd-fynd â'u credoau personol nhw.

Mae angen parchu rhyddid crefydd. Efallai y bydd cynnwys y cwricwlwm yn mynd yn groes i gredoau rhieni, a dylid parchu'r egwyddorion a'r delfrydau sy'n gysylltiedig â chrefydd teulu. Gallai addysgu ACRh dramgwyddo'r credoau hyn.

Mynegwyd pryderon am gynnwys ACRh penodol yn y cwricwlwm. Nid oes gofyn rhoi pwyslais gormodol ar 'rywioldeb' gan nad yw hyn yn addas i'r oedran ac roedd rhoi sylw i gynnwys ynghylch LGBT yn peri pryder i rai rhieni hefyd, yr oeddent yn teimlo ei bod yn amhriodol cyflwyno'r pwnc hwn i blant ifanc. Mae angen i bynciau fod yn addas i'r gymuned leol a chael eu cymeradwyo gan y rhieni. Mae rhywfaint o'r deunydd presennol a gyflwynir i blant yn amhriodol, yn enwedig deunydd rhywiol amlwg i blant cynradd.

Mae'n bwysig nodi bod rhai ymatebwyr wedi camddehongli ACRh i olygu AG, a'u bod wedi canolbwyntio ar Gristnogaeth yn eu sylwadau, gan nodi bod angen iddo fod yn brif ffocws AG mewn ysgolion.

Cwestiwn 8

Ydych chi'n cytuno â'n cynigion i wneud Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb yn ddewisol i ddysgwyr chweched dosbarth?

Cafwyd 1177 o ymatebion i'r cwestiwn hwn. Yn wahanol i gwestiynau cymharol eraill yn yr ymgynghoriad, nid oedd y cwestiwn hwn wedi cynnig y dewis i ymatebwyr ateb cwestiwn caeedig gyda chyfres o ddewisiadau (Ydw / Nac ydw / Dim Syniad). Er hyn, roedd 950 wedi ymateb 'Ydw', roedd 140 wedi ymateb 'Nac ydw' ac roedd 18 wedi ymateb 'dim syniad'; nid oedd y gweddill wedi cynnwys 'Ydw/Nac ydw' clir yn eu hymateb; roedd 179 o ymatebwyr wedi darparu sylwadau ychwanegol.

Ymhlith yr ymatebwyr a atebodd 'ydw' neu a fynegodd safbwyntiau niwtral neu gadarnhaol, roedd y themâu a godwyd amlaf fel a ganlyn:

Mae dysgwyr yn ddigon aeddfed nawr i wneud eu penderfyniadau eu hunain. Erbyn y chweched dosbarth, mae dysgwyr wedi aeddfedu a gallant wneud eu penderfyniadau eu hunain, yn ogystal, maent wedi cael cynnwys perthnasol yn gynharach yn eu haddysg. Dylid fod wedi rhoi sylw i gynnwys y cwricwlwm yn gynharach yn yr ysgol; ni fydd pob dysgwr yn sefyll ymlaen i astudio yn y chweched dosbarth. Mae angen i ddysgwyr gael eu sicrhau y parchir eu dewisiadau ac na fyddant fyth yn cael eu gorfodi i astudio pwnc nad ydynt yn dymuno ei astudio. Gallai rhai sesiynau 'galw heibio' / 'dewisol' fod yn ddull gweithredu addas. Mae dysgwyr wedi cyrraedd cam hollbwysig yn eu datblygiad a byddai'r pynciau a fyddai'n cael eu cyflwyno yn cynorthwyo hyn, ac mae'r oedran hwn yn fwy addas ar gyfer cael pynciau o'r fath nag yn gynharach yn yr ysgol.

"Dylid caniatáu i ddisgyblion y chweched dosbarth arbenigo mewn meysydd sydd o ddiddordeb iddynt lle mae ganddynt amser i ddysgu a datblygu eu diddordebau yn ddwys." (Cyfieithiad) [Unigolyn – ddim yn cynrychioli sefydliad]

Rhaid bod dysgwyr chweched dosbarth yn gallu manteisio ar wasanaethau cymorth perthnasol o hyd. Hyd yn oed wrth gyflwyno ACRh fel dewis, disgwylir y caiff sawl asiantaeth eu cyfeirio at ddysgwyr chweched dosbarth, er mwyn cynnig cyngor a chymorth, gan gydnabod annibyniaeth ac ymreolaeth pobl ifanc yr oed hwn.

"Mae'n bwysig fod gan bobl ifanc yn y grŵp oedran hyn fynediad at gyngor ar berthnasoedd a rhywioldeb gan yr ysgol, p'un ai ydynt yn derbyn ACRh yn ffurfiol neu beidio. Dylai

gwasanaethau ysgol sydd wedi'u cynllunio ar gyfer pobl ifanc sy'n wynebu heriau gyda pherthnasoedd neu rywioldeb fod yn addas o ran datblygiad ac ar gael i bawb. Dylai fod yn glir i bobl ifanc o bob oedran pa gefnogaeth sydd ar gael a sut y mae cael mynediad ati." (Cyfieithiad) [Sefydliad trydydd sector]

Dylid ymgynghori â rhieni o hyd. Mae gofyn sicrhau cymorth rhieni ac ymgysylltu â nhw o hyd ynghylch unrhyw benderfyniad, a dylai rhieni gael yr hawl i dynnu eu plentyn allan o ACRh o hyd.

Gallai Bagloriaeth Cymru gynorthwyo'r broses o gyflwyno cynnwys. Gwnaethpwyd awgrymiadau y byddai modd cynnwys ACRh yng nghynnwys Bagloriaeth Cymru. Codwyd y dewis o gyflwyno Bagloriaeth Cymru fel cymhwyster dewisol yn hytrach na chymhwyster gorfodol hefyd.

Dylai prif ffocws dysgwyr chweched dosbarth fod ar astudiaethau academaidd. Dylai'r holl agweddau ar y chweched dosbarth fod yn ddewisol, dylid rhoi blaenoriaeth i'r gystadleuaeth am leoedd prifysgol a dylai dysgwyr fod yn gallu canolbwyntio ar eu pynciau academaidd.

Themâu ychwanegol a godwyd gan ymatebwyr a nododd eu bod yn sefydliadau.

Mae ACRh dewisol yn y chweched dosbarth yn adlewyrchu'r trefniadau cwricwlwm newydd. Dylai ysgolion fod yn gallu darparu ACRh o hyd, gan ystyried safbwyntiau dysgwyr ynghylch eu disgwyliadau a'r pynciau y maent yn eu ffafrio.

<u>Ymhlith yr ymatebwyr a atebodd 'nac ydw' neu a fynegodd bryderon penodol, roedd y themâu a godwyd amlaf fel a ganlyn:</u>

Mae'n bwysig bod dysgwyr chweched dosbarth yn dysgu am bynciau ACRh. Mae pobl ifanc yn agored i niwed pan fyddant yr oedran hwn a byddai cymorth ac arweiniad ychwanegol o fudd. Efallai bod rhai dysgwyr yn cael anhawster gyda materion penodol ynghylch eu rhywioldeb ac fe allai cynnal ACRh gorfodol yn y chweched dosbarth fod yn ddewis ymarferol. Os yw'r pynciau yn rhai y mae'n werth eu haddysgu, dylent fod yn berthnasol i bob dysgwr, ac mae ACRh yn arbennig o bwysig yn y chweched dosbarth, gan bod perthnasoedd yn datblygu yn ystod y cyfnod hwn. Byddai modd dewis cyflwyno rhai sesiynau gorfodol ar gyfer agweddau megis 'caniatâd'. Ni ddylai dysgwyr fod yn gallu dewis optio allan ar yr adeg hon ac mae profiadau diweddarach pan fyddant yn oedolion, mewn cymdeithas ac yn y gweithle, yn tanlinellu'r angen parhaus i ddarparu ACRh gorfodol.

"Na. Byddwn i wedi meddwl bod y rhan fwyaf o bobl yn ystyried mai hwn yw'r oedran y dylid darparu cyngor o'r fath i bobl ifanc, yn enwedig yn y byd cymhleth yr ydym yn byw ynddo, er mwyn deall beth sydd, ac sydd ddim, yn addas o safbwynt perthnasoedd rhywiol a chanlyniadau rhyw dan oedran, pwysigrwydd cydsyniad, peryglon pornograffi ac yn y blaen." (Cyfieithiad) [Unigolyn – ddim yn cynrychioli sefydliad]

Mae ACRh yn bwysig er mwyn datblygu dinasyddion gwybodus. Pwysleisiwyd bod pwysau cymdeithasol yn cynnig rhesymeg dros yr angen i ddysgwyr barhau i gael eu haddysgu ynghylch ACRh yn y chweched dosbarth.

Mae angen sicrhau cysondeb gyda dysgu ACRh cynharach. Os yw hi'n werth cyflwyno ACRh, mae angen sicrhau dilyniant o'i gymharu â phrofiadau addysg cynharach ac mae ymgynghori gyda rhieni yn berthnasol i'r cysondeb hwn hefyd. Os nad yw'n orfodol, mae

dysgwyr yr oedran hwn yn fwy tebygol o optio allan. Byddai cwricwlwm blaengar yn galluogi dysgwyr chweched dosbarth i ddatblygu eu gwybodaeth ymhellach.

Themâu ychwanegol a godwyd gan ymatebwyr a nododd eu bod yn sefydliadau.

Mae ACRh gorfodol yn y chweched dosbarth yn cynorthwyo Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn. Mae agweddau ar ACRh yn fwy priodol i oedran a datblygiad dysgwyr chweched dosbarth na phan fyddant yn iau; mae anghenion dysgwyr yn gwahaniaethu gan eu bod dros yr oedran cydsynio cyfreithiol nawr. Dylai cynnwys y cwricwlwm gael ei 'arwain gan anghenion'. Os cedwir yr hawl i dynnu allan ar gyfer y rhai 3-16 oed, efallai mai ACRh gorfodol a gyflwynir yn y chweched dosbarth fydd yr unig gyfle i rai dysgwyr gael addysg o'r fath.

“Mae angen cydbwyso hawl rhieni i dynnu eu plant allan o addysg rhywioldeb yn erbyn hawliau pobl ifanc i dderbyn addysg lawn ac i gymryd eu penderfyniadau eu hunain ynghylch yr hyn y maent yn dysgu.” (Cyfieithiad) [Sefydliad trydydd sector]

Addysg Grefyddol

Cwestiwn 9

Ydych chi'n cytuno â'r dull gweithredu arfaethedig ar gyfer Addysg Grefyddol?

Ymateb	Canran (nifer)	Nifer a fynegodd sylwadau ychwanegol
Ydw	22.5% (242)	72
Nac ydw	63.7% (684)	323
Dim syniad	13.8% (148)	26
Dim ymateb i'r cwestiwn caeedig		27
Cyfanswm	1074	448

Ymhlith yr ymatebwyr a atebodd 'ydw' neu a fynegodd safbwyntiau niwtral neu gadarnhaol, roedd y themâu a godwyd amlaf fel a ganlyn:

Mae angen paratoi dysgwyr ar gyfer cymdeithas amrywiol ac amlddiwylliannol. Mae AG yn paratoi dysgwyr ar gyfer natur amlddiwylliannol cymdeithas, ac mae hyn yn cynnwys deall gwahanol ffydd. Nododd ymatebwyr bwysigrwydd plant yn datblygu goddefgarwch a derbyn, ac mae dysgu am fwy nag un crefydd yn gallu annog sgiliau meddwl beirniadol hefyd. Gwelwyd ymatebion cymysg i'r syniad o gynnwys safbwyntiau anghrefyddol, gan ei fod yn dangos 'cydymffurfiaeth â Hawliau Dynol a CCUHP' ar un llaw, ac roedd eraill wedi nodi na ddylid cynnwys byd-olygon anghrefyddol.

"Dylid cyfyngu AG i Gristnogaeth a chrefyddau eraill y byd, ac nid safbwyntiau anghrefyddol megis Dyneiddiaeth. Mae digon o gyfleoedd i godi safbwyntiau anghrefyddol ar draws gweddill y cwricwlwm." (Cyfieithiad) [Unigolyn – ddim yn cynrychioli sefydliad]

Mae angen moderneiddio cynnwys AG. Cefnogwyd cyflwyno AG fel rhan o MDPh y Dyniaethau, ac mae gofyn i AG gael ei ystyried yr un fath â'r pynciau Dyniaethau eraill. Nodwyd bod MDPh Iechyd a Lles yn cyfeirio at ysbrydolrwydd hefyd. Ceir potensial i archwilio athroniaeth a moeseg fel y llwybr ar gyfer cynnwys cwrs, ac enw amgen o bosibl – gan nad yw 'AG' yn llwyddo i gyfleu'r holl gynnwys (e.e. moesoldeb, moeseg). Awgrymwyd teitlau amgen gan rai ymatebwyr, gan gynnwys 'Crefyddau a Byd-olygon; Credoau a Gwerthoedd; Moeseg'.

"Yn unol ag annog 'sgiliau ehangach' megis meddwl yn feirniadol, dylai bod safbwyntiau crefyddol yn agored i her rhesymol, yn enwedig pan fo safbwyntiau crefyddol yn gwrth-ddweud hawliau dynol sylfaenol mewn perthynas â chydraddoldeb. Mae AG yn werthfawr ym mhob oedran o addysg feithrin ymlaen. Dylai fod yn ofynnol ar ysgolion i sicrhau bod crefydd yn cael ei archwilio nid yn unig o bersbectif Cymru neu'r DU ond o safbwynt pobl ar draws y byd sy'n dal y credoau hyn. Teimlwn y dylid defnyddio'r dull hwn yn yr un modd mewn ysgolion ffydd." (Cyfieithiad) [Sefydliad trydydd sector]

Mae datblygiad proffesiynol yn bwysig er mwyn sicrhau bod athrawon yn deall gofynion y pwnc. Roedd rhanddeiliaid addysg allweddol yn tueddu i godi'r thema hon. Cyfeiriodd ymatebwyr at y gost o sicrhau adnoddau ar gyfer AG a phwysigrwydd

darparu datblygiad staff o ansawdd. Mae angen arbenigwyr pwnc AG ar draws Cymru i gynorthwyo hyn, gyda chyrsiau hyfforddi athrawon cynradd yn cynnwys ffocws ar AG hefyd. Mae angen arweiniad er mwyn cynorthwyo dehongliad ymarferwyr o 'briodol yn ôl oedran a datblygiad', a dylai enghreifftiau o arferion da fod ar gael i gynorthwyo gwelliant. Ceir goblygiadau ar gyfer hyfforddiant, yn enwedig ar gyfer y Cyfnod Sylfaen, gan bod angen sicrhau cysondeb rhwng y Blynyddoedd Cynnar a grwpiau oedran eraill.

Themâu ychwanegol a godwyd gan ymatebwyr a nododd eu bod yn sefydliadau.

Mae'n bwysig rhoi statws statudol i AG. Roedd rhanddeiliaid addysg allweddol yn tueddu i godi'r thema hon. Ni ddylai AG fynd ar goll yn MDPh y Dyniaethau, ac mae'n bwysig ei fod yn amlwg ymhlith pob oed yn yr ysgol, yn enwedig yng ngoleuni'r 'hawl i dynnu allan'. Ni ddylid drysu rhwng addysgu AG ac adrodd am ddigwyddiadau hanesyddol, ond dylid canolbwyntio ar ddeall Cristnogaeth a chredoau byd eraill a safbwyntiau anghrefyddol; mae angen sicrhau cysondeb ar draws Cymru ac mae'n rhaid diffinio'r derminoleg yn y ddeddfwriaeth yn glir. Dylai ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir sicrhau yr addysgir elfen AG MDPh y Dyniaethau yn ychwanegol i'w AG enwadol.

Mae angen sicrhau cysondeb yn y derminoleg Gymraeg ynghylch credoau anghrefyddol. Dylid mabwysiadu ‘nad ydynt yn grefyddol’ fel y term i gyfleu anghrefyddol, er mwyn sicrhau cysondeb ar draws addysg.

<u>Ymhlith yr ymatebwyr a atebodd 'nac ydw' neu a fynegodd bryderon penodol, roedd y themâu a godwyd amlaf fel a ganlyn:</u>

Mae angen rhoi ffocws clir ar Gristnogaeth. Cristnogaeth ddylai fod yn brif ffocws AG, o ganlyniad i arwyddocâd Cristnogaeth i hanes a threftadaeth Cymru, ac fel adlewyrchiad o gymdeithas heddiw. Mae'r diffyg dealltwriaeth ymddangosiadol o Gristnogaeth mewn cymdeithas yn cynnig cymhelliant ar gyfer y ffocws hwn.

“Seiliwyd y wlad hon ar Gristnogaeth a dyna yw prif grefydd y mwyafrif o bobl o hyd felly Cristnogaeth ddylai fod prif ffocws addysg yn y maes hwn ac nid cymysgedd o nifer o gredoau a fydd yn drysu plant. Mae o leiaf 58% o bobl yng Nghymru yn adnabod eu hunain fel Cristnogion ac mae derbyn addysg ar hwn yn hanfodol iddynt er mwyn deall sut a pham datblygodd eu gwlad fel a wnaeth.” (Cyfieithiad) [Unigolyn - ddim yn cynrychioli sefydliad]

Roedd y safbwyntiau yn gymysg ynghylch cynnwys amrediad o ffydd a safbwyntiau anghrefyddol wrth addysgu AG. Trwy gynnwys amrediad o wahanol ffydd wrth addysgu AG, cynigiwyd y gallai hyn beri dryswch i blant. Roedd eraill yn cefnogi cynnwys crefyddau byd eraill o fewn AG, ac na fyddai'r pwnc yn cynnwys 'athroniaethau eraill' /'credoau anghrefyddol'. Roedd eglurhad yn cynnig bod AG yn ymwneud â chrefydd, 'nid credo anghrefyddol'. Nodwyd bod dyneiddiaeth yn rhywbeth amhriodol i'w gynnwys wrth addysgu AG.

Mae angen parchu hawliau rhieni. Mae rhieni yn deall y ffordd orau o ystyried AG gyda'u plant ac mae angen sicrhau'r hawl i rieni dynnu eu plentyn allan o AG. Rhaid ystyried credoau rhieni ac i rai rhieni, byddai'n well ganddyn nhw addysgu eu plentyn am eu crefydd.

“Dylid hysbysu rhieni o’r cwricwlwm fel y mae wedi’i ddiffinio a dylent benderfynu i adael i’r plentyn fynychu’r dosbarth neu beidio. Dylai rhieni medru deall y ffordd y mae ysgolion yn addysgu AG i blant 3 oed a 12 oed.” (Cyfieithiad) [Unigolyn - ddim yn cynrychioli sefydliad]

Ni ddylai AG fod yn orfodol. Dylai rhieni a dysgwyr fod yn gallu dewis astudio AG, ac mae hyn yn arbennig o bwysig i ddysgwyr hŷn (14-16 oed); gan bod nifer y dewisiadau TGAU sydd ar gael yn gyfyngedig, ac mae gorfodi cyflwyno AG yma yn arwain at sefyllfa lle na fydd dysgwyr yn gallu astudio pynciau eraill. Mae plant oedran meithrin yn rhy ifanc i gael eu cynnwys mewn AG orfodol. Ni allant ddeall y materion ac nid ydynt yn y ddarpariaeth feithrin yn ddigon hir i gynnwys AG orfodol gyda gofynion eraill y cwricwlwm y mae angen eu cyflwyno.

Dylai AG fod yn rhan o'r MDPh Dyniaethau. Gellir rhoi sylw i AG o fewn yr holl agweddau ar y Dyniaethau ac mae angen ystyried y pwnc fel cyfle i feithrin sgiliau dysgwyr ym maes 'ymchwil, dadlau, a thrafodaeth'.

Cwestiwn 10

Ydych chi'n cytuno â'n cynigion i wneud Addysg Grefyddol yn ddewisol i ddysgwyr yn y chweched dosbarth?

Ymateb	Canran (nifer)	Nifer a fynegodd sylwadau ychwanegol
Ydw	63.1% (640)	147
Nac ydw	23.9% (243)	78
Dim syniad	13.0% (132)	18
Dim ymateb i'r cwestiwn caeedig		20
Cyfanswm	1015	263

Roedd mwyafrif yr holl ymatebion i'r cwestiwn hwn yn cynnig gwybodaeth ychwanegol gyfyngedig y tu hwnt i bwysleisio eu bod yn cytuno/anghytuno, a'u hymateb Ydw / Nac ydw.

Ymhlith yr ymatebwyr a atebodd 'ydw' neu a fynegodd safbwyntiau niwtral neu gadarnhaol, roedd y themâu a godwyd amlaf fel a ganlyn:

Mae dysgwyr yn ddigon aeddfed erbyn y chweched dosbarth i wneud eu penderfyniadau eu hunain. Mae'n bwysig bod dysgwyr yn gallu gwneud eu penderfyniadau eu hunain am yr hyn y maent yn dymuno ei astudio yn y chweched dosbarth. Erbyn yr adeg pan fyddant yn 16 oed, mae dysgwyr yn ddigon aeddfed i ddewis a ydynt yn mynd i fanteisio ar AG neu wneud dewis amgen. Nododd nifer fach o ymatebwyr bod angen gwneud y penderfyniad mewn partneriaeth â rhieni a dysgwyr.

"Mae addysg chweched dosbarth o angenrhaid yn fwy cyfyng ei sgôp o ystyried yr angen i arbenigo i raddau. I'r rheiny sydd â gwir ddiddordeb mae nifer o ffyrdd o addysgu'u hunain ar faterion crefyddol. Nid mewnbwn gan yr ysgol yw'r ffordd orau neu fwyaf effeithiol." *(Cyfieithiad)* [Unigolyn - ddim yn cynrychioli sefydliad]

Mae angen sicrhau cydraddoldeb rhwng profiadau dysgu y rhai yn y chweched dosbarth a'r rhai sy'n mynychu Colegau Addysg Bellach. Roedd rhanddeiliaid addysg allweddol yn tueddu i godi'r thema hon. Mae dewis dysgwyr yn bwysig pan fydd plant yr oedran hwn, ac mae angen sicrhau tegwch gyda'r profiad dysgu mewn SABau. Mae darpariaeth AG cyn y chweched dosbarth am wahanol grefyddau a chredoau yn ddigonol.

Yn y chweched dosbarth, mae angen i ddysgwyr ganolbwyntio ar eu pynciau academaidd. Mae angen bod dysgwyr yn gallu canolbwyntio ar eu pynciau ÔI-16. Bydd dysgu rhwng 3 ac 16 oed wedi darparu gwybodaeth a dealltwriaeth ddigonol i ddysgwyr o AG. Nid oes angen pynciau gorfodol ar yr adeg hon yn ystod addysg dysgwr; byddai hyn yn cynnig hyblygrwydd i ysgolion fod yn gallu datblygu a darparu gweithgareddau perthnasol er mwyn rhoi sylw i faterion 'moesegol', yn ôl y gofyn.

"Oherwydd os fe fydd pawb yn dilyn yr argymhellion fe fydd dysgwyr wedi cael cyflwyniad sylweddol ar hyd eu taith hyd at 16. Amser i arbenigo ar feysydd o'u dewis." [Unigolyn – ddim yn cynrychioli sefydliad]

Wrth ymgynghori gyda dysgwyr, dylai canllawiau cefnogol fod ar gael yn y chweched dosbarth. Byddai modd ychwanegu at y cwricwlwm, ar ôl ymgynghori gyda dysgwyr, er mwyn adlewyrchu blaenoriaethau lleol. Nodwyd y byddai angen i ddysgwyr fod yn gallu manteisio ar gymorth a chanllawiau priodol o hyd. Gallai cryfhau Cymhwyster Bagloriaeth Cymru gynorthwyo darpariaeth o'r fath.

Themâu ychwanegol a godwyd gan ymatebwyr a nododd eu bod yn sefydliadau.

Dylid cynnig dewis i ddysgwyr sicrhau cymhwyster AG. Os bydd dysgwyr yn dymuno cwblhau cymhwyster AG yn ystod y chweched dosbarth, dylai hyn fod ar gael iddynt.

Mae angen sicrhau ansawdd y ddarpariaeth os cyflwynir AG. Mae'n bwysig bod canllawiau digonol yn cael eu darparu er mwyn sicrhau ansawdd AG i ddysgwyr chweched dosbarth.

<u>Ymhlith yr ymatebwyr a atebodd 'nac ydw' neu a fynegodd bryderon penodol, roedd y themâu a godwyd amlaf fel a ganlyn:</u>

Dylid addysgu AG trwy gydol pob cam o addysg plentyn, gan gynnwys y chweched dosbarth. Mae cyflwyno cynnwys cwricwlwm am Gristnogaeth yn ystod y chweched dosbarth yn cynorthwyo gwerthoedd cymdeithas. Gall dysgwyr ddeall y materion a gyflwynir yn well ac maent yn gallu trafod cysyniadau gan eu bod yn hŷn. Os bydd y pwnc yn ddewisol, gallai awgrymu nad yw'n bwysig. Mae dysgu am wahanol gredoau yn bwysig er mwyn sicrhau bod parch mewn cymdeithas.

"Caiff pobl ifanc eu cyflwyno i bobl a syniadau newydd wrth gychwyn yn y gweithle neu brifysgol ac mae archwilio'r rhain mewn lleoliadau diogel a chyfarwydd yn fuddiol wrth baratoi ein pobl ifanc ar gyfer bywyd ar ol y chweched dosbarth/addysg bellach." (Cyfieithiad) [Unigolyn - ddim yn cynrychioli sefydliad]

Mae angen i bobl ifanc gael arweiniad yn ystod y chweched dosbarth o hyd. Roedd rhai ymatebion wedi pwysleisio'r angen i AG barhau i fod yn orfodol yn y chweched dosbarth, neu nad oes angen newid yr arweiniad cyfredol, gan bod y cyfnod o bontio i fyd oedolyn yn gyfnod hollbwysig pan fo angen arweiniad moesol o hyd. Awgrymwyd bod y potensial o gynnwys AG o fewn Bagloriaeth Cymru yn ffordd bosibl i ddysgwyr feithrin dealltwriaeth ddyfnach.

"Mae'n drueni bod trafodaeth ynglŷn â chaniatáu hyn gan mai dosbarth chwech yw'r cyfnod lle mae modd trafod materion cred/gwyddoniaeth mewn ffordd synhwyrol." (Cyfieithiad) [Unigolyn – ddim yn cynrychioli sefydliad]

Mae angen arweiniad gwell ar gyfer y ddarpariaeth yn y chweched dosbarth. Mae'r arweiniad presennol yn eang ac mae angen cryfhau hyn.

Ni ddylid addysgu AG yn y chweched dosbarth. Nododd rhai ymatebwyr eu hymateb negyddol, gan nodi eu bod yn gwrthwynebu i'r cam o addysgu AG yn y chweched dosbarth, os yw'n rhywbeth dewisol neu orfodol.

Yr Hawl i Dynnu Plant Allan o Addysg Grefyddol ac Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb

Cwestiwn 11

A ddylid cadw'r hawl i dynnu allan o AG ac ACRh?

Ymateb	Canran (nifer)	Nifer a fynegodd sylwadau ychwanegol
Dylid	88.7% (1421)	438
Na ddylid	9.2% (148)	73
Dim syniad	2.1% (33)	10
Dim ymateb i'r cwestiwn caeedig		33
Cyfanswm	1602	554

Ymhlith yr ymatebwyr a atebodd 'dylid' neu a fynegodd safbwyntiau niwtral neu gadarnhaol, roedd y themâu a godwyd amlaf fel a ganlyn:

Mae angen parchu a chadw hawliau a chyfrifoldebau rhieni. Roedd rhanddeiliaid addysg allweddol yn tueddu i godi'r thema hon. Mae dealltwriaeth rhieni o aeddfedrwydd a datblygiad eu plentyn eu hunain yn golygu mai nhw yw'r rhai gorau i benderfynu ar yr hyn sy'n briodol i'w plentyn ei ddysgu a pha oed y dylent fod pan fyddant yn ei ddysgu. Mae cynnwys rhieni yn y penderfyniad, trwy gynnwys rhannu cynnwys y wers gyda nhw, yn golygu y gall rhieni sicrhau na addysgir gwybodaeth/gwerthoedd i'w plant sy'n mynd yn groes i gredoau/crefydd y rhieni. Mae perthynas llawn ymddiriedaeth rhwng yr ysgol a rhieni yn bwysig. Efallai y bydd rhieni yn dymuno tynnu eu plentyn allan o agweddau penodol ar y cynnwys. Rhieni ddylai feddu ar y cyfrifoldeb pennaf dros eu plentyn a dylai eu hawl i dynnu eu plentyn allan barhau.

"Nid yw plant oed ysgol yn medru gwneud penderfyniadau ar bynciau fel hyn gan mai ychydig iawn o ddealltwriaeth sydd ganddynt o'r hyn sydd dan sylw ac yn aml byddant yn dilyn eu cyfoedion." (Cyfieithiad) [Unigolyn – ddim yn cynrychioli sefydliad]

Mae'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol yn cefnogi hawliau rhieni. Nid yw hi'n briodol bod y llywodraeth nag unrhyw ysgol yn gorfodi unrhyw gwricwlwm ar blant, ac mae hyn yn cael ei adlewyrchu yn y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol, a dylid parchu safbwyntiau rhieni. Cyfeiriwyd at y Ddeddf Addysg (1996) hefyd; gan gyfeirio at addysgu disgyblion yn unol â dymuniadau eu rhieni.

Gallai cynnwys ACRh penodol ddrysu plant ifanc. Gallai elfennau o ACRh ddrysu plant ifanc, ac mae rhieni mewn sefyllfa well i addysgu plant iau. Mae natur sensitif rhai o'r materion ACRh dan sylw yn golygu bod yn rhaid ystyried safbwyntiau rhieni. Fodd bynnag, roedd safbwyntiau cymysg ynghylch y cynnwys ar gyfer AG ac ACRh e.e. AG – 'gwybodaeth ffeithiol', ACRh – 'gwerthoedd personol a chredoau' neu ACRh 'ni fyddai gwybodaeth ffeithiol a chrefydd neu ddiwylliant yn cynnig rhesymau dros dynnu plentyn allan'.

Dylid rhoi sylw ar wahân i'r hawl i dynnu allan o AG ac ACRh. Roedd nifer o ymatebion wedi rhoi sylw i AG ac ACRh ar wahân, gan ymateb gyda safbwyntiau cymysg; e.e. AG –

dylai barhau i fod yn orfodol; ACRH – dylai fod yn ddewisol / ACRh – dylai fod yn orfodol, mewn rhai achosion, cynigiwyd mwy o fanylion e.e. rhannu'r hawl i dynnu allan yn ôl oedran; megis bod AG yn orfodol nes bydd plentyn yn 16 oed ac ACRh yn orfodol ar gyfer dysgwyr chweched dosbarth.

Gallai gwaredu'r hawl i dynnu allan arwain at gynnydd yn y niferoedd sy'n dewis addysgu eu plant gartref. Os gwaredir yr hawl i dynnu plant allan, efallai y bydd ysgolion yn colli cefnogaeth rhieni ac efallai y bydd y penderfyniad yn cymell rhai rhieni i addysgu eu plant gartref.

Themâu ychwanegol a godwyd gan ymatebwyr a nododd eu bod yn sefydliadau.

Ceir cefnogaeth ar gyfer hawl rhieni i dynnu eu plant allan. Roedd ymatebwyr yn cymeradwyo'r cam o gadw'r hawl i dynnu plant allan ac i rieni ymgysylltu ag addysg eu plentyn. Dylid annog gweithgarwch i rannu cynnwys y cwricwlwm gyda rhieni, ac mae angen proses gadarn ar gyfer unrhyw gais i dynnu plentyn allan. Byddai hyn yn sicrhau bod rhieni yn hollol wybodus ac yn ymwybodol o'r effaith ar addysg eu plentyn, a chyfeiriwyd at dystiolaeth; mae cynnwys rhieni mewn trafodaethau am y cwricwlwm yn golygu eu bod yn llai tebygol o dynnu eu plentyn allan (e.e. gallai hyn fod ar ffurf cyngor rhieni mewn ysgol).

"Yn amlwg byddai angen i ddarpariaeth fod yn berthnasol i'r oedran ac o ran datblygiad. Elfen allweddol o hyn fydd hyrwyddo manteision hyn i rieni a theuluoedd er mwyn sicrhau bod ganddynt ddealltwriaeth glir o'r hyn sy'n cael ei ddarparu ac ym mha ffordd. Byddai adnoddau i gefnogi darpariaeth yn y maes hwn i'w croesawu gan y sector p'un ai yw'r hawl i dynnu allan yn aros neu beidio." (Cyfieithiad) [Rhanddeiliad blynyddoedd cynnar]

Mynegwyd pryderon am ymarferoldeb tynnu plant allan gyda'r dull newydd o gyflwyno MDPh. Gallai cyflwyno'r cwricwlwm gan ddefnyddio MDPh ei gwneud yn anodd bodloni unrhyw gais i dynnu plentyn allan, o ganlyniad i'r dull gweithredu integredig tuag at y ddarpariaeth arfaethedig ar gyfer y cwricwlwm newydd. Mae elfennau penodol o AG ac ACRh yn bwysig iawn i ddiogelwch pob plentyn. Mae angen dealltwriaeth lawn o'r niferoedd sy'n tynnu plant allan ar hyn o bryd ac mae angen cysondeb o ran y dull gweithredu ar draws Cymru. Mae angen ystyried hawliau athrawon i dynnu allan hefyd.

<u>Ymhlith yr ymatebwyr a atebodd 'nac ydw' neu a fynegodd bryderon penodol, roedd y themâu a godwyd amlaf fel a ganlyn:</u>

Os tynnir dysgwyr allan, bydd hyn yn cael effaith negyddol ar y cyfle iddynt fanteisio ar gwricwlwm eang. Roedd rhanddeiliaid addysg allweddol yn tueddu i godi'r thema hon. Os yw AG ac ACRh yn orfodol, bydd dysgwyr yn cael profiad o amrediad o bynciau, gan ehangu eu gwybodaeth am y byd. Disgwylir i'r cwricwlwm newydd ysgogi gwerthfawrogiad dysgwyr o ehangder o bersbectifau, a chyflwynir hyn gyda dull gweithredu integredig. Fodd bynnag, efallai y bydd anghytundeb ynghylch union gynnwys yr ACRh/AG i'w gyflwyno. Mae cyflwyno'r wybodaeth yn yr ysgol yn 'lle diogel', yn hytrach na'i ddysgu 'y tu allan'.

"Mae angen cyflwyno plant i ystod eang o syniadau a safbwyntiau fel eu bod yn medru dysgu i feddwl yn feirniadol a dod i'w casgliadau eu hunain. Os ydym yn caniatáu tynnu allan rydym yn rhwystro hyn." (Cyfieithiad) [Unigolyn – ddim yn cynrychioli sefydliad]

Mae angen i blant ddysgu am bynciau AG ac ACRh er mwyn gallu cymryd rhan mewn cymdeithas gynhwysol. Byddai cael AG ac ACRh fel pynciau gorfodol yn cael effaith gadarnhaol ar ddatblygiad unigolion, gan gyfrannu at eu dealltwriaeth a'u cyfranogiad mewn

cymdeithas amrywiol a democrataidd. Mae'r cwricwlwm newydd ac AG yn pwysleisio rôl dinesydd wedi'i hysbysu gan ystyriaethau moesegol; ac mae ACRh yn canolbwyntio ar berthnasoedd cadarnhaol. Mae gan blant yr hawl i fanteisio ar addysg bwysig ac ni ddylai rhieni fod yn gallu tynnu'r hawl honno yn ôl ar sail eu safbwyntiau personol nhw.

Bydd goblygiadau o ran staffio ac i'r cwricwlwm os caiff dysgwyr eu tynnu allan o AG a/neu ACRh. Bydd goblygiadau i staffio er mwyn sicrhau bod pob dysgwr yn cael eu haddysgu, gan gynnwys y rhai sy'n cael eu tynnu allan o wersi. Bydd effaith ehangach ar y cynnig addysgol os caiff dysgwyr eu tynnu allan o'r cwricwlwm newydd; gan bod y cwricwlwm newydd yn mynnu bod AG yn cael ei ymgorffori a'i gyflwyno mewn ffordd fwy thematig. Os bydd yr hawl i dynnu plant allan yn parhau, bydd ysgolion yn wynebu sialensiau wrth ddarparu AG mewn ffordd integredig.

Mae angen i gynnwys ACRh ac AG fod yn addas i oedrannau'r plant dan sylw. Mae addysg yn ddewisol i blant dan bump oed ac ar yr amod bod deunydd yn addas i oedran y plant dan sylw, ni fydd rhieni yn tynnu eu plant 3-5 oed allan o ACRh/AG.

Themâu ychwanegol a godwyd gan ymatebwyr a nododd eu bod yn sefydliadau.

Mae tynnu dysgwyr allan o AG ac ACRh yn mynd yn groes i hawliau plant. Barnir bod tynnu plant allan o AG ac ACRh yn mynd yn groes i CCUHP a CEHD, a gallai dull gweithredu integredig y cwricwlwm newydd olygu na fyddai dysgwyr yn gallu manteisio ar feysydd eraill o'r cwricwlwm pe byddent yn cael eu tynnu allan. Ceir cefnogaeth i'r syniad bod AG ac ACRH yn orfodol, a cheir tystiolaeth anecdotaidd o achosion o dynnu plant allan yn cael eu seilio ar ragfarn ynghylch crefyddau eraill; cynigiwyd canllawiau cryfach i ysgolion er mwyn eu helpu i ddelio â cheisiadau o'r fath i dynnu plant allan. Yn ogystal, awgrymwyd canllawiau cryfach ynghylch y gofyniad ar wahân i sicrhau darpariaeth addoli ar y cyd.

Mae AG ac ACRh yn allweddol er mwyn datblygu dinasyddion gwybodus a moesegol. Mae'r pynciau a gaiff eu cynnwys yn AG ac ACRh yn hyrwyddo sgiliau bywyd pwysig a byddant yn galluogi dysgwyr i werthfawrogi amrywiaeth a chynwysoldeb.

Mae dealltwriaeth dysgwyr o 'berthnasoedd iach' yn gyfyngedig a dylai ACRh fod yn orfodol. Amlygir dealltwriaeth gyfyngedig bresennol dysgwyr o 'berthnasoedd iach', a dylid darparu ACRh gorfodol gan staff sy'n hyderus ac sy'n gallu ymgysylltu â'r gwahanol faterion diwylliannol. Byddai ymgysylltu effeithiol gyda rhieni yn rhoi sylw i unrhyw bryderon a fyddai gan rieni am unrhyw gynnwys gorfodol.

"Tra ein bod ni'n cydnabod pwysigrwydd AG ac ACRh, rydym yn deall bod hwn yn faes sensitif, ac felly'n gweld pam y gellid ystyried yr hawl i dynnu allan fel rhywbeth rhesymol. Fodd bynnag, rydym hefyd o'r farn ei fod yn bwysig cynnal 'ehangder' ar gyfer yr holl ddysgwyr yn ogystal a bod yn ymwybodol o ddymuniadau rhieni." (Cyfieithiad)
[Rhanddeiliad addysg]

Cwestiwn 12

Os yw'r hawl i dynnu allan yn cael ei gadw, a ddylai barhau'n hawl i'r rhiant yn unig (mae rhiant yn cynnwys y sawl sydd â chyfrifoldeb rhiant neu'r rhai sy'n gofalu am y plentyn)?

Ymateb	Canran (nifer)	Nifer a fynegodd sylwadau ychwanegol
Dylai	90.9% (1443)	433
Na ddylai	5.3% (84)	44
Dim syniad	3.8% (60)	25
Dim ymateb i'r cwestiwn caeedig		37
Cyfanswm	1587	539

Roedd mwyafrif y sylwadau ychwanegol yn ail-bwysleisio'r ffaith eu bod yn cytuno y dylai'r rhiant barhau i feddu ar yr hawl i dynnu plentyn allan, ac roedd nifer wedi cyfeirio at/ategu eu hymateb i gwestiwn 11.

Ymhlith yr ymatebwyr a atebodd 'dylai' neu a fynegodd safbwyntiau niwtral neu gadarnhaol, roedd y themâu a godwyd amlaf fel a ganlyn:

Mae angen i rieni gadw eu hawliau i dynnu eu plentyn allan. Roedd rhanddeiliaid addysg allweddol yn tueddu i godi'r thema hon. Dylai rhieni fod yn rheoli dysgu eu plentyn, yn enwedig pan fyddant yn ifanc. Pan fydd plant yn hŷn, gallant wneud eu penderfyniadau eu hunain (e.e. awgrymwyd amrediad o oedrannau, wyth oed; dros 15 oed; chweched dosbarth). Mae rhieni yn deall datblygiad eu plentyn ac a ydynt yn ddigon aeddfed i ddeall cynnwys pwnc. Dyfynnwyd a chyfeiriwyd at y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol a Deddf Addysg 1996 wrth gefnogi'r hawliau hyn i rieni.

"Bydd rhai safbwyntiau ar addysg rhyw yn gwrthdaro gydag argyhoeddiadau cydwybodol rhieni ac felly mae'n gwbl hanfodol bod yr hawl i dynnu allan yn cael ei gynnal." (Cyfieithiad)
[Unigolyn – ddim yn cynrychioli sefydliad]

Mae angen ystyried safbwyntiau'r dysgwyr hefyd. Roedd rhanddeiliaid addysg allweddol yn tueddu i godi'r thema hon. Hyd yn oed os bydd rhieni yn cadw'r hawl i dynnu eu plant allan, mae angen ystyried safbwyntiau plant a dylid sicrhau cytundeb rhwng y rhiant a'r plentyn. Byddai angen bodloni meini prawf a sefydlwyd ym mholisi yr ysgol. Ni ddylai hwn fod yn benderfyniad i'r dysgwr yn unig, er hyn, mae angen ystyried safbwyntiau plant hŷn.

"Dylid cadw'r hawl i dynnu allan gyda'r rhiant ond fe ellid ei ehangu i ganiatáu i blant/dysgwyr sy'n arddangos digon o allu i wneud y penderfyniad drostyn nhw eu hunain. Dylid felly trafod hwn yn agored gyda'r plentyn a'r rhieni lle'n bosibl." (Cyfieithiad)
[Rhanddeiliad blynyddoedd cynnar]

Ceir gwahanol safbwyntiau am yr hawl i dynnu plant allan ar gyfer AG ac ACRh. Codwyd gwahaniaethau rhwng dewisiadau ACRh ac AG (yn debyg i'r rhai a nodwyd yng nghwestiwn 11). Dylai ACRh fod yn orfodol a dylai AG fod yn ddewisol; neu, cyflwyno ACR yn y cartref ac AG yn yr ysgol.

Bydd angen rheoli gweithrediad unrhyw achosion o dynnu plant allan. Dylid diwygio'r hawl bresennol i dynnu plentyn allan er mwyn sicrhau bod rhieni yn darparu dysgu amgen ar gyfer eu plentyn.

Ymhlith yr ymatebwyr a atebodd 'nac ydw' neu a fynegodd bryderon penodol, roedd y themâu a godwyd amlaf fel a ganlyn:

Mae angen ystyried safbwyntiau dysgwyr. Roedd rhanddeiliaid addysg allweddol yn tueddu i godi'r thema hon. Nododd ymatebwyr bod angen ystyried safbwyntiau dysgwyr, yn enwedig y rhai dros 15 oed, oherwydd dylai dysgwyr fod yn gallu gwneud y penderfyniad eu hunain. Byddai hyn yn cefnogi CCUHP, gan gydnabod aeddfedrwydd dysgwr i wneud penderfyniadau.

Mae angen i AG ac ACRh fod yn orfodol. Byddai cyflwyno AG ac ACRh gorfodol yn sicrhau bod pob dysgwr yn cael 'cwricwlwm eang a chytbwys'. Roedd rhai ymatebion yn ategu'r angen i ystyried AG ac ACRh ar wahân ynghylch yr hawl i dynnu plentyn allan.

Cwestiwn 13

Os caiff yr hawl i dynnu allan ei dileu, pa ddewis arall, os o gwbl, ddylai fod yn ei le?

Cafwyd cyfanswm o 479 o sylwadau mewn perthynas â'r cwestiwn hwn.

Roedd y themâu a godwyd amlaf fel a ganlyn:

Mae angen cadw'r hawl i dynnu plentyn allan. Roedd rhanddeiliaid addysg allweddol yn tueddu i godi'r thema hon. Cydnabuwyd pwysigrwydd cadw hawl rhieni i dynnu plentyn allan, a chydnabuwyd hawliau plant hefyd. Soniwyd am yr angen i barchu credoau crefyddol teuluoedd hefyd.

"Dylid cadw'r hawl i dynnu allan gyda'r rhieni gan mai nhw sydd yn y sefyllfa orau i benderfynu beth sydd orau i'w plant. Cefnogir hyn gan Ddeddf Addysg 1996 sy'n dweud bod gan awdurdodau addysg ddyletswydd i addysgu plant 'yn unol â dymuniadau rhieni' ac hefyd y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol sy'n datgan y 'dylai'r Wladwriaeth barchu hawl rhieni i sicrhau addysg sy'n cydymffurfio gyda'u crefydd eu hunain'." (Cyfieithiad)
[Unigolyn – ddim yn cynrychioli sefydliad]

Mae cyfathrebu gyda rhieni am gynnwys penodol y cwricwlwm yn bwysig. Mae angen i ysgolion hysbysu rhieni o'r cynnwys i'w gyflwyno, gan gynnig sicrwydd a chyfle i rieni drafod materion gartref. Gallai rhieni fynychu gwersi er mwyn arsylwi'r cynnwys.

"Dylai ysgolion ymgynghori â rhieni ynglŷn â sut y maent yn dymuno i'w plant gael eu haddysgu, er enghraifft ar faterion Lesbiaidd, Hoyw, Ddeurywiol a Thrawsrywiol a darparu gwersi sy'n sensitif i ffydd a gwerthoedd y plentyn." (Cyfieithiad)
[Unigolyn – ddim yn cynrychioli sefydliad]

Awgrymwyd syniadau amgen er mwyn cyflwyno gwersi. Gall y dewis amgen gael ei ddarparu gan yr ysgol neu gan rieni. Fodd bynnag, gall ysgolion gael anawsterau wrth gynnig goruchwyliaeth ar gyfer y dysgwyr sy'n cael eu tynnu allan. Gallai rhieni ddarparu rhaglen astudio sy'n addas i'w plentyn, ond byddai angen monitro darpariaeth amgen ac mae'r atebolrwydd yn ystod y diwrnod ysgol yn gyfrifoldeb ar ysgolion. Awgrymwyd rhai syniadau am ddarpariaeth gwersi amgen, ac roedd y rhain yn cynnwys: gwers ffydd a gyflwynir gan y rhieni neu gymuned ffydd briodol, cyfnodau astudio rhydd; gwersi pwnc

craidd, ABGIE; Cymraeg, Profiad gwaith, sgiliau bywyd, Moeseg ac Athroniaeth; adolygu, Dyniaethau heb yr agwedd grefyddol, a chyfleoedd cwnsela i blant.

"Efallai y byddai cwrs dinasyddiaeth amgen ar gyfer grwpiau a fyddai, fel arall, yn tynnu allan yn sicrhau 'dinasyddion egwyddorol, gwybodus' waeth beth yw eu dewis." (Cyfieithiad) [Darparwr addysg]

Os gwaredir yr hawl i dynnu plant allan, gallai hyn arwain at ganlyniadau anfwriadol. Gall rhieni dynnu eu plentyn allan o'r ysgol yn ystod y cyfnod pan gyflwynir sesiynau, neu gallai'r plentyn gael eu tynnu allan dros y tymor hir, a gallai nifer y dysgwyr sy'n cael eu haddysgu gartref gynyddu. Efallai na fydd grwpiau ffydd penodol yn ymgysylltu ag ysgolion mwyach.

Mae angen ymgynghori â dysgwyr. Nododd ymatebwyr bod angen i ddysgwyr benderfynu ar yr hyn y maent yn dymuno astudio, ac mae'n rhaid ystyried anghenion a gofynion unigol.

"Os yw myfyrwyr yn rhan o gynllunio a darparu'r cwricwlwm bydd hwn yn sicrhau ei fod yn cwmpasu themâu sy'n berthnasol i'w bywydau." (Cyfieithiad) [Rhanddeiliad addysg]

Dylai AG ac ACRh fod yn orfodol. Ail-bwysleisiwyd yr angen am AG ac ACRh gorfodol gan ymatebwyr. Byddai hyn yn sicrhau bod dysgwyr yn cael cwricwlwm eang a'u bod yn barod ar gyfer cymdeithas; trwy wneud hynny, rhoddir sylw i un o bedwar diben y cwricwlwm newydd (dinasyddion moesegol a gwybodus). Caiff AG ei gynnwys yn MDPh y Dyniaethau a gweithredir themâu trawsgwricwlaidd, ac mae AG yn rhan o'r ddarpariaeth hon. Gallai'r gofynion gorfodol fod ar gyfer ysgolion uwchradd yn unig, a chynigiwyd hefyd na chaiff AG ei gyflwyno yn ystod blynyddoedd uchaf ysgol uwchradd.

Rhaid i gynnwys y cwricwlwm fod yn addas i oedran y plant dan sylw. Ni ddylid cyflwyno addysg rhyw mewn ysgolion cynradd.

Mae angen datblygu hyfforddiant ac arweiniad clir i ysgolion. Er mwyn sicrhau dull gweithredu diduedd, mae angen hyfforddiant ac arweiniad clir er mwyn addysgu AG, gan sicrhau y rhoddir yr un sylw i bob ffydd.

"Os caiff yr hawl i dynnu allan ei dileu bydd angen cyfleoedd dysgu proffesiynol i sicrhau bod yr AG sy'n cael ei darparu o ansawdd uchel, yn feirniadol, yn wrthrychol ac yn amrywiol." (Cyfieithiad) [Rhanddeiliad addysg]

Themâu ychwanegol a godwyd gan ymatebwyr a nododd eu bod yn sefydliadau.

Mae angen gweithdrefn fwy cadarn ar gyfer tynnu plant allan. Mae angen canllawiau cadarn ar ysgolion ynghylch yr hawl i dynnu plant allan, ac mae angen cyfleu'r rhain i rieni mewn ffordd glir. Efallai y bydd athrawon yn wynebu baich ychwanegol wrth gefnogi'r hawl i dynnu plant allan.

Y Gymraeg a Saesneg

Cwestiwn 14

Beth yw eich barn ar y dull gweithredu a gynigir ar gyfer sicrhau bod addysgu a dysgu Cymraeg yn rhan annatod o'r cwricwlwm i Gymru?

Yn yr un modd â Chwestiwn 8, nid oedd y cwestiwn hwn wedi cynnig y dewis i ymatebwyr nodi mewn cwestiwn caeedig a oeddent yn cytuno neu'n anghytuno â'r dull gweithredu arfaethedig. Fodd bynnag, bu'n bosibl pennu ym mwyafrif yr achosion a oedd ymatebwyr yn cytuno, yn anghytuno neu'n cynnig safbwyntiau mwy niwtral neu gydag arlliw o farn am y cynigion mewn perthynas â'r Gymraeg a Saesneg.

Roedd cyfanswm o 491 o ymatebwyr wedi nodi sylwadau am y cwestiwn hwn. O blith y rhain, roedd 233 wedi mynegi sylwadau a oedd yn dynodi eu bod yn cytuno gyda'r dull gweithredu arfaethedig; roedd 122 wedi mynegi sylwadau a oedd yn dynodi eu bod yn anghytuno â'r dull gweithredu arfaethedig; roedd 82 wedi cyflwyno safbwyntiau niwtral neu gymysg. Roedd y gweddill wedi darparu sylwadau a oedd yn aneglur neu'n amherthnasol i'r cwestiwn.

Ymhlith yr ymatebwyr a oedd yn cytuno â'r dull gweithredu arfaethedig, roedd y themâu a godwyd amlaf fel a ganlyn:

Sicrhau bod y Gymraeg yn rhan annatod o gynheiliaid y cwricwlwm newydd a'i fod yn cyd-fynd â strategaethau ehangach i gryfhau'r iaith Gymraeg. Roedd sefydliadau rhanddeiliaid allweddol sy'n ymwneud â'r iaith Gymraeg wedi mynegi'r thema hon. Nododd ymatebwyr bod y dull gweithredu arfaethedig yn ganolog er mwyn cynorthwyo a chryfhau'r iaith Gymraeg. Cydnabuwyd bod ymgorffori'r iaith Gymraeg fel rhan greiddiol o'r cwricwlwm yn hanfodol er mwyn cefnogi gweledigaeth hirdymor Llywodraeth Cymru a nodir yn ei strategaeth, *Cymraeg 2050: miliwn o siaradwyr.*

Mae cynnwys y Gymraeg fel rhan annatod o'r cwricwlwm yn bwysig er mwyn diogelu a chefnogi diwylliant, hunaniaeth a threftadaeth Gymreig. Roedd ymatebwyr yn dadlau bod cyswllt allweddol rhwng diwylliant a hanes Cymru a'r iaith, ac y dylid hyrwyddo dysgu'r Gymraeg trwy'r cwricwlwm.

Gwelwyd cefnogaeth ymhlith ymatebwyr – yn enwedig ymhlith sefydliadau rhanddeiliaid allweddol sy'n ymwneud â'r iaith Gymraeg – dros y cynnig y bydd dysgwyr yn dilyn un cwricwlwm er mwyn dysgu Cymraeg ar hyd continwwm. Awgrymwyd nad yw rhaglen astudio Cymraeg ail iaith wedi gallu creu Cymru ddwyieithog, o ganlyniad i addysgu o ansawdd gwael a statws y pwnc. Barnwyd bod gwaredu'r gwahaniaeth rhwng rhaglenni astudio Cymraeg iaith gyntaf ac ail iaith yn cyflwyno manteision o ran cynllunio'r cwricwlwm, gan gofnodi cyrhaeddiad a dilyniant ar draws pob cam dysgu. Gwelwyd cefnogaeth amodol ymhlith ymatebwyr mewn rhai achosion, yr oeddent yn tanlinellu'r angen am wahaniaethu a sensitifrwydd tuag at y gwahanol gyd-destunau a galluoedd dysgu iaith; nodwyd na ddylid dehongli un continwwm i olygu un lefel o asesu.

“Dylai asesiadau ac arholiadau [yn Gymraeg] adlewyrchu dysgu blaenorol a gallu’r myfyriwr er mwyn sicrhau tegwch a chyfle cyfartal i lwyddo.” (Cyfieithiad)
[Rhanddeiliad addysg]

Roedd eraill yn rhybuddio na ddylai'r cam o symud i gontinwwm dysgu iaith wanhau safonau mewn addysg cyfrwng Cymraeg. Er hyn, roedd ymatebwyr a oedd yn cytuno gyda'r dull gweithredu arfaethedig yn cyfeirio at nifer o sialensiau sy'n ymwneud yn benodol â sgiliau iaith ymhlith y gweithlu addysgu mewn ysgolion cyfrwng Saesneg; a'r angen i ddarparu cymorth ac adnoddau i ysgolion yn y sector cyfrwng Saesneg er mwyn annog arloesi dwyieithog a mwy o ddarpariaeth ddwyieithog.

Dylai ysgolion a lleoliadau meithrin a ariannir barhau i ddefnyddio'r dull trochi gyda'r iaith Gymraeg fel model addysgu. Roedd sefydliadau rhanddeiliaid yn credu'n gryf bod y model trochi presennol a ddefnyddir gan ysgolion cyfrwng Cymraeg a lleoliadau meithrin a ariannir, gan gynnwys Cylchoedd Meithrin, yn cael ei ystyried yn fodel effeithiol a phrofedig er mwyn galluogi dwyieithrwydd. Nododd ymatebwyr ei fod yn cael ei gydnabod ar lefel ryngwladol. Yn ogystal, mae dulliau trochi yn galluogi dysgwyr mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg i gael eu hasesu yn Gymraeg ac yn Saesneg yn erbyn yr un disgrifiadau lefel erbyn diwedd y cyfnod cynradd.

Roedd rhai sefydliadau rhanddeiliaid yn teimlo y byddai modd cryfhau'r cynigion trwy hyrwyddo trochi yn y Gymraeg yn ystod cyfnodau eraill (h.y. y tu hwnt i'r Cyfnod Sylfaen) fel ffordd o greu mwy o ddysgwyr dwyieithog mewn ysgolion ar draws Cymru (gan gynnwys mewn ysgolion dwyieithog a chyfrwng Saesneg). Gallai ymestyn cyfleoedd i ddysgwyr gael budd o'r model trochi alluogi dysgwyr i sicrhau cynnydd sylweddol wrth feithrin eu sgiliau Cymraeg a dewis ysgolion cyfrwng Cymraeg pe baent yn dymuno.

“Mae llwyddiant y dull trochi yn seiliedig ar y ffaith bod plant yn ddysgwyr effeithiol a medrus. Mae'n ddull sydd yn manteisio ar yr awydd mawr sydd gan y plentyn i ddysgu mwy am y byd ynghyd a diddordeb cynhenid y plentyn mewn chwarae.” [Rhanddeiliad blynyddoedd cynnar]

Roedd ymatebion a gasglwyd gan sefydliad ymgyrchu yn cefnogi'r cynnig i barhau gyda'r Gymraeg fel pwnc gorfodol yn y cwricwlwm. Roedd ymgyrch gan un sefydliad wedi casglu safbwyntiau 145 o bobl. Roedd yr ymatebion a gasglwyd trwy'r ymgyrch hon yn canolbwyntio ar yr iaith Gymraeg yn y cwricwlwm yn arbennig, ac roeddent yn cytuno â'r cynnig o ddarparu cyfleoedd i addysgu a dysgu Cymraeg i bawb. Roedd ymatebion a gafwyd trwy'r ymgyrch hon yn cefnogi un continwwm dysgu iaith, a'r angen am system categoreiddio ysgolion sy'n cynorthwyo hyn. Roedd yr ymgyrch, fodd bynnag, yn anghytuno â'r cynnig i ddeddfu er mwyn sicrhau bod Saesneg yn orfodol yn y cwricwlwm, gan nodi bod Saesneg 'yn siŵr o gael ei haddysgu' mewn ysgolion, heb yr angen am ddeddfwriaeth benodol er mwyn sicrhau bod hyn yn orfodol.

Cafwyd nifer fach o ymatebion gan bobl ifanc. Ymhlith y rhai yr oeddent yn cefnogi'r cynigion, roeddent yn teimlo y gall sgiliau Cymraeg helpu i gysylltu pobl ifanc gyda'u diwylliant a'u treftadaeth a rhoi hwb i'w rhagolygon o sicrhau cyflogaeth yn y dyfodol. Gallai'r dull gweithredu arfaethedig sicrhau bod pobl yn ystyried y Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal hefyd, a allai gymell rhagor o bobl i ddysgu Cymraeg. Roedd pobl ifanc eraill yn anghytuno â'r cynigion (gweler isod).

Roedd cyfran o ymatebwyr yn gefnogol mewn egwyddor, ond roeddent yn mynegi amheuon am agweddau allweddol ar y cynigion, sef y canlynol yn benodol:

Mynegwyd pryder gan ymatebwyr ynghylch gallu y gweithlu addysgu i gyflwyno'r cynigion. Gan gyfeirio at y cynnig y bydd gofyn i ysgolion cyfrwng Saesneg ganolbwyntio'n fwy ar ddarpariaeth Gymraeg, mynegwyd pryder gan ymatebwyr bod sgiliau Cymraeg cyfyngedig ymhlith athrawon yn y sector cyfrwng Saesneg.

"…gan ystyried y pryderon am safonau iaith Gymraeg mewn nifer o ysgolion (yn enwedig o dan drefniadau Cymraeg ail iaith) a'r lefelau cyfredol o arbenigedd ac adnoddau sydd ar gael ar draws y gyfundrefn, mae angen cryn dipyn o waith er mwyn gweithredu'r cynnig yn ymarferol." (Cyfieithiad) [Rhanddeiliad addysg]

Awgrymwyd bod prinder ymhlith y gweithlu presennol a bod sefydliadau AGA yn cael anawsterau wrth gyflawni targedau ynghylch athrawon dan hyfforddiant sy'n gallu siarad Cymraeg. Amlygodd ymatebwyr unigol a sefydliadau rhanddeiliaid allweddol y 'sialensiau heb eu datrys' ar gyfer y system addysg yng Nghymru o ran recriwtio niferoedd digonol i fodloni'r galw yn y dyfodol a chyflawni'r cynigion a nodir.

Mae canran y bobl sy'n gallu gweithio trwy gyfrwng y Gymraeg yn amrywio'n fawr rhwng cyfnodau a rhwng ardaloedd consortia ac mae'n bwysig bod adnoddau ariannol ac amser digonol yn cael ei neilltuo i feysydd lle y gwelir yr angen mwyaf amdano.

Yn ogystal, cyfeiriodd ymatebwyr at yr angen i sicrhau darpariaeth a chymorth priodol i athrawon sy'n symud i Gymru, fel y gallant addysgu'r cwricwlwm mewn ffordd effeithiol.

Roedd rhai yn teimlo bod cyflawni'r cynigion yn rhywbeth anymarferol, gan nodi'r angen am fuddsoddiad sylweddol mewn ailhyfforddi athrawon nad ydynt yn siarad Cymraeg yn rhugl er mwyn rhoi'r sgiliau a'r hyder iddynt ei addysgu yn dda.

"Mae hwn yn syniad arbennig ond mae angen mynd i'r afael â'r prinder athrawon sy'n hyderus ac yn medru addysgu'r Gymraeg fel mater brys neu fe fydd yr uchelgais yn methu." (Cyfieithiad) [Rhanddeiliad addysg]

Yn ychwanegol i ddatblygu sgiliau Cymraeg, bydd angen datblygu addysgeg addysgu iaith ehangach ymhlith y gweithlu addysgu.

Er y dylai'r Gymraeg fod yn rhan annatod o'r cwricwlwm, dylai'r ddarpariaeth ystyried gwahanol anghenion dysgwyr a'r gwahanol gyd-destunau ieithyddol. Nododd ymatebwyr y dylai'r ddarpariaeth a'r trefniadau asesu ac atebolrwydd adlewyrchu'r gwahaniaethau mewn lefelau iaith, cyd-destun ieithyddol ac anghenion dysgwyr unigol. Nododd rhai ymatebwyr hefyd na ddylai bod gofyn i blant sydd ag anghenion dysgu ychwanegol ddysgu'r Gymraeg os bydd hyn yn arwain at anawsterau pellach i'w dysgu.

"Mae angen rhoi ystyriaeth yn ystod arolygiadau i'r ysgolion hynny ar y ffin lle siaredir ychydig iawn o Gymraeg yn y cartref. Sut y gallwn ni gystadlu gydag ardaloedd lle mae'r Gymraeg yn cael ei siarad yn eang?" (Cyfieithiad) [Rhanddeiliad addysg]

Mynegwyd cyd-destun daearyddol (a chymdeithasol-ieithyddol) fel thema: nododd ymatebwyr y dylai'r cynigion ystyried y ffaith na chaiff plant mewn rhai rhannau o Gymru gyswllt â'r iaith Gymraeg yn yr un modd â'r rhai sy'n byw mewn ardaloedd lle y mae'r Gymraeg yn famiaith i gyfran fwy o'r boblogaeth. Awgrymwyd y gallai hyn arwain at rai disgyblion yn teimlo'n ddifreintiedig.

“Rwy’n credu bod gorfodi disgyblion Cymraeg ail iaith i sefyll arholiadau Cymraeg iaith gyntaf yn arwain at system arholi sy’n ddifrifol annheg. Bydd y canlyniadau anfwriadol yn cynnwys digalonni disgyblion Cymraeg ail iaith (gan y byddant yn gwybod na fyddant yn medru cystadlu gyda siaradwyr Cymraeg rhugl).” (Cyfieithiad)
[Unigolyn – ddim yn cynrychioli sefydliad]

Ymhlith yr ymatebwyr hynny yr oeddent yn anghytuno â'r dull gweithredu arfaethedig neu yr oeddent wedi mynegi gwrthwynebiad i agweddau penodol ar y cynigion mewn perthynas â'r Gymraeg, roedd y themâu a godwyd amlaf fel a ganlyn:

Dylai fod gan rieni yr hawl i ddewis astudio'r Gymraeg ac ni ddylid gorfodi'r cam o ddysgu Cymraeg ar ddisgyblion. Y ddadl a gyflwynir amlaf gan ymatebwyr unigol sy'n anghytuno â'r dull gweithredu arfaethedig yw y dylai'r Gymraeg fod yn ddewisol, a dylai fod gan rieni yr hawl i ddewis.

“Dydw i ddim yn cytuno y dylai Cymraeg fod yn orfodol os nad yw Saesneg. Mae dewis yn hollbwysig. Dylai plant a rhieni dewis... ac nid cael iaith wedi’i gorfodi arnynt, yn enwedig pan nad oes digon o arbenigwyr iaith Gymraeg yn y system. Dylid canolbwyntio ar sgiliau llythrennedd mewn iaith sy’n cael ei defnyddio ar gyfer busnes ledled y DU a’r byd.” (Cyfieithiad) [Unigolyn – ddim yn cynrychioli sefydliad]

Nododd ymatebwyr bod yr holl ddysgwyr eisoes yn cael y cyfle i ddysgu Cymraeg, ac roeddent yn rhybuddio y bydd gorfodi'r iaith Gymraeg fel rhan annatod o'r cwricwlwm yn arwain at ddrwgdeimlad ymhlith dysgwyr a rhieni.

Roedd nifer o ymatebwyr yn nodi eu bod yn cytuno y dylai disgyblion ddysgu Cymraeg nes byddant yn 14 oed, ond y dylent fod yn gallu penderfynu drostynt eu hunain wedi hynny a ydynt yn mynd i barhau i astudio'r Gymraeg.

"Dylai fod gan rhieni y dewis i anfon eu plant i ysgolion cyfrwng Cymraeg neu Saesneg. Dylai’r iaith Gymraeg fod yn opsiwn ar gyfer plant mewn ysgolion cyfrwng Saesneg, siŵr o fod o tua 14 oed.” (Cyfieithiad) [Unigolyn – ddim yn cynrychioli sefydliad]

Ni ddylid blaenoriaethu'r Gymraeg ar draul pynciau neu sgiliau eraill. Roedd rhai ymatebwyr a oedd yn anghytuno â'r dull gweithredu a gynigir yn teimlo y dylid rhoi blaenoriaeth i bynciau eraill, a chyfeiriwyd at Saesneg, mathemateg, gwyddoniaeth ac ITM dro ar ôl tro. Teimlwyd y byddai rhoi mwy o ffocws ar y pynciau hyn, yn hytrach na mynnu bod ysgolion yn darparu addysg Gymraeg ychwanegol, yn gwneud mwy i wella perfformiad economaidd Cymru, gan godi proffil y genedl yn y DU ac ar lefel ryngwladol.

Gallai'r cynnig gael effaith negyddol ar safonau ym myd addysg, yn enwedig ymhlith dysgwyr mwy difreintiedig a llai galluog. Gallai mynnu bod dysgu ac addysgu Cymraeg yn rhan annatod o'r cwricwlwm, ddargyfeirio sylw ac adnoddau o'r ymdrechion i gau'r blwch mewn cyrhaeddiad.

“Gan nad yw’r mwyafrif o blant dan anfantais mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg mae’n debygol cynyddu’r bwlch cyrhaeddiad.” (Cyfieithiad)
[Unigolyn – ddim yn cynrychioli sefydliad]

Roedd eraill, gan gynnwys unigolion a rhai cynrychiolwyr sefydliadol, wedi ffurfio'r cyswllt rhwng safonau a'r diffyg gallu o fewn y gweithlu i addysgu Cymraeg. Mynegwyd dau fater sy'n gysylltiedig â'r gweithlu: yn gyntaf, oherwydd niferoedd annigonol yr athrawon yn y sector cyfrwng Saesneg, bod perygl y bydd y Gymraeg yn cael ei haddysgu i safon isel, felly ni ddarperir y "cyfleoedd gorau i ddysgwyr ddod yn rhugl", fel y nodir yn y ddogfen ymgynghori.

"bydd cenhedlaeth o blant fydd yn cael eu haddysgu gan bobl sy'n dysgu yn y swydd, swydd lle does dim amser fel y mae." (Cyfieithiad)
[Unigolyn – ddim yn cynrychioli sefydliad]

Yn ail, gallai safonau addysg gael eu heffeithio mewn ffordd negyddol o ganlyniad i'r ffaith bod ysgolion yn rhoi blaenoriaeth i recriwtio athrawon sydd â sgiliau Cymraeg, yn hytrach na'u profiad neu eu sgiliau addysgu eraill.

"Os oes rhaid i'r Gymraeg gael ei darparu fel rhan o bynciau eraill mewn ysgol cyfrwng Saesneg a fydd hwn yn golygu y bydd athrawon yn cael eu diystyru os nad ydynt yn siarad Cymraeg?" (Cyfieithiad) [Unigolyn – ddim yn cynrychioli sefydliad]

Mynegwyd pryder gan ymatebwyr y bydd rhai athrawon yn gadael Cymru i addysgu yn Lloegr. Dadleuwyd bod y gronfa athrawon yng Nghymru eisoes yn fach. Roedd rhai ymatebwyr wedi damcaniaethu y gallai'r dull gweithredu arfaethedig annog rhai i geisio gwaith dros y ffin yn Lloegr, gan waethygu rhai o'r sialensiau sy'n wynebu'r gweithlu addysgu yng Nghymru.

Roedd pobl ifanc yr oeddent yn anghytuno â'r dull gweithredu arfaethedig yn cyfeirio at nifer o'r un rhesymau. Roedd rhai yn teimlo bod sicrhau bod y Gymraeg yn orfodol yn rhoi pobl ifanc nad ydynt yn siaradwyr Cymraeg neu nad ydynt yn mynychu ysgolion cyfrwng Cymraeg, dan anfantais.

"Rwy'n meddwl y bydd yn anodd iawn i bobl ifanc nad ydynt yn mynychu ysgol cyfrwng Cymraeg i gyrraedd graddau da o dan y system yma. Sut y gallant os ydynt yn cael eu marcio yn erbyn siaradwyr Cymraeg? Bydd hwn yn gwahaniaethu yn erbyn pobl ddi-Gymraeg. Os yw TGAU Cymraeg yn orfodol bydd hwn yn golygu nad ydynt yn medru cyrraedd eu potensial – e.e. ni fydd modd iddynt gyrraedd gradd A ym mhob pwnc." (Cyfieithiad) [Unigolyn – ddim yn cynrychioli sefydliad]

Trefniadau Asesu Dysgwyr

Cwestiwn 15

Beth yw eich barn am y cynigion deddfwriaethol er mwyn galluogi'r trefniadau asesu newydd?

Cafwyd cyfanswm o 325 o sylwadau yn ymateb i'r cwestiwn hwn.

Ymhlith yr ymatebwyr hynny a fynegodd safbwyntiau niwtral neu gadarnhaol, roedd y themâu a godwyd amlaf fel a ganlyn:

Bydd y cynigion yn cefnogi dull gweithredu sy'n canolbwyntio'n fwy ar y dysgwr tuag at asesu. Roedd rhanddeiliaid addysg allweddol yn tueddu i godi'r thema hon. Croesawir asesu mwy personoledig ac sy'n canolbwyntio ar y dysgwr, a rhoddir mwy o bwyslais asesu ffurfiannol ar gyfer dysgu; marcio diagnostig a ffocws ar ddatblygu cynnydd dysgwyr unigol. Gwelwyd cefnogaeth ar gyfer continwwm dysgu blaengar a chroesawyd camau cynnydd, a barnwyd eu bod yn cefnogi asesu personoledig sy'n canolbwyntio ar y dysgwr.

"Rydym yn croesawu datblygiad fframwaith asesu a gwerthuso sy'n cadw'r dysgwr yng nghanol y system, ac sy'n canolbwyntio ar ddatblygiad ar bob lefel i wella dysgu ac addysgu." (Cyfieithiad) [Sefydliad crefyddol]

Bydd y cynigion yn cynorthwyo mwy o hyblygrwydd i ymarferwyr a mwy o ymreolaeth i ysgolion gyda gwaith asesu. Roedd rhanddeiliaid addysg allweddol yn tueddu i godi'r thema hon. Barnwyd bod symud tuag at hyblygrwydd a mwy o ymreolaeth i athrawon mewn perthynas ag asesu yn welliant cadarnhaol, lle y bydd barn ymarferwr yn rhan werthfawr wrth gynorthwyo gweithgarwch i osod targedau ar gyfer cynnydd disgyblion. Roedd ymatebwyr yn croesawu cydbwysedd rhwng deddfwriaeth a chanllawiau statudol, ynghyd â chanllawiau mwy hyblyg er mwyn cynorthwyo ymarferwyr.

Mynegwyd cefnogaeth gan ymatebwyr i'r cam o leihau baich atebolrwydd. Roedd rhanddeiliaid addysg allweddol yn tueddu i godi'r thema hon. Mynegwyd cefnogaeth i benaethiaid yn pennu Deilliannau Cyflawniad yn erbyn pob Cam Cynnydd, gan symud i ffwrdd o'r arfer o gyfeirio at feini prawf a ddiffinnir yn allanol fel rhan o fframwaith atebolrwydd lle y mae cryn dipyn yn y fantol. Nododd ymatebwyr bwysigrwydd darparu fframwaith strwythurol clir a chanllawiau penodol i benaethiaid hefyd, er mwyn sicrhau cysondeb a thegwch yn y ddarpariaeth asesu ar draws ysgolion.

"Mae'r penderfyniad i leihau effaith a chanlyniadau anfwriadol y fframwaith atebolrwydd cyfredol yn hanfodol os yw'r cwricwlwm a threfniadau asesu newydd i gael eu gweithredu'n llwyddiannus." (Cyfieithiad) [Rhanddeiliad addysg]

Bydd angen rhoi sylw i'r cam o gynorthwyo gweithrediad y cynigion newydd. Nododd ymatebwyr y bydd angen darparu datblygiad proffesiynol i ymarferwyr, gan gynnwys cymorth, amser a hyfforddiant, er mwyn sicrhau bod athrawon yn glir ynghylch y gofynion asesu a'r cwricwlwm newydd, ac er mwyn gweithredu ac ymgorffori'r newidiadau i sicrhau eglurder a chysondeb o ran y dull gweithredu.

“Mae angen i Lywodraeth Cymru ddarganfod ffordd newydd i sicrhau bod ysgolion yn gymwys i weithredu’r cwricwlwm newydd ac hefyd sicrhau bod lefelau addas o gyngor, cefnogaeth ac hyfforddiant cyson ar gael yn genedlaethol ar gyfer ysgolion. Yr allwedd fydd cyflawni cydbwysedd priodol ar gyfer dysgwyr.” (Cyfieithiad) [Rhanddeiliad addysg]

Themâu ychwanegol a godwyd gan ymatebwyr a nododd eu bod yn sefydliadau.

Mynegwyd cefnogaeth gan ymatebwyr at gynigion deddfwriaethol er mwyn galluogi trefniadau asesu newydd. Roedd ymatebwyr yn nodi eu bod yn cymeradwyo strwythur arfaethedig y cwricwlwm (yn arbennig, symud tuag at asesu ffurfiannol ac asesu personoledig), a barnir bod y cynnwys a'r strwythur asesu arfaethedig yn berthnasol ac yn addas mewn perthynas â'r cwricwlwm newydd.

“Rydym yn cytuno’n gryf gyda’r cynigion deddfwriaethol ac yn credu mai gosod blaenoriaeth ar asesiad ffurfiannol yw’r dull gorau.” (Cyfieithiad)
[Ymarferydd addysg]

Ceir cydnabyddiaeth o'r angen i gydweithio gydag asiantaethau ac ymarferwyr eraill. Bydd angen cyfathrebu a rhannu gwybodaeth asesu rhwng amrediad o leoliadau a rhanddeiliaid, gan gynnwys clystyrau ysgolion, er mwyn cynorthwyo pontio a threfniadau asesu newydd, yn enwedig yn ystod y blynyddoedd cynnar a chyfnodau pontio uwchradd.

“Mae angen sicrhau bod unrhyw asesiadau an-statudol sy’n cymryd lle yn y sector nas cynhelir neu dosbarthiadau meithrin ysgolion yn cael eu gwerthfawrogi gan y rheini sy’n cwblhau asesiadau mewn dosbarthiadau derbyn. Mae pontio llwyddiannus rhwng lleoliadau nas cynhelir ac ysgolion yn hollbwysig ac mae partneriaethau, a pharch at ei gilydd yn allweddol i’r llwyddiant hwn.” (Cyfieithiad) [Ymarferydd addysg]

<u>Ymhlith yr ymatebwyr a atebodd 'nac ydw' neu a fynegodd bryderon penodol, roedd y themâu a godwyd amlaf fel a ganlyn:</u>

Mae angen mwy o eglurder ynghylch y gweithgarwch diwygio asesu arfaethedig a'r ddeddfwriaeth gysylltiedig. Roedd rhanddeiliaid addysg allweddol yn tueddu i godi'r thema hon. Nododd ymatebwyr yr hoffent gael gwybodaeth bellach am y dull gweithredu asesu arfaethedig er mwyn mynegi eu safbwyntiau am y cynigion deddfwriaethol. Mae gofyn cael eglurder cyffredinol am y trefniadau asesu arfaethedig, yn ogystal ag eglurder penodol ynghylch Deilliannau Cyflawniad a bennir gan yr ysgol er mwyn sicrhau bod egwyddorion asesu yn dryloyw. Yn ogystal, mae gofyn cael eglurder ynghylch strwythur a chynnwys camau cynnydd personoledig ar hyd continwwm, yn enwedig mewn perthynas ag e-bortffolios a'r continwwm asesu o'r gwaelodlin i TGAU.

“Dydw i ddim yn siŵr sut y mae Deilliannau Cyflawniad yn wahanol i lefelau a roddir i blant ar ddiwedd bob cyfnod allweddol. Sut y bydd ysgolion yn cael eu hasesu? Bydd E-bortffolios ar gael i’w defnyddio gan ysgolion ond heb ganllawiau statudol bydd ysgolion yn amrywio yn eu defnydd o’r rhain fel offeryn asesu.” (Cyfieithiad)
[Unigolyn – ddim yn cynrychioli sefydliad]

Mynegwyd pryder gan ymatebwyr ynghylch y ffaith y gallai'r cynigion deddfwriaethol am drefniadau asesu newydd arwain at ddiffyg cysondeb. Roedd rhanddeiliaid addysg allweddol yn tueddu i godi'r thema hon. Roedd pryderon y gallai'r ddeddfwriaeth arwain at anghysondebau mewn barnau asesu ar draws Cymru. Mae angen continwwm asesu cyson a chydraddoldeb o ran y dull gweithredu tuag at asesu er mwyn

cynnal cysondeb gyda chymwysterau mewn gwledydd eraill. Mynegodd ymatebwyr yr angen am ganllawiau i ymarferwyr er mwyn cynorthwyo'r cam o safoni a chymedroli portffolios dysgwyr. Mynegwyd pryderon bod y cynigion yn rhy fras, eu bod yn agored i gael eu dehongli ac y bydd ysgolion yn gweithio i wahanol lefelau o ran cynnydd dysgwyr efallai.

"Mae hwn yn faes sydd angen ystyriaeth bellach a'i benderfynu'n ganolog fel bod yna gysondeb, yn genedlaethol. Mae angen canllawiau llawer mwy penodol ar y defnydd o'r camau cynnydd a deilliannau." (Cyfieithiad) [Rhanddeiliad addysg]

Mae angen pennu prosesau atebolrwydd clir ar gyfer gweithdrefnau asesu, gan gynnwys gweithgarwch sicrhau ansawdd mewnol ac allanol. Roedd sylwadau yn cyfeirio at yr angen am eglurder o ran atebolrwydd o fewn cynigion asesu newydd, ac yn arbennig, ynghylch defnyddio a dehongli Deilliannau Cyflawniad a chamau cynnydd fel proses hunanwerthuso gan ysgolion unigol, a sut y caiff y rhain eu monitro ar gyfer pontio a chysondeb cenedlaethol. Mynegwyd ychydig bryder ynghylch y ffaith os bydd penaethiaid yn pennu deilliannau cyflawniad, y bydd hyn yn golygu llai o degwch i ddisgyblion. Yn ogystal, cydnabuwyd yr angen am asesu allanol ac ystyriaeth o rôl asiantaethau eraill megis Llywodraeth Cymru ac Estyn.

"Yn ôl pob tebyg, bydd gofyn i ysgolion asesu ac adrodd ar ddeilliannau disgyblion ar gyfer craffu mewnol ac allanol nes eu bod yn cyd-fynd â dyddiadau ar gyfer gweithredu'r cwricwlwm newydd. Bydd hyn yn golygu mwy o waith ar lefel ysgol er mwyn cwmpasu'r hyn a gwblhawyd yn y gorffennol gan Lywodraeth Cymru." (Cyfieithiad)
[Rhanddeiliad arall]

Bydd angen ystyried adnoddau, yn enwedig effaith llwyth gwaith ychwanegol. Mae'n hollbwysig sicrhau y gweithredir newidiadau asesu heb roi baich ychwanegol ar lwyth gwaith athrawon. Rhaid darparu canllawiau clir ar gyfer gweithdrefnau asesu newydd, gan gynnwys Camau Cynnydd, er mwyn symleiddio'r broses, cynorthwyo cysondeb ar draws ysgolion a lleihau gwaith papur gymaint ag y bo modd. Mae angen galluogi amser i weithredu cynigion newydd ac yn arbennig, cynnig arweiniad ynghylch sut y caiff e-bortffolios eu paratoi, eu gweithredu a'u monitro o ran llwyth gwaith.

"Cytuno gyda nhw mewn egwyddor, ond angen cadw mewn cof yr angen i sicrhau nad yw trefniadau asesu yn troi'n or-feichus i'r graddau lle mae'r gwaith papur yn rhwystr. Mae angen symleiddio asesiadau yn sylweddol." (Cyfieithiad)
[Unigolyn – ddim yn cynrychioli sefydliad]

Themâu ychwanegol a godwyd gan ymatebwyr a nododd eu bod yn sefydliadau.

Mynegwyd gwrthwynebiad cyffredinol i ddiwygio trefniadau asesu gan ymatebwyr ar brydiau. Barnir bod diwygio asesu yn ddianghenraid a/neu'n rhy feichus i'r sector addysg. Ystyrir bod y cynigion presennol yn debyg i'r rhai sydd mewn grym a bernir bod y gweithdrefnau asesu presennol yn ddigonol.

"Mae eisoes gan rai ysgolion asesiadau mewn lle ac felly os oes disgwyl iddynt ddatblygu asesiadau newydd yn seiliedig ar y Deilliannau Cyflawniad a ddisgrifir ar bob Cam Cynnydd o fewn system sydd yn barod yn newid yn barhaus fe ddaw'r dasg hon i fod yn feichus ac yn ddi-angen." (Cyfieithiad) [Ymarferydd addysg]

Mae angen egluro'r derminoleg a ddefnyddir i esbonio gweithdrefnau asesu newydd. Roedd rhanddeiliaid addysg allweddol yn tueddu i godi'r thema hon. Cafwyd rhai ceisiadau

i egluro rhywfaint o'r geiriad a ddefnyddir mewn perthynas â Deilliannau Cyflawniad, Camau Cynnydd, a therminoleg megis 'ffit orau'. Yn ogystal, mae angen esbonio'r graddau y rhoddir disgresiwn i benaethiaid nodi ystyr y termau hyn o fewn ysgolion unigol.

Trefniadau Gwerthuso

Cwestiwn 16

Ydych chi'n cytuno â'r dull gweithredu a amlinellir ar gyfer gwerthuso effeithiolrwydd y cwricwlwm a'r trefniadau asesu?

Ymateb	Canran (nifer)	Nifer a fynegodd sylwadau ychwanegol
Ydw	24.2% (191)	46
Nac ydw	33.7% (266)	48
Dim syniad	42.2% (333)	50
Dim ymateb i'r cwestiwn caeedig		23
Cyfanswm	790	167

Ymhlith yr ymatebwyr a atebodd 'ydw' neu a fynegodd safbwyntiau niwtral neu gadarnhaol, roedd y themâu a godwyd amlaf fel a ganlyn:

Mae'r trefniadau asesu arfaethedig yn cefnogi'r cam o symud tuag at hunanwerthuso gan ysgolion. Roedd rhanddeiliaid addysg allweddol yn tueddu i godi'r thema hon**.** Mynegwyd cefnogaeth gan ymatebwyr bod y model a nodwyd o gael fframwaith hunanasesu sy'n cael ei ddatblygu ar hyn o bryd, yn syniad da, ac y dylai ganiatáu cysondeb o ran y dull gweithredu mewn ysgolion. Nododd yr ymatebion hyn y bydd y newid i roi ffocws ar weithgarwch hunanwerthuso wedi'i ddilysu yn cynnig hyblygrwydd a rhyddid i ysgolion ac yn cynorthwyo gweithgarwch gwella ysgolion trwy ganolbwyntio ar y pedwar diben.

"rydym yn cytuno y bydd bob haen yn elwa o hunan-werthuso yn seiliedig ar ysgol eang o wybodaeth ansoddol a meintiol ac y bydd ymgysylltu â chymheiriaid yn creu rhagor o dryloywder yn y dyfodol." (Cyfieithiad) [Rhanddeiliad addysg]

Bydd y fframwaith asesu arfaethedig yn cynorthwyo dull gweithredu sy'n canolbwyntio ar y dysgwr wrth asesu. Roedd rhanddeiliaid addysg allweddol yn tueddu i godi'r thema hon. Mynegwyd cefnogaeth gan ymatebwyr tuag at ddull gweithredu asesu sy'n canolbwyntio ar y dysgwr, gan roi mwy o bwyslais ar ddatblygiad y plentyn a defnyddio asesu ffurfiannol er mwyn cynorthwyo disgyblion trwy gamau cynnydd. Croesawyd continwwm cynnydd o ran dysgu a barnwyd ei fod yn cynorthwyo asesu personoledig sy'n canolbwyntio ar y dysgwr.

"Rwy'n cytuno gyda'r datganiad: bydd y trefniadau hyn yn ffurfio Fframwaith Asesu a Gwerthuso sy'n cadw'r dysgwr yn greiddiol i system sy'n canolbwyntio ar ddatblygu ar bob lefel i wella addysgu a dysgu." (Cyfieithiad) [Sefydliad crefyddol]

Ceir cefnogaeth gyffredinol ar gyfer y cynnig y caiff ansawdd gweithgarwch hunanwerthuso ysgolion ei sicrhau trwy gyfrwng arolygiadau Estyn. Roedd ymatebwyr yn cytuno ar rôl Estyn i adrodd am ansawdd a safonau o bersbectif annibynnol, i sicrhau ansawdd prosesau gwella ar lefel ysgol ac i gynorthwyo eglurder o ran rolau a chyfrifoldebau ar draws partneriaethau yn yr haen ganol.

“Rydym yn cefnogi rôl gryf barhaus ar gyfer Estyn i adrodd ar ansawdd a safonau, darparu atebolrwydd allanol i ysgolion a myfyrio ar eu gweithrediad o’r cwricwlwm newydd (cyf: 3.151 a 3.152).” (Cyfieithiad) [Sefydliad trydydd sector]

Themâu ychwanegol a godwyd gan ymatebwyr a nododd eu bod yn sefydliadau.

Ceir rhywfaint o ymwybyddiaeth o'r ffaith bod rôl penaethiaid yn newid o fewn y trefniadau asesu arfaethedig. Mae angen darparu fframwaith a chanllawiau clir i benaethiaid er mwyn sicrhau cysondeb o ran y ddealltwriaeth o Ddeilliannau Cyflawniad ac e-bortffolios ar draws ysgolion, gan osgoi dull gweithredu 'ticio blychau' tuag at gamau cynnydd a gwerthusiadau.

“Mae’n hollbwysig bod prifathrawon ysgolion yn gyfrifol am hunan-werthuso eu hysgolion er mwyn gweithio tuag at system hunan wella.” (Cyfieithiad) [Ymarferydd addysg]

Ymhlith yr ymatebwyr a atebodd 'nac ydw' neu a fynegodd bryderon penodol, roedd y themâu a godwyd amlaf fel a ganlyn:

Mae angen mwy o fanylion am y dull gweithredu arfaethedig ar gyfer gwerthuso effeithiolrwydd trefniadau asesu a'r cwricwlwm. Roedd rhanddeiliaid addysg allweddol yn tueddu i godi'r thema hon. Nododd ymatebwyr nad ydynt yn gallu datgan a ydynt yn cytuno gyda'r dull asesu neu beidio gan bod gofyn cael manylion pellach am y ffordd y gweithredir camau cynnydd mewn ysgolion, cyflwyno e-bortffolios ac atebolrwydd ac effaith trefniadau asesu newydd.

“Mae camau cynnydd, tracio addas, pontio carfannau mawr iawn yn dal i fod yn aneglur ac mae gormod o risg i adael hyn oll i ganllawiau ysgolion. Mae dal diffyg eglurder ynglŷn â sut y bydd y cwricwlwm yn cyd-blethu gyda threfniadau asesu.” (Cyfieithiad) [Darparwr addysg]

Gwelwyd rhywfaint o wrthwynebiad cyffredinol i ddiwygio asesu a'r cwricwlwm a'r ddeddfwriaeth gysylltiedig. Roedd yr ymatebion hyn yn nodi eu gwrthwynebiad cyffredinol i'r cam o ddiwygio'r cwricwlwm yn gyffredinol. Yn arbennig, roeddent yn nodi bod diwygio yn ddianghenraid a bod gormod o bwyslais ar asesu ym myd addysg. Mynegwyd pryderon ynghylch y ffaith na fydd y ddeddfwriaeth o fudd i blant o reidrwydd, ac y bydd newidiadau asesu yn arwain at ddiffyg cydraddoldeb gyda chymwysterau mewn gwledydd eraill.

“Mae angen gofal i sicrhau nad yw plant Cymru yn cael eu rhoi dan anfantais trwy greu system newydd nad yw’n cael ei chydnabod gan weddill y wlad.” (Cyfieithiad) [Unigolyn – ddim yn cynrychioli sefydliad]

Mae angen egluro'r broses werthuso ac atebolrwydd sy'n cynnwys rhwydweithiau cymorth. Roedd rhanddeiliaid addysg allweddol yn tueddu i godi'r thema hon. Mae angen pennu strwythurau effeithiol er mwyn monitro gweithrediad y cwricwlwm a'r trefniadau asesu newydd. Mae hyn yn cynnwys egluro rôl – a'r gweithgarwch ymgysylltu rhwng – gwahanol haenau addysg (Llywodraeth Cymru, Estyn, consortia addysg rhanbarthol, awdurdodau lleol) fel rhan o broses werthuso hirdymor. Mae angen darparu amserlen er mwyn egluro proses hunanwerthuso ysgolion.

“Mae’n bwysig bod hunan-werthuso yn sail i’r trefniadau newydd a bod y trefniadau yn cael eu cytuno drwy system o sybsidiaredd. Mae’r fframwaith hunan-werthuso a gwella newydd sy’n cael ei ddatblygu gan Estyn, yr OECD a’r proffesiwn yn enghraifft da o hyn.” (Cyfieithiad) [Rhanddeiliad addysg]

Mae angen ystyried yr adnoddau yn ofalus, yn enwedig yr effaith ar amser a llwyth gwaith. Mae angen sicrhau y gweithredir newidiadau asesu heb roi baich ychwanegol ar lwyth gwaith athrawon. Yn ogystal, mae angen darparu canllawiau clir ynghylch gweithdrefnau asesu newydd, gan gynnwys camau cynnydd er mwyn symleiddio'r broses, cynorthwyo cysondeb ar draws ysgolion a lleihau'r gwaith papur gymaint ag y bo modd. Yn ogystal, mae angen galluogi amser i weithredu'r cynigion newydd ac yn arbennig, cynnig arweiniad ynghylch sut y caiff e-bortffolios eu paratoi a'u monitro o ran llwyth gwaith.

“Unwaith eto, bydd yn hanfodol cynnwys amser ac adnoddau o fewn y cynnig dysgu proffesiynol nid yn unig ar gyfer ysgolion ond hefyd ar gyfer Llywodraethwyr ac aelodau sefydliadau a gyfeirir atynt ar hyn o bryd fel yr ‘haen ganol’. (Cyfieithiad) [Sefydliad crefyddol]

Mae angen datblygu prosesau clir ac effeithiol er mwyn cynllunio a gweithredu newidiadau i'r cwricwlwm ac i drefniadau asesu. Cafwyd ymatebion a oedd yn mynegi pryder am gyfanswm y gweithgarwch ymgynghori a'r amser gweithredu er mwyn ystyried trefniadau asesu newydd.

Themâu ychwanegol a godwyd gan ymatebwyr a nododd eu bod yn sefydliadau.

Mynegodd ymatebwyr yr angen i gynnwys mewnbwn a darpariaeth y Blynyddoedd Cynnar yn y cynigion asesu fel rhan o'r continwwm dysgu ar gyfer datblygiad plant. Gofynnwyd am eglurder am rôl lleoliadau nas cynhelir mewn perthynas ag adborth am y cynigion ynghylch y cwricwlwm ac asesu a gwerthusiadau yn y dyfodol.

Cwestiwn 17

Beth yw eich barn ar y dull gweithredu arfaethedig o ran cyhoeddi data asesu dysgwyr ac a ydych yn rhagweld peryglon?

Cafwyd cyfanswm o 264 o sylwadau mewn perthynas â'r cwestiwn hwn.

Ymhlith yr ymatebwyr a fynegodd safbwyntiau niwtral neu gadarnhaol, roedd y themâu a godwyd amlaf fel a ganlyn:

Croesawir y cam o gyhoeddi data asesu dysgwyr fel offeryn er mwyn cynnal gwerthusiad allanol o effeithiolrwydd ysgol. Nododd ymatebwyr gefnogaeth gyffredinol ar gyfer y dull gweithredu arfaethedig o ran cyhoeddi data asesu dysgwyr safonol, yn enwedig yng Nghyfnod Allweddol 4. Mae'r cyhoeddi hwn yn galluogi ysgolion i ystyried eu perfformiad yng nghyd-destun ysgolion tebyg eraill o fewn yr awdurdod a'r consortia, ac mae'n darparu gwybodaeth i rieni ar lefel genedlaethol hefyd.

“Dylid sicrhau bod data asesu ar gael i’r cyhoedd yn is na’r lefel genedlaethol h.y. ar lefel consortia, awdurdodau lleol, ysgolion unigol, yn yr un modd ag y mae data TGAU ar gael.” (Cyfieithiad) [Ymarferydd addysg]

Cefnogaeth ar gyfer dull gweithredu sy'n canolbwyntio ar y dysgwr wrth asesu, yn hytrach na fframwaith asesu atebolrwydd lle y mae cryn dipyn yn y fantol. Roedd rhanddeiliaid addysg allweddol yn tueddu i godi'r thema hon. Nododd ymatebwyr bod y cynigion ynghylch cyhoeddi data dysgwyr yn sicrhau cydbwysedd rhwng tryloywder a defnydd er mwyn gwella'r deilliannau i ddysgwyr trwy ddefnyddio dull gweithredu sy'n canolbwyntio ar y dysgwr a chamau cynnydd. Mae gan hyn oblygiadau cadarnhaol er mwyn gwella addysgu a dysgu oherwydd y gall asesu gynorthwyo gweithrediad y cwricwlwm yn hytrach na chael ei ddefnyddio fel offeryn atebolrwydd.

"Mae'r dull arfaethedig newydd ar gyfer cyhoeddi data asesiadau dysgwyr yn gywir, yn enwedig wrth ystyried rhai o'r ymddygiadau lefel-ysgol sydd wedi'u hachosi gan y gyfundrefn atebolrwydd llym yn y gorffennol." (Cyfieithiad) [Rhanddeiliad addysg]

Sicrhau bod rhieni yn parhau i gael gwybod am gynnydd disgyblion trwy ddefnyddio data a gyhoeddir. Cydnabuwyd yr angen i hysbysu ac ymgynghori â rhieni am y newidiadau arfaethedig, gan barchu mewnbwn rhieni i gynigion asesu a chydnabod yr angen i barhau i sicrhau bod gwybodaeth am ddata safonol ar gael i rieni a gofalwyr.

"Mae ansawdd a thryloywder adroddiadau cynnydd i rieni yn allweddol ac rydym yn croesawu ymrwymiad y Llywodraeth o safbwynt y cyngor a chanllawiau a roddwyd i ysgolion yn y maes hwn." (Cyfieithiad) [Sefydliad crefyddol]

Themâu ychwanegol a godwyd gan ymatebwyr a nododd eu bod yn sefydliadau.

Mae ysgolion yn croesawu'r cam o gynnwys rhwydweithiau cymorth er mwyn gweithredu'r cynigion newydd. Roedd ymatebwyr yn croesawu parhad o ran y gefnogaeth gadarnhaol a sicrhawyd gan 'setiau data craidd teuluoedd ysgolion' a'r cydweithio ar ffurf clystyrau gyda gweithgarwch sicrhau ansawdd allanol er mwyn gweithredu gweithdrefnau asesu newydd.

"Wrth symud ymlaen, mae angen rhoi swyddogaeth i gonsortia rhanbarthol / gwasanaethau gwella ysgolion i gynorthwyo ysgolion i gynnal dulliau cydweithredol cadarnhaol a sefydlwyd dan yr hen system a'u hymgorffori er mwyn gwella'r system hunan-werthuso / gyrru gwelliannau i ysgolion." (Cyfieithiad) [Rhanddeiliad addysg]

<u>Ymhlith yr ymatebwyr a fynegodd bryderon penodol, roedd y themâu a godwyd amlaf fel a ganlyn:</u>

Mynegwyd pryder gan ymatebwyr ynghylch y cam o gyhoeddi gwybodaeth asesu dysgwyr. Roedd rhanddeiliaid addysg allweddol yn tueddu i godi'r thema hon. Yn arbennig, y bydd yn arwain at ddefnyddio data fel rhan o fframwaith atebolrwydd lle y mae cryn dipyn yn y fantol ac fel offeryn barnu er mwyn cymharu ysgolion. Ystyriwyd bod hwn yn ddull gweithredu crynodol sydd wedi dyddio, ac nad yw'n cyd-fynd ag ethos y cwricwlwm newydd.

"Dydw i ddim yn meddwl y dylid cyhoeddi data asesiadau dysgwyr. Yn gywir, cododd Dyfodol Llwyddiannus y mater o ddata crynodol yn cael ei ddefnyddio ar gyfer y rhesymau anghywir. Rwy'n cytuno y dylid defnyddio data asesiadau athrawon yn bennaf er mwyn 'cefnogi cynnydd ar lefel y disgybl unigol' yn hytrach na'i gam-ddefnyddio at bwrpasau atebolrwydd. Ni fyddai cyhoeddi data dysgwyr ar lefel yr unigolyn yn dderbyniol a byddai cyhoeddi data crynodol yn cyflwyno atebolrwydd nas bwriedir." (Cyfieithiad)

[Darparwr addysg]

Mae angen bod yn ofalus wrth rannu data oherwydd y cymhlethdodau sy'n ymwneud â dehongli a dibynadwyedd. Roedd rhanddeiliaid addysg allweddol yn tueddu i godi'r thema hon. Mynegodd ymatebwyr yr angen i fod yn ofalus wrth gyhoeddi data ynghylch perfformiad disgyblion oherwydd y sialensiau wrth ffurfio casgliadau gwrthrychol a'r cyswllt aneglur rhwng cywirdeb asesiadau dysgwyr ac atebolrwydd. Mae angen pennu a chadw at brosesau atebolrwydd clir, yn ogystal â strwythurau allanol effeithiol er mwyn monitro gweithgarwch asesu disgyblion a chefnogi gweithgarwch i ddehongli data.

"Fel cyn-athro rwy'n gwybod yn iawn y gall 'data' fod yn ddiffygiol, yn gamarweiniol neu'n anghyflawn. Wrth gyhoeddi [data] mae rhywun yn tystio i'w werth gwrthrychol. Os nad yw'n cwrdd y meini prawf hyn, ni ddylid ei gyhoeddi." (Cyfieithiad)
[Unigolyn – ddim yn cynrychioli sefydliad]

Mae angen sicrhau diogelwch ac ymwybyddiaeth o ddiogelu data wrth ddefnyddio systemau data ar-lein. Rhaid bod systemau TG yn cefnogi rheoliadau GDPR a chyhoeddi gwybodaeth bersonol disgyblion. Mynegwyd pryder ynghylch diogelwch storio e-Bortffolios o bell ac ystyriaethau ynghylch mynediad dibynadwy i ysgolion i systemau ar-lein.

"Bydd angen storio portffolios digidol sy'n arwain at ddata asesu yn ddiogel gan eu bod yn ddarostyngedig i'r un gwendidau ag unrhyw sefydliad arall sydd â phresenoldeb ar-lein." (Cyfieithiad) [Rhanddeiliad addysg]

Mae angen mwy o fanylion am y dull gweithredu arfaethedig tuag at gyhoeddi data asesu dysgwyr. Roedd rhanddeiliaid addysg allweddol yn tueddu i godi'r thema hon. Nododd ymatebwyr nad ydynt yn gallu datgan a ydynt yn cytuno gyda'r dull gweithredu i gyhoeddi data asesu dysgwyr neu beidio, heb iddynt gael gwybodaeth bellach am gynnwys awgrymedig a darpariaeth y prosesau asesu newydd.

"Nid oes yna ddigon o wybodaeth na dadl gefnogol er mwyn medru ateb y cwestiwn hwn gydag unrhyw hyder." (Cyfieithiad) [Darparwr addysg]

Cwestiynu'r gofyniad i gyhoeddi data asesu dysgwyr. Roedd ymatebion yn cwestiynu diben y cam o gyhoeddi data dysgwyr a sut y bydd yn hysbysu gwahanol haenau addysg (consortia addysg rhanbarthol, awdurdodau lleol, Llywodraeth Cymru). Gwnaethpwyd rhai awgrymiadau bod y data cyfredol a nodir yn systemau cofnodi ysgolion (gan gychwyn gyda mynediad disgybl i ysgol) yn ddigonol.

"Mae angen i ni ofyn pam fod data asesiadau dysgwyr yn cael ei gyhoeddi a bod yn glir ynghylch ei bwrpas. Sut y bydd yn hysbysu'r gefnogaeth angenrheidiol ar lefel y dysgwr, athro, ysgol, clwstwr, consortiwm ac yn genedlaethol." (Cyfieithiad) [Darparwr addysg]

Mynegwyd pryderon y gallai cyhoeddi data asesu dysgwyr bortreadu anghysondebau o ran y dull gweithredu. Roedd rhanddeiliaid addysg allweddol yn tueddu i godi'r thema hon.
Mae ymatebwyr yn mynegi gofyniad bod y trefniadau er mwyn cyhoeddi data yn dryloyw ac yn gyson ar draws Cymru. Mynegwyd pryderon y gallai cyhoeddi arwain at anghysondeb ar draws y system addysg, megis amrywiadau rhwng ysgolion neu wrth ddehongli camau cynnydd (gan gydnabod yr angen i samplu blaenoriaethau allweddol ar lefel genedlaethol). Mynegwyd pryderon hefyd y bydd newidiadau asesu yn arwain at ddiffyg cydraddoldeb gyda chymwysterau mewn gwledydd eraill.

“Oni bai bod canllawiau yn cael eu darparu gan Lywodraeth Cymru, fe allai fod amrywiaeth sylweddol yn y modd y mae data asesiadau yn cael ei gyflwyno gan greu dryswch ar gyfer rhieni ac amrywiadau eang ar draws y system.” (Cyfieithiad) [Sefydliad crefyddol]

Themâu ychwanegol a godwyd gan ymatebwyr a nododd eu bod yn sefydliadau.

Mae ymatebwyr yn cwestiynu a yw cyhoeddi data asesu dysgwyr yn cyd-fynd â'r weledigaeth ar gyfer y cwricwlwm newydd. Mae'r ymatebion hyn yn cwestiynu'r angen i gyhoeddi data asesu disgyblion yn dilyn y canfyddiadau a nodwyd yn Dyfodol Llwyddiannus y dylai asesu gynorthwyo cynnydd ar lefel disgyblion unigol. Cydnabuwyd yr angen i weithgarwch asesu ymwneud â chamau cynnydd unigol, yn hytrach na chael eu cyflawni at ddibenion atebolrwydd.

“Yn ymddangos yn groes i gynigion eraill o fewn Dyfodol Llwyddiannus ac i’r angen i sicrhau bod disgyblion yn parhau fel dysgwyr gydol oes sy’n gwneud cynnydd parhaus.” (Cyfieithiad) [Darparwr addysg]

Asesiadau Effaith

Cwestiwn 18

Ydych chi'n cytuno â'n dull gweithredu ar gyfer yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol? Ydych chi'n credu bod yna rhywbeth arall y dylem roi sylw iddo?

Ymateb	Canran (nifer)	Nifer a fynegodd sylwadau ychwanegol
Ydw	12.7% (93)	27
Nac ydw	34.7% (254)	30
Dim syniad	52.7% (386)	44
Dim ymateb i'r cwestiwn caeedig		14
Cyfanswm	733	115

Ymhlith yr ymatebwyr a atebodd 'ydw', 'nac ydw' neu 'dim syniad', roedd themâu penodol wedi codi'n aml ar draws yr holl ymatebion:

Mae angen ystyried yn ofalus y goblygiadau ariannol o gyflawni gweithgarwch diwygio o'r fath ar raddfa mor fawr, gan gynnwys gwerth ychwanegol gweithgarwch diwygio o'r fath. Roedd rhanddeiliaid addysg allweddol yn tueddu i godi'r thema hon. Nid yw'r AERh yn rhoi ystyriaeth ddigonol i'r adnoddau sylweddol (ariannol, creu adnoddau, capasiti staff a hyfforddiant) sy'n angenrheidiol er mwyn cynllunio a gweithredu'r cwricwlwm a'r trefniadau asesu newydd. Mae hwn yn fater arbennig o bwysig o ystyried y cyllidebau cyfyngedig sydd gan ysgolion yn barod.

"O ganlyniad i'r golled sylweddol i gyllid ysgolion a welwyd yn y blynyddoedd diwethaf, mae nawr llai o staff yn gweithio oriau hirach, a llai o arian ar gael i ysgolion i weithredu'r cynigion. Er bod yna arian ychwanegol wedi'i adnabod fel rhan o'r broses, rydym yn bryderus nad yw'n cyfateb i ddigon o fuddsoddiad i sicrhau bod ysgolion yn medru gweithredu'r cwricwlwm newydd yn llwyddiannus. Mae hwn yn cynrychioli risg wirioneddol sydd angen mynd i'r afael â hi." (Cyfieithiad) {Rhanddeiliad addysg)

Mae angen ystyried yn ofalus yr effaith ar lwyth gwaith gweithwyr addysg proffesiynol, a'u lles cysylltiedig. Roedd rhanddeiliaid addysg allweddol yn tueddu i godi'r thema hon. Law yn llaw â'r effaith ar adnoddau yn y sector addysg, ni roddwyd ystyriaeth ddigonol i effaith y trefniadau newydd ar lwyth gwaith a lles gweithwyr addysg proffesiynol. Bydd y broses o gynllunio a darparu'r cwricwlwm a'r trefniadau asesu newydd yn rhoi baich sylweddol ar athrawon.

"Mae Asesiad Effaith Rheoleiddiol ar gyfer polisi lefel-ysgol angen cymryd i ystyriaeth y traweffaith ar adnoddau ariannol (cyllidebau ysgolion), iechyd meddwl a lles staff (yn ogystal â disgyblion), goblygiadau baich gwaith a'r amserlen gweithredu o fewn cyd-destun diwygiadau cyfredol." (Cyfieithiad) [Rhanddeiliad addysg]

Mae angen rhoi ystyriaeth ychwanegol i'r effaith ar grwpiau neu sectorau penodol. Ni roddwyd ystyriaeth ddigonol i grwpiau a sectorau penodol o fewn dull gweithredu AERh. Mae'r grwpiau hyn yn cynnwys plant o deuluoedd ar incwm isel; sefydliadau addysg bellach

ac uwch; y sector nas cynhelir a'r blynyddoedd cynnar; plant sy'n cael gofal gan rieni maeth neu fam-guod/neiniau a thad-cuod/teidiau; pobl ifanc sydd â nodweddion gwarchodedig a'u gofalwyr; plant o deuluoedd di-Gymraeg; ac awdurdodau esgobaethol.

Mae angen rhoi ystyriaeth ychwanegol i effaith themâu addysg neu feysydd cwricwlwm penodol. Mae angen rhoi mwy o ystyriaeth i effaith y gweithgarwch diwygio ar ddiogelwch digidol, ar y ddarpariaeth graidd ac ar ddarpariaeth ieithoedd tramor modern.

Mynegir cefnogaeth i'r dull gweithredu arfaethedig. Roedd rhanddeiliaid addysg allweddol yn tueddu i godi'r thema hon. Roedd y gefnogaeth hon yn nodi cefnogaeth gyffredinol (heb gynnig esboniad pellach) neu'n nodi bod y broses o ddylunio'r dull gweithredu yn ymddangos yn gynhwysfawr a/neu y bydd yn asesu effaith y gweithgarwch diwygio ar ysgolion a dysgwyr mewn ffordd ddigonol.

“Mae’n ystyried safbwyntiau sawl asiantaeth allanol sydd yn cwmpasu ehangder ein cymunedau.” [Unigolyn – ddim yn cynrychioli sefydliad]

Dylid rhoi ystyriaeth bellach i oblygiadau ymarferol y diwygiadau. Mynegwyd pryder gan ymatebwyr am yr amserlenni tynn er mwyn gweithredu'r newid i'r cwricwlwm, a'r ffordd y gweithredir prif egwyddorion y cwricwlwm newydd mewn gwirionedd.

Themâu ychwanegol a godwyd gan ymatebwyr a nododd eu bod yn sefydliadau.

Wrth i ddull gweithredu AERh ddatblygu, byddai modd gwneud defnydd gwell o'r dystiolaeth sy'n bodoli eisoes er mwyn cyfrannu at weithgarwch manylach i asesu'r effaith. Mae angen cynnal asesiad effaith mwy cynhwysfawr, gan ddefnyddio ystod dda o dystiolaeth ac arbenigedd annibynnol, er mwyn asesu'r effaith ar sectorau a grwpiau penodol.

“Wrth i’r AERh ddatblygu, dylai’r dadansoddiad wneud defnydd cryf o’r dystiolaeth sydd ar gael (gan gynnwys canlyniadau’r ymgynghoriad) er mwyn darparu dealltwriaeth fwy manwl o’r buddion a risgiau ar gyfer bob un o’r opsiynau. Bydd hwn yn helpu i asesu’r traweffeithiau cadarnhaol/negyddol posibl ac yn helpu Llywodraeth Cymru i gyfiawnhau ymhellach ei opsiynau dewisol. Er enghraifft, gallai’r AERh fod wedi adnabod rhai risgiau sy’n gysylltiedig â’r cynnig i wneud Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb yn rhan statudol o’r cwricwlwm.” (Cyfieithiad)
[Rhanddeiliad addysg]

Mae sefydliadau yn darparu manylion helaeth am y grwpiau neu'r sectorau penodol nad ydynt wedi cael eu hystyried yn llawn o fewn dull gweithredu AERh. Mae hyn yn cynnwys y ffordd y bydd y Pedwar Diben a'r newidiadau eraill i'r cwricwlwm (megis diwygiadau AG ac ACRh) yn cael effaith ar hawliau plant a'r effaith benodol ar blant o gefndiroedd incwm isel ac ar fylchau rhwng y ddau ryw.

“Mae’r Asesiad Effaith Hawliau Plant yn gyfle wedi’i golli ac yn awgrymu nad yw’r Llywodraeth yn deall yn llawn y berthynas rhwng y cynigion a hawliau plant a phobl ifanc.” (Cyfieithiad) [Rhanddeiliad arall]

Ymhlith yr ymatebwyr a atebodd 'nac ydw' neu 'dim syniad', roedd themâu penodol wedi codi'n aml mewn ymatebion:

Mae angen mwy o fanylion am y dull gweithredu arfaethedig. Adroddodd ymatebwyr eu bod yn teimlo na allant fynegi barn heb gael manylion pellach am y dull gweithredu arfaethedig ar gyfer yr AERh a/neu fanylion pellach am y broses ddiwygio ei hun.

Mynegwyd sylwadau hefyd a oedd yn nodi nad oeddent yn gallu mynegi barn am y mater hwn neu a oedd yn ategu pwyntiau a wnaethpwyd yn gynharach yn eu cyflwyniadau ynghylch yr hawl i dynnu dysgwyr allan o ACRh.

Beirniadwyd y cwestiwn a'r derminoleg a ddefnyddir. Cafwyd ymatebion yn nodi nad ydynt yn deall y cwestiwn, yn aml oherwydd y defnyddir acronym anghyfarwydd (AERh).

Roedd rhai Ymatebwyr wedi gwneud sylwadau negyddol nad oeddent yn ymwneud â'r cwestiwn yn uniongyrchol. Roedd hyn yn cynnwys gwrthwynebiad cyffredinol i'r cam o ddiwygio'r cwricwlwm (gan nodi na fydd ei ddiwygio yn rhoi sylw i'r gwendidau mwyaf arwyddocaol yn y system addysg) a sylwadau y dylid cadw'r hawl i dynnu dysgwyr allan o elfennau o'r cwricwlwm.

Cwestiwn 19

Ydych chi'n cytuno â'n dull gweithredu ar gyfer yr Asesiadau Effaith? Byddem yn falch o glywed eich safbwynt, yn benodol, ar yr effeithiau tebygol ar grwpiau â nodweddion gwarchodedig.

Ymateb	Canran (nifer)	Nifer a fynegodd sylwadau ychwanegol
Ydw	20.3% (143)	33
Nac ydw	29.5% (208)	28
Dim syniad	50.3% (355)	32
Dim ymateb i'r cwestiwn caeedig		18
Cyfanswm	706	111

Ymhlith yr ymatebwyr a atebodd 'ydw' neu a fynegodd safbwyntiau cadarnhaol neu sylwadau pellach, roedd y themâu a godwyd amlaf fel a ganlyn:

Cafwyd ymatebion yr oeddent yn rhai cadarnhaol ar y cyfan, yn nodi bod asesiadau effaith yn gynhwysfawr ac y dylent gynorthwyo cydraddoldeb ac amrywiaeth mewn ffordd ddigonol. Roedd rhanddeiliaid addysg allweddol yn tueddu i godi'r thema hon. Roedd ymatebion yn nodi bod y dull gweithredu wedi ystyried ystod eang o themâu a grwpiau y gallent gael eu heffeithio gan y gweithgarwch diwygio a'i fod wedi gwneud hynny mewn ffordd eithaf gynhwysfawr. Roeddent yn nodi y dylai'r dull gweithredu gynnig sylfaen dda er mwyn asesu effaith gyffredinol y cwricwlwm newydd a'r dull asesu.

"Mae nifer o ddatblygiadau arwyddocaol yng nghyswllt y papur gwyn a all fod yn fanteisiol o ran "normaleiddio" a chynnig gweledigaeth o Gymru luosog, flaengar ac amrywiol ei naws (fyddai'n amlwg yn gadarnhaol o ran effaith ar unigolion neu grwpiau a nodweddion gwarchodedig)." [Rhanddeiliad blynyddoedd cynnar]

Ar brydiau, nododd ymatebwyr y byddai modd cryfhau'r asesiadau effaith trwy roi sylw i fylchau penodol yn eu cynnwys. Roedd rhanddeiliaid addysg allweddol yn

tueddu i godi'r thema hon. Er bod yr ymatebwyr hyn yn cytuno â'r dull gweithredu a fabwysiadwyd ar y cyfan, tynnir sylw hefyd at fylchau y dylid rhoi sylw iddynt er mwyn cryfhau'r dull gweithredu. Roedd y rhain yn cynnwys mwy o ffocws ar amgylcheddau cymdeithasol grwpiau sydd â nodweddion gwarchodedig, effaith y cynigion ynghylch yr iaith Gymraeg (ac effaith cynigion ar yr iaith Gymraeg) a darparu tystiolaeth fanwl bellach er mwyn cefnogi'r dull gweithredu.

Themâu ychwanegol a godwyd gan ymatebwyr a nododd eu bod yn sefydliadau

Bu sefydliadau yn trafod yn fanwl yr angen i ystyried y ffordd y mae'r diwygiadau'n cael effaith ar hawliau plant ac yn eu cefnogi. Roedd rhanddeiliaid addysg allweddol yn tueddu i godi'r thema hon. Roeddent yn nodi y dylai'r asesiad effaith roi ystyriaeth ofalus i'r ffordd y mae'r diwygiadau i'r cwricwlwm ac i'r gweithgarwch asesu yn cyfrannu at erthyglau Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP). Mae hyn yn cynnwys asesu'r graddau y mae'r Pedwar Diben yn gwireddu darpariaethau CCUHP. Felly, roeddent yn nodi bod yn rhaid cryfhau'r Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant.

"Yn nhermau asesu effaith, mae'n glir y bydd y newid polisi yn cyfrannu'n gadarnhaol tuag at Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP), yn enwedig Erthyglau 28 a 29. Fodd bynnag, byddai dadansoddiad mwy grymus o bob un o'r cynigion a'r gwahanol opsiynau polisi perthnasol wedi helpu Llywodraeth Cymru i fynegi'n gryfach sut y mae diwygio'r cwricwlwm yn cefnogi hawliau plant yng Nghymru nag sydd wedi'i ddisgrifio ar hyn o bryd." (Cyfieithiad) [Rhanddeiliad addysg]

Bu sefydliadau yn trafod yn fanwl yr angen i roi mwy o ystyriaeth i'r effaith ar y grwpiau y maent yn eu cynrychioli. Er enghraifft, yr angen i roi ystyriaeth ddigonol i'r effaith ar y sector nas cynhelir a'r blynyddoedd cynnar, cyrff crefyddol a dysgwyr duon ac o leiafrifoedd ethnig, yn ogystal â chynnwys eu priod sectorau yn yr asesiad effaith (megis sefydliadau trydydd sector).

Ar y cyfan, roedd sefydliadau'n teimlo'n gadarnhaol am y ffordd y mae'r dull gweithredu yn cefnogi polisïau ehangach yng Nghymru. Roedd hyn yn cynnwys cefnogi'r ffordd y mae'r asesiad effaith yn adlewyrchu Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru).

<u>Ymhlith yr ymatebwyr a atebodd 'nac ydw' neu a fynegodd bryderon penodol, roedd y themâu a godwyd amlaf fel a ganlyn:</u>

Roedd ymatebwyr wedi tynnu sylw at fylchau penodol yng nghynnwys yr asesiad effaith. Roedd yr ymatebion hyn wedi adrodd nas rhoddwyd ystyriaeth ddigonol i grwpiau neu sectorau penodol yn y dull gweithredu ar gyfer yr asesiad effaith. Nododd ymatebwyr bod yn rhaid rhoi ystyriaeth gryfach i: Ddysgwyr o gefndiroedd difreintiedig; grwpiau LGBT; teuluoedd ffydd; dysgwyr sydd ag anghenion dysgu ychwanegol; dysgwyr y mae Saesneg yn iaith ychwanegol iddynt; dysgwyr duon ac o leiafrifoedd ethnig; y rhai nad ydynt yn siarad Cymraeg; grwpiau a chyrff crefyddol; grwpiau anabl; a'r holl grwpiau sydd â nodweddion gwarchodedig.

"Mae angen clir i gwblhau asesiad effaith ar blant o gefndiroedd difreintiedig – nid yw'r grŵp hwn yn draddodiadol wedi elwa o'r trefniadau rydym yn eu disodli, ac mae'r newid wedi'i ysbrydoli yn rhannol gan benderfyniad i wneud yn well ar gyfer ein dysgwyr dan anfantais." (Cyfieithiad) [Unigolyn – ddim yn cynrychioli sefydliad]

Roedd ymatebwyr wedi beirniadu eglurder y cwestiwn neu wedi nodi eu diffyg dealltwriaeth. Nododd ymatebwyr nad oeddent yn deall y cwestiwn neu nad oedd ganddynt wybodaeth ddigonol i ymateb (gan gynnwys oherwydd nad ydynt wedi gallu darllen neu ddeall yr adran gysylltiedig o'r ddogfen ymgynghori).

Ar brydiau, roedd ymatebwyr wedi beirniadu egwyddorion penodol y seilir asesiadau effaith cydraddoldeb arnynt. Roedd yr ymatebion hyn yn cwestiynu priodoldeb asesiad effaith sy'n canolbwyntio ar grwpiau lleiafrifol penodol yn unig, ac roeddent yn cwestiynu'r angen cyffredinol i ddiwygio'r cwricwlwm mewn unrhyw ffordd a'r asesiad effaith cysylltiedig.

Cwestiynau ychwanegol

Cwestiwn 20

Hoffem wybod eich barn ar yr effeithiau y byddai'r cynigion yn eu cael ar yr iaith Gymraeg, yn benodol ar:

i) Gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg
ii) Peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Beth fyddai'r effeithiau yn eich barn chi? Sut mae cynyddu effeithiau cadarnhaol neu liniaru effeithiau negyddol?

****

Cwestiwn 21

Eglurwch hefyd sut gellid ffurfio neu newid y polisi arfaethedig:

i) Fel bod effeithiau cadarnhaol neu fwy o effeithiau cadarnhaol ar gyfleoedd pobl i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg
ii) **Fel nad oes effeithiau andwyol ar gyfleoedd pobl i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.**

Cafwyd cyfanswm o 274 o sylwadau mewn perthynas â chwestiwn 20 a 179 mewn perthynas â chwestiwn 21.

Mae'n werth nodi na chyfeiriodd nifer o ymatebion (yn enwedig y rhai a oedd yn ymateb i gwestiwn 20) at effeithiau ar yr iaith Gymraeg. Roeddent yn mynegi safbwyntiau am addysg cyfrwng Cymraeg yn fwy cyffredinol ac am egwyddor 'peidio trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg'. Dylid nodi hefyd bod nifer o'r themâu hyn yn adleisio materion a godwyd wrth ymateb i gwestiwn 14 (Y Gymraeg a Saesneg).

Ymhlith yr ymatebwyr a oedd yn gefnogol o'r cynigion, roedd y themâu a godwyd amlaf fel a ganlyn:

Bydd y cynigion yn ymestyn cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r iaith Gymraeg. Trwy sicrhau bod y Gymraeg yn elfen orfodol o'r cwricwlwm newydd i Gymru ar gyfer yr holl ddysgwyr 3-16 oed mewn ysgolion gorfodol, bydd y cynigion yn cynyddu'r cyswllt â'r iaith ac, os caiff ei haddysgu yn effeithiol, bydd yn codi safonau a sgiliau. Awgrymwyd hefyd y bydd y cynigion yn arwain at ddulliau newydd 'creadigol' o ddefnyddio'r Gymraeg fel cyfrwng cyfarwyddo mewn lleoliadau cyfrwng Saesneg.

"Mae'n rhoi ffocws newydd ar ddysgu Cymraeg yn bennaf fel cyfrwng cyfathrebu, yn arbennig cyfathrebu ar lafar a deall." (Cyfieithiad) [Sefydliad trydydd sector]

Gallai'r cynigion feithrin agweddau mwy cadarnhaol tuag at yr iaith Gymraeg. O'u gweithredu yn llwyddiannus, awgrymodd ymatebwyr y gallai'r cynigion helpu i normaleiddio'r defnydd o'r Gymraeg ar draws y system addysg. Er mwyn cefnogi defnydd ehangach o'r iaith yn fwy cyffredinol, cydnabuwyd y dylai'r trefniadau ar gyfer y cwricwlwm newydd gael eu cynorthwyo gan strategaethau ehangach er mwyn annog a chynnig cymhelliant i bobl ifanc barhau i ddefnyddio'r iaith ar ôl iddynt adael addysg orfodol.

Bydd y cynigion yn helpu i gynorthwyo mwy o gydraddoldeb rhwng y Gymraeg a Saesneg. Bydd y cynnig yn helpu i hyrwyddo statws y Gymraeg ar draws yr holl gymunedau yng Nghymru (fodd bynnag, dylid cydnabod nad oedd yr holl ymatebwyr yn gefnogol o'r cynnig, gweler isod).

Roedd ymatebwyr a oedd yn gefnogol o'r cynigion wedi lleisio pryder cyffredinol ynghylch y 'ddyletswydd ar bob ysgol a lleoliad meithrin a ariannir i addysgu Saesneg fel elfen orfodol o'r cwricwlwm newydd'. Nododd ymatebwyr y byddai'r cynnig a nodwyd yn wreiddiol yn y ddogfen ymgynghori yn tanseilio'r model trochi er mwyn addysgu'r Gymraeg mewn nifer o leoliadau cyfrwng Cymraeg.

<u>Ymhlith yr ymatebwyr a fynegodd wrthwynebiad neu bryder ynghylch effeithiau'r cynigion, roedd y themâu a godwyd amlaf fel a ganlyn:</u>

Dylai rhieni gael yr hawl i ddewis astudio'r Gymraeg ac ni ddylid gorfodi disgyblion i ddysgu Cymraeg. Nododd ymatebwyr y dylai dysgwyr a rhieni fod yn gallu dewis a ydynt yn dymuno dysgu trwy gyfrwng y Gymraeg neu beidio. Awgrymwyd y bydd rhieni nad ydynt yn siarad Cymraeg yn cael anhawster wrth gynorthwyo'u plant. Dylai'r Gymraeg, fel ITM, fod yn bwnc dewisol. Bydd gorfodi'r iaith yn arwain at chwerwder ac fe allai gael effaith negyddol ar agweddau tuag at yr iaith.

"Sicrhau nad yw'r cwricwlwm yn anghymesur, ei fod yn ein galluogi ni i gael ein hysbrydoli, dilyn diddordebau dysgwyr a datblygu dinasyddion y byd yn ogystal â Chymru. Mae'r elfen orfodol yn ymddangos i fod yn groes i'r egwyddor sylfaenol hon." (Cyfieithiad)
[Darparwr addysg]

Nododd ymatebwyr y bydd gorfodi disgyblion i ddysgu Cymraeg yn arwain at chwerwder, ac o ganlyniad, bydd hyn yn cael effeithiau negyddol ar dybiaeth y cyhoedd o'r iaith a'u defnydd ohoni. Roedd cyfran o'r rhai a ymatebodd i'r cwestiwn hwn o'r farn na fyddai'r cynigion yn cael yr effaith a ddymunir, ond yn hytrach, y byddent yn peri i bobl beidio defnyddio'r iaith.

Cyfeiriodd rhai ymatebion at ffyrdd o leddfu effeithiau negyddol: roedd hyn yn cynnwys camau i hyrwyddo dysgu'r iaith mewn ffyrdd hwyliog ac sy'n ymgysylltu, er mwyn argyhoeddi dysgwyr a rhieni. Gallai hyn gynnwys trefnu bod arbenigwyr iaith yn ymweld ag ysgolion neu glystyrau cyfrwng Saesneg er mwyn helpu disgyblion i "ymgysylltu â'r iaith" mewn ffordd sy'n arwain at werthfawrogiad o'i phwysigrwydd a'i perthnasedd.

Caiff yr iaith Gymraeg driniaeth ffafriol yn barod, a gallai'r cynigion roi siaradwyr Saesneg dan anfantais. Nododd ymatebwyr bod y Gymraeg eisoes yn orfodol i ddysgwyr mewn addysg gynradd ac uwchradd. Caiff ei hyrwyddo trwy gyfrwng gwasanaethau cyhoeddus ac ym myd busnes hefyd. O ganlyniad, roedd rhai yn teimlo'i bod yn cael triniaeth ffafriol a bod digon o adnoddau yn cael eu neilltuo i gefnogi'r iaith. Ynghlwm â'r pwynt uchod, roedd rhai ymatebion yn dynodi tybiaeth bod y cwricwlwm newydd yn gwahaniaethu yn erbyn hawliau plant i ddysgu mewn iaith o'u dewis. Roedd rhai ymatebwyr yn teimlo bod y cynigion yn peri rhwyg oherwydd y gallent beri i bobl nad ydynt yn siarad Cymraeg i deimlo dan anfantais.

Roedd pryder ynghylch y ffaith nad oes niferoedd digonol o athrawon sy'n gallu addysgu Cymraeg. Awgrymwyd nad oes digon o athrawon arbenigol sy'n meddu ar sgiliau Cymraeg i fod yn gallu cynyddu swm y Gymraeg a ddysgir yn y sector cyfrwng Saesneg. Er mwyn cyflawni'r cynlluniau, bydd angen sicrhau bod rhaglen datblygiad proffesiynol ar raddfa fawr ar gael i athrawon sydd wedi cael eu haddysg trwy gyfrwng y Saesneg. Nododd eraill yr angen i sicrhau bod unrhyw hyfforddiant i ddatblygu sgiliau Cymraeg ymarferwyr yn cael ei gynnig i athrawon cyflenwi.

"Mae angen rhagor o wybodaeth ar sut y bydd rhaglenni hyfforddi athrawon a threfniadau uwch-sgilio staff presennol yn paratoi ar gyfer y newid hwn, nid yn unig mewn perthynas â mwy o ddefnydd o'r Gymraeg ond yn gyffredinol. Mae hefyd yn effeithio arweinyddion hŷn a phenaethiaid a fydd nawr angen rheoli cymhlethdodau newydd a pharhaus mewn trefniadau staffio." (Cyfieithiad) [Unigolyn – ddim yn cynrychioli sefydliad]

Gan adleisio sylwadau a wnaethpwyd wrth ymateb i Gwestiwn 14, nododd ymatebwyr y bydd y proffesiwn addysgu, sydd eisoes yn wynebu sialensiau o ran recriwtio a chadw, yn cael ei effeithio ymhellach.

"Mae'r proffesiwn yn wynebu argyfwng recriwtio: caiff hwn effaith negyddol wrth ddenu staff nad ydynt yn siarad Cymraeg." (Cyfieithiad) [Unigolyn – ddim yn cynrychioli sefydliad]

Gallai symud i un continwwm dysgu iaith rwystro dysgwyr mewn ysgolion cyfrwng Saesneg. Awgrymwyd y gallai gwaredu astudio a chymwysterau Cymraeg ail iaith gael effaith negyddol ar y cynnydd wrth ddysgu ac addysgu Cymraeg oherwydd y bydd dysgwyr yn y sector cyfrwng Saesneg yn teimlo'u bod yn llai cymwys na'u cyfoedion mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg.

"Mae agwedd cadarnhaol ac ymdeimlad o lwyddiant yn hanfodol ar gyfer ymgysylltiad dysgwyr. Os yw cynnydd myfyrwyr cyfrwng Saesneg yn y Gymraeg yn is na'u cynnydd a chyrhaeddiad mewn pynciau eraill, ni fyddant yn ymgysylltu â'r dysgu nac yn parhau i ddysgu y tu hwnt i ddiwedd addysg orfodol." (Cyfieithiad)
[Darparwr addysg]

Ni ddylid rhoi blaenoriaeth i addysgu Cymraeg fel rhan o drefniadau'r cwricwlwm newydd. Awgrymodd ymatebwyr y dylid rhoi mwy o flaenoriaeth i bynciau eraill.

Bydd y cynigion yn cael effaith negyddol ar safonau addysg. Mynegwyd pryderon gan ymatebwyr y gallai hyrwyddo addysg cyfrwng Cymraeg mewn rhai cyrsiau (iaith a

llenyddiaeth Saesneg, gwyddoniaeth, pynciau galwedigaethol) gael effaith negyddol ar safonau yn y meysydd hyn, trwy leihau'r amser y gall dysgwyr ei neilltuo i'r pynciau hyn.

Cwestiynodd ymatebwyr pa mor effeithiol y byddai'r cynigion wrth helpu dysgwyr i symud tuag at fod yn rhugl a chynyddu defnydd o'r iaith. Awgrymwyd y gallai'r trefniant cwricwlwm arfaethedig arwain at gynnydd bach iawn mewn cyfleoedd i ddefnyddio'r iaith (ar sail gwybodaeth am eirfa arbenigol sy'n gysylltiedig â phwnc), ond na fydd hyn yn creu siaradwyr Cymraeg rhugl efallai, yn unol â gweledigaeth Llywodraeth Cymru. Roedd rhai ymatebwyr yn teimlo y dylai'r cynigion fynd ymhellach er mwyn helpu i gyflawni'r targed o sicrhau miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.

"Os ydym o ddifri am gynyddu y nifer o siaradwyr Cymraeg yna mae angen i ni symud tuag at sefydlu ysgolion cyfrwng-Cymraeg fel yr unig ddarpariaeth ar gyfer addysg y wladwriaeth er y bydd yn rhaid i hon fod yn broses raddol." (Cyfieithiad)
[Unigolyn – ddim yn cynrychioli sefydliad]

Cwestiwn 22

Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych chi faterion perthnasol nad ydym wedi rhoi sylw penodol iddynt, defnyddiwch y blwch isod i roi gwybod i ni amdanynt.

Cafwyd 202 o sylwadau mewn perthynas â'r cwestiwn hwn.

Ail-bwysleisiwyd themâu allweddol penodol a godwyd yng nghwestiynau 1-21 yr ymgynghoriad yn fanylach.

Ailadroddodd ymatebwyr eu bod yn anghytuno â'r cynnig i wneud ACRh addas i'r oedran ac i lefel y datblygiad yn orfodol i ddysgwyr 3-16 oed. Nid yw hi'n briodol ar lefel ddatblygiadol bod plant cynradd yn cael eu cyflwyno i berthnasoedd a rhywioldeb.

Yn ogystal, ailadroddodd ymatebwyr y ffaith eu bod yn anghytuno â'r cynigion ynghylch AG. Roedd hyn yn cynnwys ymatebion a oedd yn nodi nas ystyriwyd eu credoau crefyddol ac y dylid rhoi ffocws clir ar Gristnogaeth o fewn AG.

Cafwyd ymatebion hefyd a oedd yn mynegi cefnogaeth i'r prif egwyddorion sy'n sail i'r cwricwlwm a'r trefniadau asesu newydd. Roedd yr ymatebwyr hyn yn gefnogol o ddull gweithredu sy'n canolbwyntio ar y dysgwr tuag at addysgu a dysgu yn gyffredinol, a'i fod yn rhoi mwy o ryddid i athrawon ailddysgu mewn ffordd greadigol a thrawsgwricwlaidd.

"Rwyf wedi gweld sut mae'r cwricwlwm wedi dod yn llai cytbwys, yn fwy cul ac wedi rhoi myfyrwyr o dan fwy o bwysedd nag erioed. Mae symud y pwyslais i ffwrdd o ddangosyddion perfformiad sy'n categoreiddio ysgolion tuag at gosod bob un plentyn ac athro yng nghanol y broses dysgu yn beth da." (Cyfieithiad) [Rhanddeiliad addysg]

Mynegwyd pryderon am effaith y cynigion ynghylch yr iaith Gymraeg ar addysgu a dysgu. Mynegodd ymatebwyr bryderon am effaith y cynigion ynghylch yr iaith Gymraeg ar gyrhaeddiad addysgol ac am anymarferoldeb gweithredu newidiadau o'r fath o fewn y system addysg bresennol.

"Does prin dim yn y Papur Gwyn hwn sy'n awgrymu sut y mae disgwyl i ysgolion cyfrwng Saesneg i gynyddu safon Cymraeg, ar wahân i drwy gonsortia rhanbarthol yn cefnogi gwell 'ethos a diwylliant' tuag at yr iaith. Yr unig gyngor i ysgolion cyfrwng Saesneg yw y bydd rhaid iddynt 'ganolbwyntio mwy' ar ddarpariaeth yn yr iaith. Mae hwn yn amwys i ddweud y lleiaf. Beth ydy 'canolbwyntio mwy' yn golygu?" (Cyfieithiad) [Unigolyn – ddim yn cynrychioli sefydliad]

Yn ogystal, mynegwyd pryderon ynghylch anhawster neu amhosibilrwydd diwygio'r cwricwlwm ac asesu dan y cyfyngiadau presennol ar adnoddau a'r llwyth gwaith mawr ar athrawon. Nododd ymatebwyr nad oes digon o adnoddau ariannol ac ar ffurf y gweithlu i weithredu'r newidiadau sylweddol sy'n ofynnol, heb roi mwy o faich ar athrawon.

Beirniadwyd ansawdd addysg Gymraeg yn gyffredinol, a nodwyd na fydd y diwygiadau arfaethedig yn effeithiol wrth roi sylw i broblemau systemig ehangach. Mynegwyd pryder gan ymatebwyr bod safonau a chyrhaeddiad addysgol yn gwaethygu ac na fydd y diwygiadau'n rhoi sylw i'r prif sialensiau ym myd addysg yng Nghymru.

Mynegwyd pryder gan ymatebwyr am y ffordd y byddai'r trefniadau cwricwlwm ac asesu newydd yn cael eu gweithredu mewn gwirionedd. Roedd rhanddeiliaid addysg allweddol yn tueddu i godi'r thema hon. Roedd hyn yn cynnwys sut y byddai strwythurau asesu a chymwysterau yn newid a sut fyddai modd sicrhau cydraddoldeb gyda gwledydd eraill y DU.

Gwnaethpwyd sylwadau hefyd am y math o strwythur cwricwlwm a'r cynnwys a fyddai fwyaf priodol. Roedd hyn yn cynnwys mynegi pryder ynghylch y posibilrwydd o golli sgiliau craidd yn y cwricwlwm newydd, yn ogystal â chwestiynu sut y bydd y strwythur MDPh yn cynnal arbenigedd pynciol.

Yn ogystal, roedd ymatebwyr yn beirniadu'r ffordd y cynlluniwyd yr ymgynghoriad a'r ffordd y mae wedi cael ei gyfathrebu. Roedd yr ymatebion hyn yn adrodd am ddiffyg ymwybyddiaeth o'r ymgynghoriad ymhlith rhanddeiliaid ac aelodau'r cyhoedd, bod rhai elfennau yn anodd i'w deall a bod geiriad y cwestiwn yn awgrymu bod Llywodraeth Cymru eisoes wedi gwneud penderfyniadau am faterion penodol.

Mynegwyd themâu penodol newydd hefyd wrth ymateb i'r cwestiwn hwn, yn ogystal â themâu penodol yr ymhelaethwyd arnynt yn fanylach nag a wnaethpwyd yng nghwestiynau cynharach yr ymgynghoriad. Roedd ymatebwyr a nododd eu bod yn sefydliadau wedi cynnig llawer o'r sylwebaeth am y themâu hyn.

Mae angen rhoi ystyriaeth fanylach a mwy gofalus i'r ffordd y caiff dysgwyr sydd ag ADY eu cynorthwyo trwy'r cwricwlwm a'r trefniadau asesu newydd. Roedd y prif faterion i'w hystyried yn cynnwys: Hygyrchedd y cwricwlwm newydd; ymwybyddiaeth a dealltwriaeth ymarferwyr addysgol o ddysgwyr sydd ag ADY; ystyriaeth benodol o ADY o fewn fframweithiau arolygu a sicrhau ansawdd; y ffordd y byddai newidiadau i weithgarwch adrodd a chasglu data yn effeithio ar fonitro ADY; cyfleoedd i gynnwys Iaith Arwyddion Prydain yn y cwricwlwm newydd.

"Mae dysgwyr gydag ADY yn wynebu rhwystrau penodol wrth gyrchu'r cwricwlwm. Gan ystyried bod y pwyslais o fewn y diwygiadau ar rhoi rhyddid i athrawon ac ymarferwyr i greu ac addasu'r cwricwlwm, mae'n hanfodol bod fwy o ymwybyddiaeth o'r materion hygyrchedd hyn. I'r perwyl hwn, rydym yn argymell yn gryf y dylai Llywodraeth Cymru ddatblygu canllawiau ar gyfer ADY i eistedd ochr yn ochr bob un Maes Dysgu a Phrofiad o fewn y cwricwlwm newydd." (Cyfieithiad) [Sefydliad trydydd sector]

Dylai'r cwricwlwm newydd gynnwys pwyslais clir ar les, iechyd meddwl a chymorth cyntaf. Yn y cwricwlwm a'r trefniadau asesu newydd, rhaid cynnwys iechyd meddwl fel elfen statudol o'r cwricwlwm newydd neu fel cyfrifoldeb trawsgwricwlaidd ychwanegol. Mynegwyd pryderon nad yw'r ddeddfwriaeth a'r dull gweithredu presennol yn gwarantu diogelwch ar gyfer dysgu a darpariaeth iechyd meddwl. Dylai'r ffocws fod ar ymgysylltu rhwydweithiau sy'n meddu ar arbenigedd ym maes iechyd meddwl wrth ddatblygu'r cwricwlwm, yn ogystal â dysgwyr, a sicrhau bod trefniadau'r cwricwlwm a'r gweithgarwch asesu newydd yn cyd-fynd â pholisïau a dulliau gweithredu iechyd meddwl. Dylai ymarferwyr addysg gael datblygiad proffesiynol er mwyn sicrhau eu bod yn gallu addysgu iechyd emosiynol a meddyliol o fewn strwythur y cwricwlwm newydd. Dylid cynnwys cymorth cyntaf (ac adfywio cardio-pwlmonaidd yn arbennig) yn strwythur y cwricwlwm newydd.

"Mae angen i ni osod iechyd meddwl a lles fel rhan statudol o'r cwricwlwm newydd ar gyfer yr holl ddysgwyr a'u rhestru o fewn deddfwriaeth brimaidd er mwyn rhoi pwysau a statws

uwch i'r agenda hon. Eto, wrth wneud, nid ydym yn gofyn athrawon i gymryd ymlaen unrhyw rôl ychwanegol. Yn hytrach, rydym yn cyfreithloni'r mater ac yn galluogi a grymuso'r sector addysg yng Nghymru to feddwl yn barhaus am anghenion iechyd meddwl a lles dysgwyr. Bydd hwn yn anorfod yn arwain at well ddeilliannau i ddysgwyr yn gyffredinol wrth i ddisgyblion deimlo'n fwy hyderus ac abl i ganolbwyntio gan wybod eu bod yn medru derbyn cymorth os oes ganddynt bryderon." (Cyfieithiad) [Sefydliad trydydd sector]

"Hoffwn dynnu sylw at y bwlch mewn hyfforddiant ar gyfer iechyd meddwl i athrawon yng Nghymru. Mae hwn yn destun pryder cynyddol y gellid mynd i'r afael ag ef yn ystod gweithrediad graddol y cwricwlwm newydd. Credwn y dylai'r gweithlu addysg presennol ar draws holl ysgolion Cymru dderbyn ymwybyddiaeth sylfaenol mewn iechyd meddwl ac emosiynol i gynyddu hyder wrth addysgu'r pwnc." (Cyfieithiad) [Sefydliad trydydd sector]

Mae leithoedd Tramor Modern yn elfen bwysig o gwricwlwm cyflawn ac iach a dylid eu diogelu mewn deddfwriaeth. Roedd rhanddeiliaid addysg allweddol yn tueddu i godi'r thema hon. Roedd ymatebwyr wedi cyflwyno dadleuon manwl dros gynnwys ITM mewn deddfwriaeth fel elfen statudol o'r cwricwlwm, yn hytrach na gadael hyn i ddisgresiwn athrawon. Mynegwyd pryderon ynghylch y diffyg diogelwch a roddir i ITM o'i gymharu â'r hyn a roddir i'r Gymraeg a Saesneg, ac roedd ymatebion yn nodi siom ynghylch y ffaith nad yw'r cynigion deddfwriaethol yn adlewyrchu uchelgais Llywodraeth Cymru a nodwyd yn *Dyfodol Byd-eang*.[3]

"Mae gwanhau sefyllfa statudol dysgu ieithoedd heblaw Saesneg a'r Gymraeg yn siomedig, ac yn peryglu gosod dysgwyr yng Nghymru dan anfantais mewn cymdeithas fwyfwy amrywiol, aml-ddiwylliannol ac mewn marchnad lafur fwyfwy byd-eang. Gall sgiliau mewn ieithoedd rhyngwladol fod yn allweddol i helpu creu unigolion sy'n 'barod i chwarae eu rhan yn llawn yn eu bywyd a'u gwaith', yn 'wybodus am eu diwylliant, cymuned, cymdeithas a'r byd, nawr ac yn y gorffennol' ac yn 'parchu anghenion a hawliau eraill fel aelod o gymdeithas amrywiol', sef dibenion penodedig y cwricwlwm newydd." (Cyfieithiad) [Rhanddeiliad addysg]

Dylai'r cwricwlwm newydd gynnwys addysg amgylcheddol a datblygu cynaliadwy. Nid yw strwythur y cwricwlwm newydd yn darparu addysg sy'n ymwneud â'r newid yn yr hinsawdd, bioamrywiaeth, datblygu cynaliadwy neu ddysgu yn yr awyr agored. Barnir bod y math hwn o addysg yn ganolog er mwyn datblygu dinasyddion gwybodus sy'n meddu ar wybodaeth a sgiliau i ddelio â sialensiau mawr y mae'r byd yn eu hwynebu. Mae angen i stiwardiaeth ac ymwybyddiaeth amgylcheddol fod yn rhan annatod o'r cwricwlwm.

"Mae angen i ni ail-gyfeirio addysg a helpu pobl i ddatblygu gwybodaeth, sgiliau, gwerthoedd ac ymddygiadau sydd eu hangen ar gyfer datblygiad cynaliadwy. Mae arnom angen myfyrwyr sy'n cael eu hannog i fod yn bobl gyfrifol sy'n datrys heriau megis newid hinsawdd, yn parchu amrywiaethau diwylliannol a bioamrywiaeth ac sy'n cyfrannu tuag at greu byd mwy cynaliadwy." (Cyfieithiad) [Sefydliad trydydd sector]

Dylai partneriaid a rhanddeiliaid addysg ymgysylltu mewn ffordd effeithiol â gweithgarwch i gynllunio a darparu'r cwricwlwm wrth symud ymlaen. Roedd rhanddeiliaid addysg allweddol yn tueddu i godi'r thema hon. Dylai amrywiaeth eang o bartneriaid addysgol fod yn ymwneud â gweithgarwch i gynllunio a darparu'r cwricwlwm

[3]Llywodraeth Cymru (2015), *Dyfodol Byd-eang Cynllun i wella a hyrwyddo ieithoedd tramor modern yng Nghymru 2015–2020*.

(gan gynnwys gweithwyr ieuenctid, sefydliadau trydydd sector a busnesau) sy'n cyflawni rôl pwysig wrth ddarparu dysgu y tu allan i amgylchedd yr ystafell ddosbarth. Mae gan bartneriaid addysg o'r fath arbenigedd mewn meysydd dysgu penodol (megis addysg amgylcheddol, iechyd meddwl, cymorth cyntaf neu addysg gyrfaoedd) sy'n gallu ychwanegu at wybodaeth athrawon a chynnig capasiti arbenigol ychwanegol.

Pwysleisir datblygiad proffesiynol ymarferwyr Addysg unwaith eto, a gwneir cyfeiriad penodol at Addysg Gychwynnol i Athrawon a hyfforddiant Cymraeg (AGA) effeithiol. Roedd rhanddeiliaid addysg allweddol yn tueddu i godi'r thema hon. Bydd angen rhaglen dysgu proffesiynol sylweddol a chydlynol er mwyn eu cynorthwyo i ddatblygu a darparu cwricwlwm a threfniadau asesu newydd. Yn arbennig, mae hyn yn cynnwys sicrhau bod darpariaeth AGA yn paratoi athrawon newydd mewn ffordd briodol, gan roi sylw i feysydd pwnc allweddol sy'n codi yn y cwricwlwm newydd.

Rhaid rhoi ystyriaeth bellach i'r ffordd y mae'r cwricwlwm a'r trefniadau asesu newydd yn berthnasol ar draws pob lleoliad addysgol. Mae hyn yn cynnwys ystyried sut y mae'r trefniadau yn berthnasol i'r blynyddoedd cynnar, lleoliadau nas cynhelir a lleoliadau AB. Ceir pryderon bod y trefniadau newydd yn canolbwyntio ar ysgolion cynradd ac uwchradd yn bennaf ar hyn o bryd, heb roi ystyriaeth ddigonol i'r rôl allweddol y mae'n rhaid i ddarparwyr blynyddoedd cynnar a lleoliadau AB ei gyflawni wrth gynllunio a chyflwyno'r cwricwlwm a'r trefniadau asesu newydd.

Dylai'r cwricwlwm newydd bwysleisio llythrennedd ariannol. Weithiau, nodir bod llythrennedd ariannol yn sgil canolog sy'n angenrheidiol er mwyn i ddysgwyr ddatblygu i fod yn oedolion gwybodus a galluog.

“Rydym yn teimlo bod angen cynnwys gallu ariannol plant a phobl ifanc o fewn y cwricwlwm. Byddai hyn yn cyd-fynd yn glir â’r Maes Dysgu a Phrofiad Iechyd a Lles, a’r diben o greu unigolion iach, hyderus sy’n barod i fyw bywydau boddhaus fel aelodau gwerthfawr o gymdeithas.” (Cyfieithiad) [Ymarferydd addysg]